



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori ar y Papur Gwyn

Taro'r cydbwysedd iawn: cynigion ar
gyfer Bil y Gymraeg

Dyddiad cyhoeddi: 9 Awst 2017
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 31 Hydref 2017

Taro'r cydbwysedd iawn: cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg

Trosolwg

Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil y Gymraeg. Mae ein cynigion yn ymwneud â'r trefniadau i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a gwella system Safonau'r Gymraeg.

Sut i ymateb

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **31 Hydref 2017** fan hwyraf.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Paratoi ar gyfer Bil y Gymraeg, Galwad am dystiolaeth: crynodeb o'r ymatebion
llyw.cymru/docs/dcells/publications/170718-wl-bill-sor-cy.pdf

Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr
llyw.cymru/docs/dcells/publications/170711-welsh-language-strategy-cy.pdf

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgyngoriadau

Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Tîm Bil y Gymraeg
Is-adran y Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost:

UnedaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru

Ffôn: 0300 0604400

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	2
Ein gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg	3
Strwythur y Papur Gwyn hwn	13
Crynodeb o gynigion y Papur Gwyn hwn	14
Rhan 1: Hybu'r Gymraeg	15
Rhan 2: Llywodraethiant ac atebolrwydd	25
Rhan 3: Safonau'r Gymraeg	36
Rhan 4: Cwmpas y cyrff sy'n ddarostyngedig i ddeddfwriaeth y Gymraeg	60
Rhan 5: Asesu effaith ein cynigion	64
Y camau nesaf	66

Rhagair y Gweinidog

Mae hwn yn gyfnod cyffrous yn hanes yr iaith Gymraeg yng Nghymru. 75 mlynedd ar ôl y Welsh Courts Act 1942 a 50 mlynedd ar ôl Deddf yr Iaith Gymraeg 1967, mae ein huchelgais yn fawr ac ar gynnydd. Mae pwerau'r Cynulliad i wneud deddfwriaeth sylfaenol yn rhoi'r gallu i ni gymryd camau breision nad oedd yn bosibl i'r cenedlaethau oedd yn gyfrifol am y deddfau hynny.

Cyfrifoldeb y genhedlaeth hon yw dychmygu a chreu gwlad lle mae'r Gymraeg yn gadarn ac yn gynaliadwy. Dymunwn ei gweld hi'n ffynnu fel rhan annatod o gymdeithas gyfoes yr unfed ganrif ar hugain, gyda dwyieithrwydd wedi ymblethu'n ddi-dor drwy gymuned a gwaith ym mhob cwr o'r wlad. Y weledigaeth honno sy'n sail i *Cymraeg 2050*.

Dyletswydd Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod seiliau deddfwriaethol yr iaith hefyd yn gadarn ac yn gynaliadwy. Fe dorrodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 dir newydd wrth sefydlu hawliau ieithyddol ac mae'n rhaid i ni warchod hynny. Ond mewn cyfnod o gyni ariannol ac ansicrwydd economaidd yn sgil bwriad Llywodraeth y DU i adael yr UE, fedrwn ni ddim cyfiawnhau trefn fiwrocraidaidd sy'n gostus ac sy'n bygwth tagu ewyllys da tuag at yr iaith. Os am gyflawni ein gweledigaeth, mae'n rhaid i ni ddewis yn ddoeth a gwneud y pethau a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf yn y pen draw. Mae angen meithrin hyder a dyhead i ddysgu a defnyddio'r iaith, os ydym am sicrhau fod y genhedlaeth nesa yn cofleidio dwyieithrwydd fel rhan gyffredin o fywyd bob dydd.

Mae'r Papur Gwyn hwn yn cyflwyno cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer deddfwriaeth newydd. Dylid darllen y ddogfen ar y cyd â *Cymraeg 2050* a'r crynodeb o ymatebion i'r alwad am dystiolaeth, *Paratoi am Fil y Gymraeg newydd*. Fy mwriad yw rhoi egni newydd i'n hymdrechion i hybu'r iaith drwy sefydlu Comisiwn y Gymraeg, tra'n gwarchod hawliau, symleiddio biwrocraatiaeth a sefydlu trefniadau modern ar gyfer cynllunio ieithyddol ar draws y gwasanaethau cyhoeddus. Mae angen sicrhau, hefyd, ein bod yn deddfu yn ôl cymhwysedd y Cynulliad o dan Ddeddf Cymru 2017 fel y gallwn ni ymestyn y safonau i unrhyw gorff sy'n gymwys.

Rwy'n gobeithio y bydd y cynigion hyn yn sbarduno trafodaeth egniol ac y bydd y consensws ehangaf posib i Fil newydd ar gyfer y Gymraeg.

Alun Davies AC

Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

Ein gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg

1. Yn ein Rhaglen Lywodraethu, *Symud Cymru Ymlaen*, gwnaethom ymrwymiadau cadarn o ran y Gymraeg, sef:
 - gweithio tuag at gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050;
 - gweithio i annog mwy o bobl i ddefnyddio'r Gymraeg;
 - diwygio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur').
2. Mewn ymateb i ddyletswydd gyfreithiol¹ ar Lywodraeth Cymru² i amlinellu sut y byddwn yn hybu ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, cyhoeddwyd ein strategaeth ar gyfer y Gymraeg yn ddiweddar, sef Cymraeg 2050. Mae Cymraeg 2050 yn cadarnhau ein huchelgais i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac yn amlinellu map ar gyfer gwneud y weledigaeth hon yn realiti. Yn unol â'r gyfraith, byddwn yn mynd ati i ddatblygu a chyhoeddi cynllun yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r cynigion yn Cymraeg 2050.
3. Mae'r Gymraeg yn un o drysorau cenedlaethol Cymru. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl ac fel cenedl. Erbyn 2050, rydym am i'r Gymraeg fod yn rhan o wead bywyd bob dydd yng Nghymru, a chael ei defnyddio'n gyffredin gartref, yn y gymuned, ac yn y gwaith. Rydym am i'r Gymraeg gael ei gwerthfawrogi gan bawb am ei chyfraniad i ddiwylliant a chymdeithas yng Nghymru, ac am ei rôl o ran yr economi.
4. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth yn Cymraeg 2050, bydd angen i adrannau Llywodraeth Cymru weithredu ar y cyd, a chydag ymrwymiad ein partneriaid – awdurdodau lleol yn fwyaf arbennig efallai. Rydym eisoes wedi cyhoeddi rhai o'r camau rydym yn eu cymryd ar draws Llywodraeth Cymru, gan gynnwys adolygu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, sefydlu continwwm o ddysgu Cymraeg o fewn y cwricwlwm, gwella darpariaeth y blynyddoedd cynnar ac adolygu rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a phwysigrwydd y Gymraeg mewn addysg bellach. Rydym yn grediniol bod y lefel hon o uchelgais yn hanfodol os ydym am wneud gwahaniaeth gwirioneddol o ran y Gymraeg.
5. Diben y Papur Gwyn hwn yw holi eich barn am ein cynigion i gyflwyno Bil y Gymraeg newydd i wella'r ffordd mae'r Gymraeg yn cael ei hybu, helpu gwasanaethau cyhoeddus i wella eu capasiti i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg, ac ystyried y ffordd rydym yn gosod dyletswyddau yn ymwneud â'r Gymraeg ac yn eu gorfodi. Yn y bennod hon rydym yn amlinellu rhai o'r heriau a wynebwn. Yn Rhannau 1 i 4, rydym yn amlinellu ein cynigion ar gyfer gwneud newidiadau i'r gyfraith.
6. Mae eich barn chi ar ein cynigion yn hollbwysig i'n helpu i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn addas wrth inni weithio tuag at gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a chyflawni ein hymrwymiadau yn *Symud Cymru Ymlaen*.

Pam mae angen inni newid y gyfraith

7. Gall llywodraethau wneud gwahanol bethau i sicrhau bod eu polisiâu yn llwyddo. Mae'r rheini'n cynnwys:

¹ a.78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006

²Yn y papur hwn, rydym yn cyfeirio at Lywodraeth Cymru, ond mae'r swyddogaethau wedi'u rhoi'n gyfreithiol i Weinidogion Cymru.

- dylanwadu ar ymddygiad pobl drwy gynnal ymgyrchoedd sy'n rhoi gwybodaeth ac yn addysgu (e.e. bwyta'n iach)
 - cymhellion ariannol i hybu rhai mathau o ymddygiad (e.e. dim TAW ar lyfrau) ac annog pobl i beidio ag ymddwyn mewn ffordd arbennig (e.e. tollau cartref ar dybaco ac alcohol)
 - ymyrryd mewn marchnadoedd fel y byddant yn gweithio'n well (e.e. labelu bwyd a diod)
 - cyflwyno hunanreoleiddio a chodau ymarfer gwirfoddol (e.e. safonau hysbysebu)
 - gosod rheolau a safonau y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw (e.e. safonau bwyd).
8. Yn aml, nid yw yw'n ddigon gwneud un o'r rhain yn unig, a bydd yn rhaid gweithredu mewn mwy nag un ffordd ar yr un pryd. Mae'r Papur Gwyn yn gwneud cynigion ynghylch sut mae angen newid y gyfraith mewn perthynas â'r Gymraeg, yn ein barn ni. Yn benodol, drwy edrych ar yr hyn rydym yn ei wneud ar hyn o bryd a sut y gellid ei wneud yn well, credwn fod angen inni edrych eto ar y gwahanol bolisiau rydym yn eu gweithredu. Mae hyn yn golygu ystyried y dyletswyddau rydym yn eu gosod ar gyrrff cyhoeddus a'r trefniadau presennol ar gyfer gosod a gorfodi Safonau'r Gymraeg, a'r holl ffyrdd gwahanol rydym yn hybu ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.
9. Ein hamcanion yw:
- taro'r cydbwysedd iawn rhwng hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a rheoleiddio dyletswyddau yn ymwneud â'r Gymraeg;
 - lleihau biwrocratiaeth a sicrhau gwerth am arian.
10. Dylid nodi bod hybu'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn golygu pethau gwahanol. Yn y Papur Gwyn hwn, fodd bynnag, er hwylustod, rydym am ddefnyddio'r ymadrodd 'hybu'r Gymraeg' i olygu hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Yn achlysurol, er mwyn bod yn glir, fe awn ati i egluro'r hyn a olygwn yn llawnach.

Taro'r cydbwysedd iawn rhwng hybu a rheoleiddio

11. Gall rheoleiddio a hybu, fel ei gilydd, gyfrannu at gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, ond mae i'r ddwy elfen fanteision a chostau gwahanol. Yn y papur hwn, yn gyffredinol mae rheoleiddio yn golygu gosod dyletswyddau sy'n ymwneud â'r Gymraeg ar gyrrff. Gelwir y rhain yn Safonau'r Gymraeg ("Safonau") a gwneir hyn drwy reoliadau a hysbysiadau cydymffurfio. Eir ati hefyd i fonitro i ba raddau y cydymffurfir â'r Safonau hynny a gorfodi'r cyrrff i gydymffurfio. Nod rheoleiddio yw sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg penodol ar gael. Gall effeithio hefyd ar y defnydd a wneir o'r gwasanaethau hynny, drwy ei gwneud yn hwylus i'w defnyddio a thrwy sicrhau bod cyrrff yn hybu'r gwasanaethau Cymraeg a ddarparant. Mae hefyd yn rhoi hawliau i bobl Cymru wrth ddelio â darparwyr gwasanaethau cyhoeddus. Mae rheoleiddio yn effeithio ar sut caiff gwasanaethau cyhoeddus eu trefnu, ar eu cynlluniau ar gyfer y gweithlu a'u gofynion o ran sgiliau, ac ar eu systemau a'u gweithdrefnau. Mae hefyd yn effeithio ar yr amgylchedd cymdeithasol a diwylliannol ehangach, gan wneud yr iaith yn fwy gweladwy, a chan gadarnhau statws swyddogol yr iaith yn llygaid y cyhoedd.
12. Prif nod polisiau a chymau i hybu'r Gymraeg yw cynyddu nifer y rheini sy'n siarad Cymraeg, cynyddu lefelau rhuglder a llythrennedd, a chodi hyder pobl i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd cymdeithasol a busnes o bob math. Mae hyn yn cynnwys cynyddu'r nifer sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg. Yn ogystal â chyllido swydd

Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd") i gyflawni rhai o'r tasgau hyn – prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg – mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyllido cyrff cenedlaethol fel y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Mudiad Meithrin, yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol, canolfannau iaith rhanbarthol, yn ogystal â gweithgarwch ar lefel gymunedol o bob math drwy grantiau. Mae'r adran isod, 'Hybu', yn rhoi brasolwg o hyd a lled y gweithgarwch sy'n hybu'r iaith, ac yn Nhabl 1 yn Rhan 1 rydym yn amlinellu pa rai o weithgareddau Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd presennol sy'n berthnasol i'r Papur Gwyn hwn.

Y defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg

13. Er bod y gwasanaethau Cymraeg a ddarperir yn dechrau cysoni wrth i gyrff sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus symud o gynlluniau iaith i weithredu o dan y Safonau, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y nifer sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny yn dal yn isel. Mae adroddiad y Comisiynydd, *Sefyllfa'r Iaith Gymraeg 2012-2015*³ yn defnyddio data arolwg i ddangos bod 86% o siaradwyr Cymraeg yn teimlo ei bod yn bwysig neu'n weddol bwysig gallu cael gwasanaethau a gwybodaeth awdurdodau lleol yn Gymraeg. Dywedodd tua hanner y rheini sy'n siarad Cymraeg (53%) eu bod yn ceisio defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol o leiaf, wrth ddelio â gwasanaethau cyhoeddus, a'u bod yn llwyddo i wneud hynny bob amser, bron bob amser, neu fel rheol, 85% o'r amser. Dywedodd 37% o'r rheini sy'n siarad Cymraeg eu bod yn ceisio llenwi ffurflenni swyddogol yn Gymraeg.
14. Fodd bynnag, mae'r data meintiol ar yr union nifer sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg yn brin, ac mae gwir angen casglu data yn systematig fel y gallwn ddeall effaith ein deddfwriaeth a'n polisiau. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda darparwyr gwasanaethau cyhoeddus i gasglu a chyhoeddi'r data hyn.
15. Ar wefan Cyngor Abertawe, mae'n nodi bod 4,515 o bobl wedi ymweld â'r tudalennau Cymraeg ym mis Mehefin 2017, o gymharu â 207,458 a aeth i'r safle Saesneg (2.2%).⁴ Cyhoeddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam wybodaeth am y defnydd o'u gwasanaethau Cymraeg ar eu gwefan a thrwy eu canolfan gyswllt yn ei adroddiad: *Adroddiad Monitro'r Iaith Gymraeg Blynnyddol 2016/17*.⁵ Yn 2016/17, dewisodd 1.6% o'r nifer a ymwelodd â thudalen hafan y wefan fynd i'r dudalen Gymraeg, ac roedd 1% o'r eitemau busnes a aeth drwy'r wefan yn Gymraeg. Roedd 0.5% o'r galwadau i'r ganolfan gyswllt a'r ymweliadau â'r ganolfan yn Gymraeg, ond dim ond 8 o gwsmeriaid o blith 122,446 a ddewisodd drafod busnes yn Gymraeg dros y ffôn neu mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb.
16. Mae'r DVLA yn cyhoeddi data ar geisiadau ar-lein am drwyddedau gyrru ac i drwyddedu cerbydau. Yn 2014/15, adnewyddwyd 6,431 o ddisgiau trethi (h.y. trethi ceir) yn Gymraeg. Mae yna ryw 1.3 miliwn o geir yng Nghymru, felly mae hyn yn rhyw 0.5% ohonynt. Yn yr un modd, mae'r Asiantaeth Safonau Gyrru yn cofnodi bod 78 o brofion theori wedi'u cymryd yn Gymraeg yng Nghymru yn 2013/14 (0.17%), o

³ <http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Adroddiad%205-mlynedd%20-%205-year%20Report.pdf>

⁴ <http://www.abertawe.gov.uk/article/8170/Ystadegaur-wefan>

⁵ http://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/welsh_language_standards/welsh_annual_monitoring_report_2016_17w.pdf

gymharu â 46,309 yn Saesneg. Cymerwyd 217 o brofion ymarferol yn Gymraeg yn 2013/14 (0.76%), o gymharu â 28,418 yn Saesneg.⁶

17. Bydd yna lawer o resymau pam mae'r ffigurau hyn mor isel. Un o'r prif resymau yw bod meysydd llywodraethu a gweinyddu yng Nghymru wedi'u cynnal yn Saesneg yn hanesyddol, a gwasanaethau wedi bod yn cael eu darparu yn Saesneg. Ymddengys fod gwreiddiau dwfn i'r rhwystrau cymdeithasol a diwylliannol i newid arferion pobl a'i bod yn anodd newid yr arferion hyn. Serch hynny, mae darllen y ffigurau yn ein gwneud yn anghyfforddus. Mae'n glir bod llawer o waith i'w wneud i annog pobl i ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus Cymraeg a chau'r bwlch rhwng y galw posibl (nifer y siaradwyr Cymraeg mewn ardal sy'n defnyddio'r gwasanaethau, ond yn dewis peidio â defnyddio'r rhai Cymraeg) a'r galw go iawn.
18. Bydd y darparwyr gwasanaethau sydd o dan y dyletswyddau sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn allweddol er mwyn gwneud hyn, o ran i ba raddau y maent yn datblygu diwylliant dwyieithog eu sefydliad, ac i ba raddau y maent yn mynd ati i hybu'r gwasanaethau Cymraeg a gynigiant yn effeithiol. Er bod sawl esiampl o arfer da, bydd angen cryn gymorth ar lawer o gyrff er mwyn iddynt gynyddu eu capasiti i ddarparu gwasanaethau Cymraeg a hybu'r gwasanaethau hynny yn effeithiol. Rydym yn cydnabod na chaiff y weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg ei gwireddu oni bai ein bod yn canolbwyntio ar gynyddu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg. Yn yr un modd, bydd angen inni sicrhau bod y galw am gyrsiau addysg bellach ac uwch, a hyfforddiant galwedigaethol a phroffesiynol, yn cynyddu yn unol â'r gofynion ar gyfer gweithlu dwyieithog sy'n gallu darparu gwasanaethau cyhoeddus yn Gymraeg.
19. Yr her, felly, yw sicrhau ein bod yn rhoi digon o sylw i gapasiti cyrff i addasu i'r cynnydd sylweddol yn lefel y ddarpariaeth gwasanaethau Cymraeg a fydd yn ofynnol ganddynt, i'r nifer a fydd yn defnyddio'r gwasanaethau hynny, ac i ymdrechion ehangach i hybu'r Gymraeg.

Hybu

20. Mae hybu'r Gymraeg yn cwmpasu amrywiaeth eang o weithgareddau, gan amrywiaeth eang o gyrff. Mae rhai cyrff yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar y Gymraeg, ond mae llawer o gyrff yn gwneud gwaith hybu fel rhan o'u prif gyfrifoldebau. Mae cyfraniadau pob un o'r cyrff hyn, o ymgyrchoedd cenedlaethol i waith cymunedol ar lawr gwlad, ynghyd ag ymdrechion unigolion, yn hanfodol os ydym am gyflawni ein huchelgais i sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu. O ystyried ehangder y gweithgarwch, mae'n bwysig cydgysylltu gwaith gwahanol gyrff er mwyn sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn cael yr effaith gyffredinol fwyaf.

Cefnogaeth ariannol

21. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant i gefnogi cyrff sy'n helpu i ddatblygu'r iaith, er enghraifft y Mentrau Iaith, Merched y Wawr a Chlybiau Ffermwyr Ifanc, gweithgareddau cymunedol fel eisteddfodau lleol a'r Papurau Bro, a chyrff cenedlaethol fel yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol a Mudiad Meithrin. Mae Llywodraeth Cymru, gan weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach, hefyd wedi darparu cyllid cyfalaf i sefydlu rhwydwaith o 10 o Ganolfannau Iaith er mwyn rhoi cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr gymryd

⁶ <http://gov.wales/docs/dcells/welsh-language/publications/160929-wls-annual-cy.pdf>

rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd o bob math drwy'r Gymraeg. Er nad yw Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid refeniw i'r canolfannau hyn, mae llawer o'r cyrff sy'n rhedeg neu'n defnyddio'r canolfannau yn derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru.

Ymgyrchoedd marchnata a'r cyfryngau

22. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith i hybu'r Gymraeg drwy ymgyrchoedd marchnata cenedlaethol ac ymgyrchoedd drwy'r cyfryngau, a thrwy ddosbarthu deunyddiau i gefnogi gwahanol agweddau ar yr iaith. Mae'r ymgyrchoedd hyn yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau traddodiadol a chymdeithasol i ganolbwyntio ar grwpiau blaenoriaeth, e.e. annog rhieni i ystyried addysg Gymraeg ar gyfer eu plant, ac annog pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol a'r coleg. Mae'r Comisiynydd hefyd yn ymgymryd â gweithgarwch ar gyfer y cyfryngau ac i hybu'r Gymraeg mewn perthynas â'r Safonau a'r gwasanaethau cyhoeddus sydd ar gael yn Gymraeg, e.e. dwy ymgyrch ddiweddar yn ymwneud â'r Safonau a hawliau pobl i gael gwasanaethau drwy'r Gymraeg.
23. Mae nifer o'r cyrff sy'n derbyn cyllid grant hefyd yn rhedeg eu hymgyrchoedd marchnata eu hunain. Mae'r rhain yn cynnwys cyrff lleol ar lefel sir a chymuned, ond hefyd cyrff cenedlaethol fel y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae yna heriau pan fydd nifer o gyrff yn gwneud gwaith y cyfryngau a marchnata ar yr un pryd, e.e. sicrhau bod negeseuon yn gyson, nad yw'r prif flaenoriaethau marchnata yn cael eu glastwreiddio, a bod ansawdd yr ymgyrchoedd a'r defnydd o wahanol gyfryngau mor effeithiol a chost-effeithiol â phosibl.

Cefnogi busnesau

24. Un arall o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran hybu'r Gymraeg yw gwaith sy'n ymwneud â busnesau preifat, yn benodol y busnesau hynny nad ydynt yn ddarostyngedig i'r Safonau ar hyn o bryd. A siarad yn gyffredinol, mae hynny'n golygu busnesau nad ydynt yn gwmnïau cyfleustodau mewn gwasanaethau fel nwy, trydan, dŵr a thelathrebu. Ers tro, mae wedi bod yn amcan polisi pwysig ein bod yn dylanwadu ar fusnesau a'u perswadio i greu arwyddion, dogfennau, ffurflenni a gwasanaethau Cymraeg. Mae rhywfaint o'r gwaith hybu hwn yn targedu busnesau mawr fel banciau ac archfarchnadoedd, ond mae hefyd yn golygu cynnig mathau amrywiol o gymorth i fentrau bach a chanolig. Mae'n gyfnod aruthrol bwysig ar hyn o bryd gan fod technoleg ddigidol yn gweddwid arferion busnes, ac mae'r cynnydd a wnaed gan fusnesau yn y gorffennol o ran darparu gwasanaethau Cymraeg mewn perygl o gael ei golli. Er enghraifft, mae'r newid i wasanaethau digidol, ar-lein a ffôn yn golygu bod pobl yn dibynnu lawer yn llai heddiw ar wasanaethau wyneb yn wyneb mewn adeiladau o friciau a mortar, neu ar ffurflenni papur.
25. Mae'r gwasanaethau cymorth busnes a ddarperir gan wasanaeth Busnes Cymru Llywodraeth Cymru (drwy ei wefan a llinell gymorth) ar gael yn Gymraeg.⁷ Caiff llawer o wasanaethau cymorth busnes Cymraeg wyneb yn wyneb Llywodraeth Cymru eu darparu drwy gontractwyr rhanbarthol a lleol. Hefyd, mae'r Mentrau Iaith a chyrrff eraill (rhai yn cael eu cefnogi gan grantiau Llywodraeth Cymru) yn gweithio'n uniongyrchol gyda busnesau lleol. Mae'r Comisiynydd hithau yn ymgymryd â gwaith hybu'r

⁷ <https://businesswales.gov.wales/cy>

Gymraeg sy'n targedu'r sector preifat, gan gynnwys gwefan 'Hybu' (sy'n hybu'r Gymraeg ymhlith busnesau a sefydliadau'r trydydd sector).⁸ Mae'r wefan hon yn cynnwys astudiaethau achos, adnoddau hunanasesu a chynllun i wella darpariaeth Gymraeg busnes, gwasanaeth prawfddarllen, digwyddiadau hyfforddi achlysurol, a chanllawiau ar wahanol bynciau. Mae tîm bach o swyddogion y Comisiynydd yn gweithio'n uniongyrchol gyda busnesau a sefydliadau'r trydydd sector. Er bod cryn waith yn cael ei wneud gan nifer o gyrff, nid ydym o'r farn bod digon o gydgysylltu rhwng y gyrff sy'n cyflawni'r gwaith hwn ac rydym yn teimlo bod diffyg eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am bennu blaenoriaethau strategol. Yn sicr, mae yna le hefyd i gynyddu lefel y monitro ar effeithiolrwydd y gwaith hybu hwn.

Gwybod i ble i droi am gymorth

26. Un o'r gwasanaethau a gollwyd yn sgil diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg oedd y Llinell Gyswllt. Ar ei ffurf symlaf, mae llinell gymorth yn bwynt cyswllt cyntaf, yn wefan, yn rhif ffôn neu'n ap y gall unrhyw un ei ddefnyddio i gael gwybodaeth gychwynnol, cyngor a chymorth ymarferol. Fel arfer, gall llinell gymorth ddarparu rhai gwasanaethau yn uniongyrchol, neu gyfeirio cleientiaid i'r darparwr priodol. Nid yw hwn yn gyfleuster y mae Llywodraeth Cymru na'r Comisiynydd yn ei ddarparu ar gyfer y Gymraeg ar hyn o bryd. Mae prif ffocws y Comisiynydd ar y Safonau yn golygu bod y brif wefan (ac eithrio microwefan 'Hybu' y soniwyd amdani eisoes) yn gwahodd cwsmeriaid i gysylltu'n bennaf ynghylch cwynion am y Safonau. Sut felly y dylem ymateb i aelod o'r cyhoedd, rhieni plentyn bach, perchennog busnes neu swyddog mewn awdurdod lleol sy'n gofyn pwy all ei roi ar y trywydd iawn neu pwy all ateb ei gwestiwn? Ar hyn o bryd, nid yw'n glir o bell ffordd i ble y gallent neu y dylent droi, yn absenoldeb gwasanaeth sydd wedi'i deilwra i anghenion y defnyddiwr. Rydym yn ei gwneud yn anodd pan ddylem ei gwneud yn hawdd.

Cynllunio ieithyddol

27. Un o'r disgyblaethau sy'n sail i hybu iaith yw cynllunio ieithyddol. Mae'n gangen o'r astudiaeth o iaith a chymdeithas (ieithyddiaeth gymdeithasol) ac mae'n ymwneud ag ymdrechion bwriadol i newid statws cyfreithiol iaith, datblygu adnoddau iaith (ei gramadeg, geirfa ac ati) a dylanwadu ar batrymau dysgu'r iaith a'r defnydd ohoni. Mae'r Mesur ei hun yn offeryn cynllunio ieithyddol ar lefel genedlaethol, gan ei fod yn egluro statws y Gymraeg fel iaith swyddogol, yn sicrhau bod gan bobl y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd, ac yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ddarparu gwasanaethau Gymraeg i safon benodol.
28. Mae dealltwriaeth o gynllunio ieithyddol yn helpu gyrff i benderfynu sut i flaenoriaethu adnoddau a chymau gweithredu yn y ffordd fwyaf effeithiol, er enghraifft er mwyn gwneud iaith yn gryfach a chynyddu'r defnydd ohoni mewn ardaloedd daearyddol (o raddfa genedlaethol i raddfa leol), mewn gwahanol amgylchiadau cymdeithasol (yn y gwaith, mewn lleoliadau cymdeithasol), ymhlith grwpiau demograffig penodol (fel pobl ifanc neu fewnfudwyr) neu mewn sectorau penodol (fel gwasanaethau cyhoeddus a busnesau). Mewn gwahanol ffyrdd, mae cynllunio ieithyddol yn ategu'r gwaith o ddatblygu polisi cenedlaethol, comisiynu prosiectau ac ymyriadau penodol, a lleihau effaith risgiau newydd, fel datblygiadau seilwaith mawr neu newidiadau ym mhatriau'r boblogaeth.

⁸ <http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/hybu/cy/hafan/Pages/hafan.aspx>

29. Mae nifer o'r dyletswyddau a roddir ar gyrff mewn deddfwriaeth yn adlewyrchu ein dealltwriaeth bresennol o sut gall cynllunio ieithyddol gefnogi ieithoedd lleiafrifol. Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys y nodau llesiant cenedlaethol ac egwyddor datblygu cynaliadwy sydd wedi'u hymgorffori yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), rhai o'r Safonau eu hunain, fel y rheini sy'n ymwneud ag asesu effaith polisi, strategaethau i hybu'r defnydd o'r iaith mewn ardal leol a chynllunio'r gweithlu, a'r gofyniad am gynlluniau strategol ar gyfer addysg Gymraeg. Er mwyn ymateb i'r dyletswyddau hyn yn effeithiol, mae angen cymysgedd gymhleth o sgiliau cynllunio ieithyddol er mwyn integreiddio elfennau o gynllunio strategol, datblygu sefydliadau, ymyriadau i annog pobl i newid eu harferion a chydweithredu rhwng y partneriaid amrywiol. Os yw cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru i fod yn rhan o'r gwaith o hybu'r Gymraeg yn fwy, rhaid eu cefnogi i ddatblygu sgiliau cynllunio ieithyddol. Un o'r ffyrdd o wneud hyn yw drwy ddarparu hyfforddiant priodol, rhannu arferion da, yn ogystal â chreu a chefnogi rhwydweithiau ymarferwyr.

Rhwydweithiau ymarferwyr a rhannu arferion da

30. Mae'r adborth a ddaeth i law gan gyrff o dan y Safonau, yn sgil ein galwad am dystiolaeth, yn dangos bod ymarferwyr yn ystyried bod cynnal rhwydweithiau o'r fath yn elfen hanfodol er mwyn cefnogi eu hymdrechion eu hunain i hybu'r defnydd o'r iaith yn lleol ac o fewn eu sefydliadau. Fodd bynnag, maent yn nodi dirywiad yn y gefnogaeth i rhwydweithiau ymarferwyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er gwaethaf gofynion y ddeddfwriaeth newydd a'r weledigaeth uchelgeisiol a nodwyd yn Cymraeg 2050, sydd efallai yn rhoi mwy o bwys, nid llai, ar rhwydweithiau o'r fath.
31. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i dynnu amrywiaeth eang o gyrff ynghyd er mwyn rhannu gwybodaeth, ond nid yw'r rhain yn rhwydweithiau sy'n ceisio datblygu gwybodaeth a sgiliau ymarferwyr yn uniongyrchol o ran hybu'r Gymraeg. Nid yw'r Llywodraeth yn y sefyllfa orau bob amser i gefnogi rhwydweithiau ymarferwyr, er ein bod yn gwerthfawrogi'r rhwydweithiau hynny yn fawr oherwydd y cyfleoedd maent yn eu cynnig i ddysgu o astudiaethau achos ac arferion gorau a phrofi bwriadau polisi. Mae'r Comisiynydd hefyd yn defnyddio rhwydweithiau o'r fath er mwyn rhannu gwybodaeth ac ar gyfer gweithdai a seminarau, ond nid yw'n nodd'i'r rhwydweithiau eu hunain. Mae rhwydweithiau rhanbarthol a chenedlaethol yn chwarae rôl bwysig fel ffordd o rannu gwybodaeth â'r lluo o rhwydweithiau sirol a chymunedol sy'n bodoli.

Newid ymddygiad

32. Mae'r Safonau yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff hybu'r gwasanaethau Cymraeg a ddarparant. Fel y nodwyd eisoes, ychydig yw'r data a gasglwyd yn systematig gennym am y defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg, ond mae'r data sydd gennym yn awgrymu bod y lefelau yn isel o gymharu â'r nifer o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg. Nid yw'n glir eto a ydym wedi dod o hyd i ddulliau effeithiol o sicrhau newidiadau hirdymor o ran dewis iaith pobl wrth dderbyn gwasanaethau. Mae rhai o'n prifysgolion yn gwneud gwaith pwysig yn y maes hwn, ac mae angen inni brofi hyn yn ymarferol. Mae gwaith cyrff i hybu gwasanaethau lleol yn debygol o fod yn fwy effeithiol os yw'n seiliedig ar arferion gorau ac os oes yna ymdrechion ehangach i hybu'r defnydd o'r iaith ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.

Heriau'r dyfodol

33. Wrth edrych i'r dyfodol, gwyddom na allwn sefyll yn yr unfan. Mae'r byd yn newid ar raddfa eithriadol. Mae'r trafodaethau i ddod â'r DU allan o'r UE wedi dechrau. Mae hyn yn nodi dechrau cyfnod a fydd yn effeithio'n aruthrol ar ddyfodol gwleidyddol ac economaidd y DU. Mae'r newidiadau cymdeithasol a demograffiaidd wedi cyflymu yng Nghymru, mae'r boblogaeth yn mynd yn gynyddol amrywiol a symudol a dinas-ranbarthau cryf yn datblygu. Mae rhwydweithiau a chysylltiadau pobl, yn gymdeithasol ac yn eu gwaith, yn fwy nag y byddem wedi ei freuddwydio bymtheg mlynedd yn ôl. Mae technolegau digidol yn gweddnewid yr economi, ein gwasanaethau a'n bywydau bob dydd. Wrth ystyried ein huchelgais i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, gwyddom y bydd yr heriau yn newid. Bydd angen inni wneud pethau gwahanol iawn i hybu'r Gymraeg dros y pump i ddeg mlynedd nesaf, a bydd angen inni ymestyn allan at y rheini nad ydynt yn siarad Cymraeg a dylanwadu ar eu dewisiadau.
34. Mae'r trosolwg hwn o'r gwaith sy'n digwydd ar hyn o bryd i hybu'r Gymraeg, ac sy'n datblygu, yn rhoi syniad inni o raddfa'r heriau ar gyfer y dyfodol. Ar y lefel fwyaf sylfaenol, bydd angen inni:
- bennu blaenoriaethau ac amcanion clir ar gyfer rhaglen waith i hybu'r Gymraeg;
 - cydgysylltu ac integreiddio gwaith lleol a chenedlaethol i hybu'r iaith;
 - darparu cymorth ymarferol i gyrrff yn y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector;
 - penodi eiriolwr ar ran yr iaith;
 - darparu 'siop un stop' ar gyfer y cyhoedd;
 - arwain newid ar draws sawl sefydliad;
 - lleihau dyblygu a sicrhau gwerth am arian.
35. Bydd hyn yn galw am arweinyddiaeth glir ac adnoddau i gyflawni'r nod. Gall deddfwriaeth ategu uchelgais Cymraeg 2050, ond ni ellir deddfu i'w wireddu. Dim ond os caiff ein cydymdrechion i hybu'r Gymraeg eu gweddnewid y gellir gwireddu Cymraeg 2050.

Lleihau biwrocratiaeth

36. Yng ngoleuni hyn, mae'n anffodus bod rhai agweddau ar y Safonau a gyflwynwyd gan y Mesur wedi cael y prif sylw o ran polisi'r Gymraeg dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gan effeithio ar ganfyddiad pobl ohono. Roedd y Mesur yn gam pwysig iawn ymlaen o ran polisi iaith am ei fod yn sefydlu hawliau eang i bobl yng Nghymru gael gwasanaethau Cymraeg. Mae Rhan 3 y Papur Gwyn hwn yn amlinellu ein dadansoddiad ni o system y Safonau a gyflwynwyd gan y Mesur. Wedi ystyried nifer o opsiynau yn Rhan 3 y Papur Gwyn hwn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai Safonau yw'r opsiwn mwyaf effeithiol o hyd o ran sicrhau hawliau'r cyhoedd i gael gwasanaethau Cymraeg. Rydym yn teimlo y dylai'r Safonau fod yn berthnasol i fwy o gyrrff. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gennym yn dangos bod y cyrrff sy'n gorfod bodloni'r Safonau yn eu croesawu yn gyffredinol, eu bod yn dechrau gwneud gwahaniaeth i gwmpas ac ansawdd y gwasanaethau sydd ar gael, a'u bod yn cael effaith ar ymwybyddiaeth ehangach o'r iaith a'i gwerth.
37. Fodd bynnag, nid oes amheuaeth bod y ffordd y mae'r system yn gweithio yn gosod baich gweinyddol sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus. Mae'r dystiolaeth gan gyrrff sydd nawr dan y Safonau – cyrrff o amrywiol sectorau ac ym mhob rhan o Gymru – yn glir bod cymhlethdod y gweithdrefnau ymgynghori, monitro, cydymffurfio ac adrodd yn golygu cryn amser ac ymdrech i'r sefydliadau. Dywed rhai y byddai'n well buddsoddi'r

amser a'r ymdrech hon yn gwella gwasanaethau Cymraeg, yn hybu'r gwasanaethau hynny ymhlith y cyhoedd, ac yn hybu'r iaith o fewn y sefydliad ac yn lleol. Dywed nifer o gyrff fod cyfnod estynedig o gynt ariannol wedi golygu bod eu swyddogion iaith wedi gorfod troi oddi wrth eu tasg go iawn er mwyn rhedeg systemau a gweithdrefnau monitro ac adrodd nad ydynt o fudd uniongyrchol mawr i'r cyhoedd.

38. Mae yna risg wirioneddol hefyd fod geiriau fel 'gosod', 'cydymffurfio' a 'gorfodi' yn tansellio ymdrechion i greu consensws ac ewylllys da tuag at y Gymraeg. Ers i'r Safonau gael eu cyflwyno a'u gorfodi, mae'r dystiolaeth yn awgrymu eu bod wedi cael effaith ar ganfyddiad gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus o'r Gymraeg, ymhlith y rheini sy'n siarad Cymraeg ac nad ydynt yn siarad Cymraeg. Mae'r ymatebion i'r alwad am dystiolaeth yn awgrymu bod rhai siaradwyr Cymraeg yn poeni am gael gwaith ychwanegol am eu bod yn siarad Cymraeg ac yn ofni y bydd y Safonau yn eu 'dal' am nad yw eu Cymraeg yn ddigon da. I'r rheini nad ydynt yn siarad Cymraeg, mae geiriau fel 'gosod', 'cydymffurfio' a 'gorfodi', a gweithdrefnau sy'n gallu arwain at ymchwiliadau ffurfiol hirfaith i gamgymeriadau bach, yn erydu ewylllys da a dymuniad i gefnogi'r iaith.
39. I raddau, mae hyn yn adlewyrchu'r problemau cychwynnol sy'n rhwym o godi yn sgil cyflwyno system newydd. Serch hynny, rydym o'r farn ei fod hefyd yn adlewyrchu problemau gwirioneddol o ran y ffordd y mae'r Safonau yn gweithio ar hyn o bryd. Mae angen gwneud newidiadau ar unwaith er mwyn osgoi tansellio hyder siaradwyr Cymraeg ac ewylllys da pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg.
40. Hyd yma, bu'n ofynnol i 107 o gyrff gydymffurfio â Safonau. Ar sail tystiolaeth a gasglwyd gennym oddi wrth y cyrff hynny a rhanddeiliaid eraill, credwn fod y ffordd y gweinyddir y system bresennol yn rhy gymhleth, yn cymryd gormod o amser ac yn rhy gostus. O dan y trefniadau presennol, mae'n cymryd amser hir i gywiro pethau a sicrhau bod y cyhoedd yn cael y gwasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt. Rydym am gael system sy'n cywiro pethau'n gyflym ac sy'n llai biwrocraidd fel bod mwy o adnoddau ar gael i fynd i'r afael â'r heriau a wynebwn.
41. Ein casgliad yw bod angen inni ailganolbwyntio ein hymdrechion ar hybu'r Gymraeg a gwneud newidiadau i'r system reoleiddio, a hynny ar fyrder. Er mwyn cyflawni Cymraeg 2050, a chyrraedd ein nod llesiant i greu Cymru 'lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', mae angen i bawb deimlo'n rhan o'r daith tuag at sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg. Fel Llywodraeth Cymru, byddwn yn gofalu bod hawliau siaradwyr Cymraeg i gael gwasanaethau Cymraeg yn parhau i gynyddu, ond byddwn hefyd yn gwneud yn siwr ein bod yn estyn allan at bawb, p'un a ydynt yn siarad Cymraeg ai peidio, i'w cymell i ymfalchïo yn yr iaith, ei gwerthfawrogi a'i defnyddio.

Tystiolaeth gan gyrff sy'n ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg

42. Ar ddechrau'r Cynulliad hwn, nodwyd y byddem yn ceisio diwygio'r Mesur. Aethom ati i gyhoeddi galwad am dystiolaeth ar 31 Ionawr 2017. Ein nod oedd ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid i gasglu tystiolaeth gychwynnol fel sail i'n cynigion i ddiwygio. Gofynnodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes i'r ymatebwyr ystyried y cwestiynau canlynol:
 - 1) Beth yw eich profiad neu farn o'r gyfundrefn Safonau? Hoffwn glywed yn arbennig am y prosesau o osod a gorfodi'r safonau, a'ch profiad o weithredu neu baratoi i weithredu'r safonau o fewn eich corff.

- 2) Mae rôl Comisiynydd y Gymraeg yn cynnwys swyddogaethau rheoleiddio a chyfrifoldebau am hybu a hyrwyddo defnydd yr iaith. Ydi'r balans yn gywir?
- 3) Beth yw eich profiad neu farn am y trefniadau presennol am hybu a hyrwyddo defnydd y Gymraeg? Hoffwn glywed yn arbennig eich barn am bwy ddylai fod yn gyfrifol am hybu'r Gymraeg, tra'n cadw mewn cof y dryswch all godi ble mae nifer o gyrff yn gweithredu yn yr un maes.
43. Aeth 49 o swyddogion cyrff cyhoeddus i weithdai a derbyniwyd 35 o ymatebion ysgrifenedig gan amrywiaeth eang o sefydliadau, gan gynnwys cyrff cyhoeddus, y trydydd sector, academia a grwpiau sy'n ymgyrchu dros y Gymraeg. Mae adroddiad yn dadansoddi prif themâu'r ymatebion wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.⁹
44. Dyma'r prif themâu a godwyd yn yr ymatebion:
- mae'r cyrff sy'n ddarostyngedig i'r Safonau yn gweld manteision y system, sydd wedi codi proffil y Gymraeg o fewn eu sefydliadau;
 - mae gweithredu a monitro nifer fawr o Safonau yn creu problemau mewn cyrff mawr a bach;
 - mae dehongli'r Safonau yn creu problemau, yn arbennig gan nad oes canllawiau na chodau ymarfer;
 - ystyrir bod y ffordd yr ymdrinnir â chwynion yn rhy feichus ac yn cael effaith negyddol ar forâl staff y cyrff;
 - mae'r cyrff o'r farn y dylid rhoi cyfle iddynt ddatrys cwynion drostynt eu hunain cyn i'r cwynion gael eu cyfeirio'n ffurfiol i'r Comisiynydd;
 - nid yw'r cyrff yn teimlo bod digon o gydbwysedd rhwng swyddogaethau rheoleiddio'r Comisiynydd a'r gweithgareddau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg;
 - o ran y trefniadau ar gyfer hybu a hwyluso'r Gymraeg yn y dyfodol, nid oes cytundeb ymhlith yr ymatebwyr ynghylch pwy ddylai arwain y gwaith.
45. Rydym yn cyfeirio at y dystiolaeth yn yr adroddiad yn y Papur Gwyn hwn ac yn eich annog i ddarllen yr adroddiad. Rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi ymateb a'n helpu i lunio cynigion y Papur Gwyn hwn.

⁹ <http://llyw.cymru/docs/dcells/publications/170718-wl-bill-sor-cy.pdf>

Strwythur y Papur Gwyn hwn

46. Mae'r papur hwn yn delio â'r prif faterion yn y drefn ganlynol:

Rhan 1: Hybu'r Gymraeg

Rhan 2: Llywodraethiant ac atebolrwydd

Rhan 3: Safonau'r Gymraeg

Rhan 4: Cwmpas y cyrff sy'n ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg

Rhan 5: Asesu effaith ein cynigion

Crynodeb o gynigion y Papur Gwyn hwn

47. Mae llawer o fanylion yn y Papur Gwyn hwn ac mae'n cwmpasu amrywiaeth eang o faterion. Er mwyn helpu'r darllenwr i ddeall y darlun llawn, rydym o'r farn y byddai amlinellu crynodeb o'r prif gynigion o gymorth. Mae'r rhesymeg y tu ôl i'r cynigion hynny, y prif faterion a'r opsiynau a ystyriwyd gennym, wedi'u nodi ym mhrif gorff y Papur Gwyn.

48. Dyma ein prif gynigion:

- i. Dylid sefydlu un prif gorff i fod yn gyfrifol am hybu'r Gymraeg ac am fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau.
- ii. Y corff hwnnw fydd Comisiwn y Gymraeg ac felly dylid diddymu Comisiynydd y Gymraeg.
- iii. Dylai Llywodraeth Cymru fod yn gyfrifol am strategaeth genedlaethol y Gymraeg, polisi cenedlaethol, rheoli a chyllido rhai cyrff sydd o arwyddocâd cenedlaethol, a rhai meysydd gwaith penodedig. Dylai Llywodraeth Cymru drosglwyddo'r gyllideb a'r adnoddau ar gyfer gwaith penodedig arall y mae'n ei wneud ar hyn o bryd i hybu'r Gymraeg i Gomisiwn y Gymraeg.
- iv. Dylid cadw cysyniad Safonau'r Gymraeg.

Dim ond i wasanaethau y dylai'r Safonau fod yn berthnasol. Dylid galw dyletswyddau corfforaethol eraill sy'n rhan o system y Safonau ar hyn o bryd, nad ydynt yn creu hawliau gorfodadwy ar gyfer unigolion, yn 'ddyletswyddau cynllunio ieithyddol' a dylent fod yn ddyletswyddau statudol ar gyrff a nodir yn y ddeddfwriaeth.

- v. Dylid adolygu'r Safonau y mae gofyn i gyrff gydymffurfio â nhw o bryd i'w gilydd a, lle bo'n briodol, dylid gosod Safonau ychwanegol ar gyrff neu gael gwared ag eithriadau a ganiateir i gyrff ar hyn o bryd.
- vi. Dylai Llywodraeth Cymru fod yn gyfrifol am greu a gosod Safonau ar gyrff, ac am gyhoeddi canllawiau a chodau ymarfer. Dylai'r Comisiwn fod yn gyfrifol am fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau.
- vii. Dylai fod yn ofynnol i'r cyrff eu hunain ddelio â chwynion mewn perthynas â'r Safonau yn y lle cyntaf. Dim ond mewn achosion difrifol y dylai'r Comisiwn ymchwilio i gwynion.
- viii. Dylid cadw Tribiwnlys y Gymraeg. Dylai cyrff allu apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn bwriad gan Lywodraeth Cymru i osod Safon arnynt.
- ix. Dylid gallu cymhwyso'r Safonau i unrhyw gorff, cyn belled â bod y gofynion yn rhesymol ac yn gymesur ac o fewn pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") (sy'n cynnwys y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol).

Rhan 1: Hybu'r Gymraeg

Rôl Llywodraeth Cymru

49. Fel llywodraeth genedlaethol a etholwyd yn ddemocrataidd ac sy'n atebol i'r bobl, credwn fod gan Lywodraeth Cymru rai cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Gymraeg, cyfrifoldebau na all unrhyw un ond llywodraeth genedlaethol eu hysgwyddo. Dyma nhw:
- paratoi strategaeth genedlaethol o dan a78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a chynllun i weithredu'r strategaeth;
 - gosod polisiâu cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg;
 - cynnig a chreu deddfwriaeth, gyda chydysyniad y Cynulliad (yn Rhan 3, byddwn yn cynnig bod gosod Safonau ar gyrff hefyd yn gyfrifoldeb i'r Llywodraeth);
 - sefydlu trefniadau ymarferol ar gyfer gweithredu'r strategaeth genedlaethol;
 - darparu adnoddau i gefnogi'r Gymraeg;
 - monitro perfformiad gyrff sy'n helpu i weithredu'r strategaeth, ac adolygu'r strategaeth o bryd i'w gilydd;
 - cynnal cysylltiadau rhynglywodraethol â gwledydd ac ardaloedd eraill sydd â phryderon o ran eu hieithoedd lleiafrifol;
 - bod yn atebol i'r Cynulliad.
50. Mae llawer o feysydd polisi cenedlaethol eraill sy'n hanfodol i'r Gymraeg hefyd yn rhan o swyddogaethau Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am bolisi addysg cenedlaethol Cymru a dylai barhau i arwain ar ddatblygu polisi cenedlaethol. Rydym yn cydnabod mai mater i awdurdodau lleol a byrddau llywodraethu ysgolion yw darparu addysg orfodol. Heb eu cydsyniad a'u hymrwymiad nhw, byddwn yn ei chael yn anodd cyflawni ein huchelgais. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r partneriaid hyn i ddatblygu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg, er enghraifft, drwy gefnogi gwaith cynllunio addysg Gymraeg, rhaglenni cyfalaf ar gyfer ysgolion newydd a datblygu'r cwricwlwm. Mae yna nifer o bartneriaid addysg pwysig eraill, fel y consortia addysg rhanbarthol, ysgolion, colegau a sefydliadau addysg uwch, yn ogystal â chyrff a ariennir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaethau penodol, fel y Coleg Gymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Gymraeg Genedlaethol.
51. Mae egwyddor debyg yn berthnasol o ran datblygu polisi a darpariaeth y blynyddoedd cynnar, yn enwedig yng ngoleuni ein hymrwymiad yn Symud Cymru Ymlaen i ddarparu 30 o oriau o ofal plant am ddim. Mae'r dewisiadau y mae rhieni yn eu gwneud yn ystod blynyddoedd cyntaf eu plant yn hollbwysig i sicrhau bod nifer y rheini sy'n siarad Gymraeg yn cynyddu yn y dyfodol. Mae cefnogaeth Llywodraeth Cymru i gyrff fel y Mudiad Meithrin i ddatblygu gweithlu'r blynyddoedd cynnar sy'n siarad Gymraeg a darpariaeth Gymraeg y blynyddoedd cynnar yn hanfodol er mwyn cyflawni ein huchelgais ar gyfer y Gymraeg. Ymhlith meysydd polisi eraill sy'n cael effaith bwysig ar hyfywedd y Gymraeg mae cynllunio, llywodraeth leol, gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd.
52. Mae yna feysydd penodol hefyd lle gall llywodraeth fod mewn sefyllfa fanteisiol i sicrhau cynnydd tuag at wireddu Gymraeg 2050. Mae gan lywodraeth gryn ddylanwad yn sgil ei rôl arweiniol ar draws sawl maes polisi; yr adnoddau sydd ar gael iddi; yr arbenigedd academaidd, gwyddonol ac arall y gall dynnu arno; ei gallu i gyflwyno

deddfwriaeth; ac arweinyddiaeth wleidyddol llywodraeth genedlaethol. Er ein bod o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fod yn gyfrifol am roi arweiniad yn y meysydd hyn, nid yw hynny'n golygu y gall Llywodraeth Cymru gyflawni'r amcanion yr ydym yn dymuno eu gweld ar ei phen ei hun, neu heb weithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus a phreifat a chyrff eraill. Nid ydym yn diystyru'r posibilrwydd y gallai fod yn briodol i gyrrff eraill gymryd yr awenau yn rhai o'r meysydd hyn yn y dyfodol.

53. Isod, nodir y mathau o feysydd lle rydym o'r farn y dylai fod gan Lywodraeth Cymru rôl arweiniol yng ngoleuni'r cyfleoedd sy'n codi o ran y Gymraeg a'r heriau sy'n wynebu'r Gymraeg ar hyn o bryd:

- Datblygu rôl y Gymraeg mewn technoleg, lle mae awdurdod a statws Llywodraeth Cymru yn fantais i gynnull amrywiaeth eang o gyrrff cyhoeddus a phreifat a dylanwadu ar gwmnïau technoleg byd-eang. Gall cysylltiadau Llywodraeth Cymru ar draws amrywiaeth eang o feysydd polisi helpu i nodi'r hyn y mae'n rhaid ei wneud i sicrhau bod technoleg ddigidol yn cefnogi'r Gymraeg, a gall dylanwad Llywodraeth Cymru helpu i sicrhau'r adnoddau a'r buddsoddiad angenrheidiol. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd y Llywodraeth ei hun yn arwain y gwaith o gyflwyno technolegau arloesol neu ddigidol newydd, ond gall chwarae rôl bwysig o ran cytuno ar safonau a sicrhau contractau cenedlaethol.
- Goruchwylio corpws y Gymraeg, hynny yw geirfa a gramadeg y Gymraeg, gan gynnwys gwaith sy'n cofnodi a safoni'r defnydd o'r iaith. Nid yw Llywodraeth Cymru ei hun yn y sefyllfa orau i ymgymryd â llawer o'r gwasanaethau sy'n ymwneud â'r corpws, ond mae mewn sefyllfa dda i gydgyssylltu a chefnogi gwaith sefydliadau cenedlaethol, fel Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ein prifysgolion ac archifau. Rhaid inni hefyd gydnabod pwysigrwydd y Cynulliad yn y gwaith o gefnogi corpws y Gymraeg.
- Ariannu sefydliadau cenedlaethol allweddol a rheoli eu cydberthynas â'i gilydd, sy'n hanfodol er mwyn cyflawni amcanion ehangach Llywodraeth Cymru, er enghraifft ym meysydd addysg, y blynyddoedd cynnar, addysg ôl-16, y celfyddydau a diwylliant, a pholisi datblygu economaidd. Ymhlith y sefydliadau sydd gennym mewn golwg mae'r Eisteddfod Genedlaethol, yr Urdd, Mudiad Meithrin, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Er y byddai'r sefydliadau hyn yn parhau i gael eu cyllido'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, byddem yn disgwyl iddynt gydgyssylltu eu gwaith marchnata eu hunain a'u gwaith eu hunain i hybu'r Gymraeg ochr yn ochr â'r corff sy'n gyfrifol am swyddogaethau cyffredinol i hybu'r Gymraeg sydd wedi'u hamlinellu yn Nhabl 1 (gweler yr adran nesaf).
- Ymchwil i faterion yn ymwneud â'r Gymraeg a gwerthuso effeithiolrwydd camau a gymerir i weithredu Cymraeg 2050 er mwyn helpu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu polisi cenedlaethol a helpu i fonitro'r cynnydd a wneir.

54. Cyfeirir at y swyddogaethau sydd wedi'u hamlinellu yn adran yma fel 'swyddogaethau'r Llywodraeth i hybu'r Gymraeg' yn y papur hwn.

Adnoddau eraill Llywodraeth Cymru

55. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyllido, yn rheoli ac yn cydgysylltu gweithgarwch cyffredinol i hybu'r Gymraeg sy'n cynnwys yn bennaf bartneriaid lleol,

rhwydweithiau o sefydliadau cymunedol, a busnesau bach a chanolig eu maint. Dyma'r gweithgareddau sydd wedi'u nodi yn Nhabl 1. Fodd bynnag, nid ydym yn credu ein bod yn y sefyllfa orau, o reidrwydd, i barhau i wneud hyn. Maent yn weithgareddau sy'n galw am berthynas agos rhwng y corff cyllido a derbynwyr y grant, dealltwriaeth dda o ddeinameg ieithyddol cymunedau lleol, a'r gallu i reoli cydberthnasau â niferoedd mawr o gleientiaid, megis y cyhoedd neu fusnesau.

56. Er ein bod o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru barhau i oruchwylio'r gwaith yn strategol a sicrhau bod y system yn gweithio'n effeithiol fel cyfanwaith, dylem ystyried hefyd a fyddai corff gwahanol mewn sefyllfa well i roi cymorth ymarferol i gyrff sy'n hybu ac yn defnyddio'r Gymraeg, datblygu arbenigedd cynllunio ieithyddol ymarferol a chefnogi rhwydweithiau o ymarferwyr, meithrin cydweithrediad rhwng grwpiau cymunedol, ac arloesi mewn ymgyrchoedd marchnata ac yn ymgyrchoedd y cyfryngau.
57. Yn ogystal, fel rhan o'r setliad cyllidebol ar gyfer 2017/18, dyrannodd Llywodraeth Cymru £2m ychwanegol i wella'r ffordd y caiff y Gymraeg ei hybu. I ddechrau, bydd hyn yn cynnwys sefydlu llinell gymorth i ddarparu gwybodaeth ar ddefnyddio'r Gymraeg, a gwell cymorth i fusnesau. Llywodraeth Cymru sy'n rheoli'r gwaith hwn ar hyn o bryd. Mae Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes wedi penodi Bwrdd Cynllunio i roi cyngor i Lywodraeth Cymru ar y blaenoriaethau wrth lunio rhaglen waith i hybu'r Gymraeg yn ystod y cyfnod pontio hyd nes y cytunir ar drefniadau parhaol. Mae Rhannau 1 a 2 y Papur Gwyn hwn yn amlinellu ein cynigion ar gyfer y trefniadau parhaol hynny.
58. Rydym hefyd yn cynnwys adnoddau Comisiynydd y Gymraeg yn ein hystyriaethau gan mai prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg drwy arfer ei swyddogaethau. Rydym yn ystyried y Safonau yn elfen hollbwysig o hybu'r Gymraeg.
59. Mae Tabl 1 yn amlinellu ein hamcangyfrif gorau ar hyn o bryd o gyllidebau presennol rhaglenni Llywodraeth Cymru (£7.751m) a ddylai fod ar gael i unrhyw gorff neu gyrff a ystyriwn o dan yr opsiynau ym mharagraffau 61-80. Yn y papur hwn, cyfeirir at y gwaith a wneir o dan y cyllidebau hyn fel 'swyddogaethau cyffredinol i hybu'r Gymraeg'. Nid yw Tabl 1 yn cynnwys cyllidebau rhaglenni ac adnoddau staff a ddyrannwyd i swyddogaethau'r llywodraeth i hybu'r Gymraeg. Rydym yn ystyried mai Llywodraeth Cymru ddylai barhau i fod yn gyfrifol am y rhain.
60. Mae'r cyllidebau a'r gweithgareddau yn Nhabl 1 yn seiliedig ar y sefyllfa bresennol. Gallent newid, yn dibynnu ar benderfyniadau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Dylid cofio'r canlynol hefyd:
 - i. nid yw'r cyfanswm yn cynnwys cyllid ar gyfer staff sy'n cael eu cyflogi gan Lywodraeth Cymru i ymgymryd â'r gwaith yn ymwneud â'r swyddogaethau cyffredinol i hybu'r Gymraeg sydd wedi'u cofnodi yn Nhabl 1, nac ychwaith yn cynnwys cronfeydd prosiectau bach sy'n amrywio o bryd i'w gilydd. Bydd yna gynnydd net, felly, yn y cyllid a nodir yn Nhabl 1;
 - ii. bydd angen addasu'r manylion yn sgil ein cynnig yn Rhan 3 y dylai Llywodraeth Cymru fod yn gyfrifol am osod Safonau. Pe bai'r cynnig hwn yn cael ei dderbyn, byddai'n golygu trosglwyddo'r swyddogaethau a'r adnoddau cysylltiedig o ran gosod Safonau o'r Comisiynydd i Lywodraeth Cymru. Byddai hyn yn arwain at ostyngiad net yn y cyllid a nodir yn Nhabl 1.

Tabl 1: Swyddogaethau cyffredinol i hybu'r Gymraeg

Sefydliad	Cyllideb 2017-18	Enghreifftiau o waith
Llywodraeth Cymru	£2.7m a £2m o gyllid ychwanegol ar gyfer 2017-18	<ul style="list-style-type: none"> • Grantiau i sefydliadau i hybu'r Gymraeg: <ul style="list-style-type: none"> — Mentrau Iaith Cymru — 20 Menter Iaith — Merched y Wawr — Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru — Cymdeithas Eisteddfodau Cymru — Papurau bro — Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru • Hybu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith busnesau • Ymgyrchoedd yn y cyfryngau ac ymgyrchoedd marchnata • Sefydlu llinell gymorth i ddarparu gwybodaeth ar ddefnyddio'r Gymraeg
Comisiynydd y Gymraeg	£3.051m	<ul style="list-style-type: none"> • Gosod Safonau ar gyrff a monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau hynny • Monitro'r cynlluniau iaith presennol • Gweithio gyda busnesau canolig a mawr i greu polisiâu Cymraeg gwirfoddol • Paratoi canllawiau ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn achosion penodol (megis canllaw technoleg Gymraeg) • Gwneud gwaith ymchwil er mwyn creu sylfaen dystiolaeth i ategu penderfyniadau i hybu'r Gymraeg.
Cyfanswm	£7.751m	

Cwestiynau ymgynghori

1. Ym mharagraffau 49–54, rydym wedi amlinellu'r rôl yr ydym yn cynnig y dylai Llywodraeth Cymru ei chwarae i hybu'r Gymraeg, h.y. swyddogaethau'r Llywodraeth i hybu'r Gymraeg. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig?

Cytuno/Anghytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau ategol, gan gynnwys p'un a oes meysydd y dylid eu hychwanegu neu eu tynnu o'r rhestr ym mharagraff 53.

2. Yn Nhabl 1, rydym wedi amlinellu'r adnoddau mewn perthynas â'r swyddogaethau cyffredinol i hybu'r Gymraeg yr ydym o'r farn y dylent fod ar gael i unrhyw gorff neu gyrff sy'n helpu yn y gwaith o hybu'r Gymraeg a monitro a

gorfodi cydymffurfiaeth â'r safonau. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig?

Cytuno/Anghytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau ategol

Opsiynau

61. Rydym wedi ystyried pedwar opsiwn ar gyfer trefniadau i hybu'r Gymraeg. Y prif faterion yw'r graddau y mae'r corff yn annibynnol ar y llywodraeth, ac a yw'r swyddogaethau hybu, monitro a gorfodi mewn perthynas â'r Gymraeg yn cael eu harfer gan yr un cyrff neu gan gyrff gwahanol. Mae'r opsiynau hyn yn seiliedig ar y disgwyliad y bydd Llywodraeth Cymru (nid Comisiynydd y Gymraeg) yn gyfrifol am osod Safonau (gweler Rhan 3 am ragor o fanylion am y cynnig hwn).
62. Dyma'r pedwar opsiwn yr ydym wedi'u hystyried:
1. Dim newid – mae'r Comisiynydd yn monitro ac yn gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau ac mae Llywodraeth Cymru'n ymgymryd â gweithgarwch i hybu'r Gymraeg.
 2. Asiantaeth Weithredol newydd Llywodraeth Cymru i arfer swyddogaethau cyffredinol i hybu'r Gymraeg, a Chomisiynydd y Gymraeg yn parhau i fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau.
 3. Corff ar wahân i Lywodraeth Cymru i arfer swyddogaethau cyffredinol i hybu'r Gymraeg, a Chomisiynydd y Gymraeg yn parhau i fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau.
 4. Un corff yn gyfrifol am arfer swyddogaethau cyffredinol i hybu'r Gymraeg, a hefyd monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau.

Opsiwn 1: Dim newid

63. O dan Opsiwn 1, byddai'r Comisiynydd yn monitro ac yn gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau ac yn cadw'r pwerau cyfreithiol presennol i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Byddai'r Comisiynydd yn parhau, fel y mae nawr, i benderfynu faint o waith hybu y bydd yn ei wneud wrth arfer swyddogaethau'r Comisiynydd. Byddai'r gwaith o gomisiynu a rheoli'r rhan fwyaf o'r gweithgarwch hybu yn parhau i gael ei wneud gan Lywodraeth Cymru.
64. Os yw'r trefniadau presennol yn parhau, mae'n debygol y bydd gwaith hybu'r Comisiynydd yn cael ei gyfyngu fwyfwy i weithgareddau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r system Safonau, fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol agos, a hynny i raddau helaeth oherwydd y costau sylweddol o ran adnoddau a gweinyddu yn sgil gosod a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau fel sy'n ofynnol gan y Mesur. Os yw hynny'n digwydd, credwn y bydd gwaith y Comisiynydd yn canolbwyntio fwyfwy ar swyddogaethau cymharol gyfyngedig yn ymwneud â monitro a gorfodi Safonau. O ystyried rôl flaenllaw y Comisiynydd, rydym o'r farn y byddai hyn yn ei wneud yn fwy anodd cael cydbwysedd rhwng hybu a rheoleiddio'r iaith.

65. Byddai'n bosibl darparu mwy o adnoddau i'r Comisiynydd i wneud gwaith hybu ehangach. Yn ymarferol, byddai hyn yn golygu trosglwyddo rhywfaint o'r cyllidebau a nodwyd yn Nhabl 1, neu'r holl gyllidebau, i'r Comisiynydd presennol. Ar sail y rhesymau a nodwyd yn Rhan 2, nid ydym yn credu bod trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd y Comisiynydd fel y maent ar hyn o bryd yn ddigon cadarn i ysgwyddo ystod mor eang o gyfrifoldebau ychwanegol a chyllidebau ychwanegol sylweddol heb newid sylfaenol.
66. Felly, ac yn sgil yr heriau yr ydym yn eu hwynebu yn y dyfodol, nid ydym o'r farn y byddai'r opsiwn hwn yn gynaliadwy yn y tymor hir.

Opsiwn 2: Sefydlu Asiantaeth Weithredol i Lywodraeth Cymru er mwyn hybu'r Gymraeg

67. O dan Opsiwn 2, byddai'r cyfrifoldeb am gomisiynu a rheoli'r swyddogaethau cyffredinol i hybu'r Gymraeg (Tabl 1) yn cael ei drosglwyddo i Asiantaeth Weithredol. Byddai'r Comisiynydd yn parhau i fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau ac ond yn ymgymryd â gweithgarwch hybu sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r gwaith hwnnw. Byddai gan y Comisiynydd hefyd ddyletswydd benodol i ddarparu cymorth i gyrrff cyhoeddus ar arfer eu dyletswyddau cynllunio ieithyddol, fel cynllunio'r gweithlu, strategaethau ar gyfer hybu'r iaith mewn ardal, asesu effaith polisiau etc. Byddai Llywodraeth Cymru'n parhau i arfer y swyddogaethau polisi a deddfwriaethol ehangach a nodir ym mharagraffau 49-54.
68. Byddai gan Asiantaeth Weithredol hunaniaeth gyhoeddus, strwythur reoli a'i chyllideb ei hun. Byddai ei staff yn aelodau o'r Gwasanaeth Sifil, a byddai'n uniongyrchol atebol i Lywodraeth Cymru am ei phenderfyniadau ar wariant a'i pherfformiad. Mae Croeso Cymru yn enghraifft hylaw. Mae gan Groeso Cymru hunaniaeth adnabyddus ac mae'n arfer swyddogaethau hybu mewn perthynas â thwristiaeth a hunaniaeth Cymru yn y byd ehangach, ond mae'n rhan o Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru.
69. Gallai cyfrifoldebau Asiantaeth Weithredol gynnwys y canlynol:
- cynllunio sut bydd yr asiantaeth yn cyflawni canlyniadau penodol yn strategaeth genedlaethol y Gymraeg Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050;
 - comisiynu gwaith drwy gynlluniau grant a chaffael gwasanaethau;
 - cynnal ymgyrchoedd yn y cyfryngau a marchnata i hybu'r defnydd o'r Gymraeg, cynyddu'r galw am wasanaethau Cymraeg a hybu manteision sgiliau Cymraeg yn y gweithle ac mewn bywyd proffesiynol;
 - bod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer y cyhoedd;
 - bod yn bwynt cyswllt cyntaf a darparu gwasanaethau'n ymwneud â'r Gymraeg i fusnesau a chyrrff yn y trydydd sector, fel cyngor, deunyddiau cymorth, hyfforddiant, cyfieithu etc;
 - dwyn ynghyd cyrrff sy'n ymwneud â hybu iaith er mwyn sicrhau dealltwriaeth o flaenoriaethau ac amcanion a rennir, a chydgyssylltu rhaglenni gwaith cydlynol;
 - gweithio gyda'r Comisiynydd i sicrhau bod amcanion a gweithgareddau'r ddau gorff yn gydnaws ac yn ategu ei gilydd.
70. Mae'r gyfres hon o gyfrifoldebau hefyd yn berthnasol i Opsiynau 3 a 4.

71. O dan Opsiwn 2, byddai Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am bolisi a materion cysylltiedig drwy Is-adran y Gymraeg, ac yn gyfrifol am hybu drwy'r Asiantaeth Weithredol. Byddai swyddogaethau'r Comisiynydd o ran monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau yn parhau i gael eu harfer fel y maent ar hyn o bryd, a'r cydweithredu a'r cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd yn cael ei reoli drwy'r cytundeb fframwaith presennol.

Opsiwn 3: Sefydlu corff newydd ar wahân i Lywodraeth Cymru i hybu'r Gymraeg

72. O dan Opsiwn 3, byddai corff annibynnol yn cael ei greu sy'n gweithredu hyd braich o'r Llywodraeth i fod yn gyfrifol am hybu'r Gymraeg. Byddai'r ddeddfwriaeth yn amlinellu'r swyddogaethau y bydd gofyn i'r corff newydd eu harfer er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau, hynny yw, y rheini a nodir ym mharagraffau 69. Byddai gweithgarwch y swyddogaethau cyffredinol i hybu'r Gymraeg a wneir gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd (Tabl 1) yn cael ei drosglwyddo i'r corff newydd.

73. Byddai gan y Comisiynydd yr un cyfrifoldebau â'r rheini a nodir yn Opsiwn 2.

74. Byddai Llywodraeth Cymru'n darparu cyllideb i'r corff newydd, a byddai'r corff yn atebol am ei benderfyniadau ei hun ar wariant ac yn ddarostyngedig i broses archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru fel corff ar wahân. O ran ei strwythur, mae'n debygol y byddai'r corff newydd yn cynnwys cadeirydd a bwrdd, a benodir drwy'r system benodiadau cyhoeddus, a hefyd prif weithredwr a staff. Y corff newydd fyddai'n cyflogi'r staff ac ni fyddent yn aelodau o'r Gwasanaeth Sifil. Byddai'r corff yn atebol i Lywodraeth Cymru am ei berfformiad o ran cyflawni'r canlyniadau y gofynnwyd iddo eu cyflawni. Caiff y rhain eu hamlinellu yng nghynllun strategol y corff, a byddai angen i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r cynllun hwnnw.

75. O dan Opsiwn 3, byddai tri chorff ar wahân gyda swyddogaethau gwahanol: Llywodraeth Cymru (polisi, deddfwriaeth etc. fel y nodir ym mharagraffau 49-54), y Comisiynydd (monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau, gan gynnwys gwaith hybu sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r Safonau a dyletswyddau cynllunio ieithyddol fel yn Opsiwn 2), a chorff annibynnol sy'n gyfrifol am gomisiynu a rheoli'r swyddogaethau cyffredinol i hybu'r Gymraeg sydd wedi'u hamlinellu yn Nhabl 1.

76. Er y byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i fod â dyletswyddau'n ymwneud â hybu'r Gymraeg, fel y nodwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, byddem yn arfer y swyddogaethau drwy roi arian ac adnoddau i'r Comisiynydd a'r corff newydd yn bennaf, a thrwy arfer y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 69.

Opsiwn 4: Un corff yn gyfrifol am arfer swyddogaethau cyffredinol i hybu'r Gymraeg a hefyd monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau

77. O dan Opsiwn 4, byddai un corff yn gyfrifol am hybu'r Gymraeg ynghyd â monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau. Byddai Opsiwn 4 yn cyfuno swyddogaethau monitro a gorfodi ac adnoddau presennol y Comisiynydd a'r swyddogaethau cyffredinol i hybu'r Gymraeg mewn un corff.

78. Yn ogystal, rydym yn ystyried y dylai fod dyletswydd ar y corff i sicrhau bod y swyddogaethau cyffredinol i hybu'r Gymraeg a'r swyddogaethau sy'n ymwneud â'r Safonau yn ategu ei gilydd. Er enghraifft, gellir defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o fonitro'r gwasanaethau Cymraeg a gynigir gan gyrff, a dealltwriaeth o'r rhwystrau y

mae'r cyrff yn eu hwynebu o ran eu gallu i gyflenwi'r gwasanaethau hynny, i gynllunio a darparu rhaglenni i helpu cyrff i wella eu gallu i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.

79. Byddai'r corff yn gyfrifol am y canlynol:

- monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â dyletswyddau'n ymwneud â'r Gymraeg drwy:
 - fonitro cyrff i sicrhau eu bod yn cydymffurfio;
 - gweithio gyda chyrff i'w helpu i gydymffurfio â'u Safonau, er enghraifft drwy ddarparu hyfforddiant, cynnal gweithdai, creu adnoddau a threfnu fforymau etc;
 - darparu cymorth ymarferol i gyrff cyhoeddus gyda'u dyletswyddau cynllunio ieithyddol, fel cynllunio'r gweithlu, strategaethau i hybu'r Gymraeg mewn ardal, asesu effaith polisiau etc;
 - darparu canllawiau'n ymwneud â dyletswyddau cynllunio ieithyddol cyrff;
 - ymateb i gwynion gan y cyhoedd nad yw cyrff wedi cydymffurfio â'u Safonau;
 - gweithredu i gywiro pethau lle bo angen.
- arwain a rheoli prosiectau a rhaglenni i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, fel y nodwyd ym mharagraff 69.

80. Er y byddai Llywodraeth Cymru'n parhau i fod â dyletswyddau'n ymwneud â hybu'r Gymraeg, fel y nodwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, byddwn yn arfer y swyddogaethau hyn drwy roi arian ac adnoddau i'r corff arfaethedig yn bennaf, a thrwy arfer y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 69.

Pwyso a mesur yr opsiynau

81. Nid ydym yn credu bod Opsiwn 1 (dim newid) yn gynaliadwy am y rhesymau a nodir ym mharagraff 60. Rydym wedi ystyried Opsiynau 2-4 o ran eglurder y trefniadau, y cyfle i sicrhau cydnawsedd rhwng y swyddogaethau gorfodi a hybu, a gwerth am arian.

Eglurder

- Gallai sefydlu Asiantaeth Weithredol neu gorff annibynnol gyda brand cryf i hybu'r Gymraeg yn unig, fel yn Opsiynau 2 a 3, ei gwneud yn fwy clir i bobl pwy sy'n gyfrifol am hybu'r Gymraeg. Nid yw hynny'n ddigon clir ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddai hyn yn golygu cyflwyno corff arall, a allai beri dryswch. Yn ogystal, byddai'r ffaith bod y Comisiynydd yn cadw'r cyfrifoldeb am hybu'r Gymraeg drwy helpu cyrff i gydymffurfio â Safonau a thynnu sylw'r cyhoedd at eu hawliau mewn perthynas â'r Gymraeg, yn ychwanegu at y dryswch hwn. Gallai hyn olygu bod y cyhoedd, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu trosglwyddo o un corff i'r llall.
- Byddai Opsiwn 4, sef un corff i arfer y swyddogaethau cyffredinol i hybu'r Gymraeg ac i fonitro a gorfodi Safonau, yn golygu mai un corff yn unig fyddai'n gyfrifol am ddatblygu perthynas â chymunedau a chyrff cymunedol ar draws Cymru, â chyrff a ariennir gan grantiau i hybu'r Gymraeg, ac â chyrff y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â'r Safonau. Byddai'r corff hwnnw mewn sefyllfa i sicrhau cydweithredu rhwng cyrff ar lefel leol a chenedlaethol (gan gynnwys gweithgareddau hybu sefydliadau cenedlaethol allweddol a ariennir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru), a helpu gwasanaethau cyhoeddus a grwpiau cymunedol ac eraill i weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol. Y corff hwn fyddai'n arwain ar hybu'r Gymraeg a

byddai'n bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer materion yn ymwneud â'r Gymraeg. Golyga hyn y byddai'n glir i bawb lle i fynd i gael cyngor a chymorth.

Cydnawsedd rhwng gweithgarwch hybu a swyddogaethau gorfodi

- Mae cyfyngiadau sylweddol ar allu cyrff i ddarparu gwasanaethau Cymraeg i'r un safon mewn sectorau gwahanol ac yng ngwahanol rannau o Gymru. Mae'r cyfyngiadau hyn yn ymwneud â'r farchnad lafur (cael y sgiliau Cymraeg cywir yn y swyddi cywir yn y lle cywir) ynghyd â gallu cyrff i ymgymryd â chynllunio ieithyddol effeithiol a dylanwadu ar ymddygiad pobl mewn perthynas â'r Gymraeg a'i newid. Bydd y cyfyngiadau hyn yn ei gwneud hi'n anodd cyflawni ein huchelgeisiau yn Cymraeg 2050 os na eir i'r afael â nhw. Mae Opsiwn 4 yn darparu un corff sydd â'r gallu a'r adnoddau i nodi'r materion hyn wrth fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth, a wedyn mynd i'r afael â nhw drwy ei waith hybu a drwy ddarparu cymorth i wasanaethau cyhoeddus. Byddai hefyd yn gallu cynnal ymgyrchoedd i gynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg.
- Bydd y corff a gynigir yn Opsiwn 4 yn cael cyfuniad o swyddogaethau sy'n amrywio o orfodi Safonau, monitro cydymffurfiaeth (ac felly'r rhesymau dros beidio â chydymffurfio) a darparu cyngor a chyfarwyddyd ar gynllunio ieithyddol effeithiol, i swyddogaethau cyffredinol i hybu'r Gymraeg. Nod y cyfuniad hwn o swyddogaethau fydd sicrhau gwelliant parhaus yn y gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg. Bydd hyn, yn ei dro, yn helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni un o amcanion polisi eraill y Papur Gwyn hwn (paragraff 139 iii), sef y bydd y Safonau a osodir ar gyrrff yn cael eu hadolygu dros amser fel bod hawliau'r cyhoedd i wasanaethau Cymraeg yr un peth ar draws Cymru yn y pen draw.
- Ni fyddai Opsiynau 2 a 3 yn darparu'r math hwn o gydnawsedd rhwng y swyddogaethau i hybu'r Gymraeg a'r swyddogaethau monitro/gorfodi. Byddai risg o flaenoriaethau sy'n gwrthdaro rhwng Comisiynydd sydd â swyddogaethau gorfodi a monitro yn bennaf, a chorff ar wahân (boed yn Asiantaeth Weithredol i Lywodraeth Cymru neu'n gorff annibynnol) sy'n gyfrifol am arfer swyddogaethau cyffredinol i hybu'r Gymraeg. Byddai modd lleihau'r risg pe bai un corff yn gallu arfer y ddau fath o swyddogaeth.

Sicrhau gwerth am arian

- Yn ein barn ni, byddai angen buddsoddiad cychwynol sylweddol ar gyfer Opsiynau 2 a 3 i sefydlu corff newydd ochr yn ochr â'r Comisiynydd, a hynny er mwyn recriwtio staff, rhentu swyddfa, sefydlu systemau TG etc. Byddai angen defnyddio adnoddau prin i dalu am ddau dîm rheoli a dwy set o gostau rhedeg a gorbenion. Byddai hyn yn tynnu arian oddi wrth wasanaethau a fyddai'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r cyhoedd.
- Credwn y gall Opsiwn 4 osgoi rhai o'r costau ychwanegol hyn drwy greu un corff yn unig, gan wneud defnydd gwell o'r systemau a'r adnoddau presennol.
- Bydd angen i ni gynnal arfarniad llawn o gostau a manteision yr opsiynau hyn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol y byddwn yn ei gyhoeddi gyda'r Bil. Fodd bynnag, credwn y byddai gwario arian cyhoeddus ar redeg dau gorff ar wahân yn llai cost effeithiol na rhedeg un corff, ac nid ydym yn teimlo y byddai'n gynaliadwy yn y tymor hir. Yn ogystal, mae yna risg sylweddol y byddwn yn cwestiynu mewn pum mlynedd a oedd wir angen dau gorff ar wahân.

Casgliadau

82. Mae gan Opsiynau 2 a 3 nodweddion cadarnhaol, ond credwn y byddai'r ddau'n cyflwyno cymhlethdod ychwanegol a fyddai'n amharu ar y broses o weithredu polisi ar y Gymraeg a darpariaeth Gymraeg. Rydym o'r farn mai Opsiwn 4 yw'r opsiwn gorau i'n galluogi i wynebu heriau'r dyfodol. Byddai'n darparu un corff gydag ystod eang o bwerau, ac adnoddau sylweddol, a fyddai'n ganolbwynt ar gyfer datblygu'r iaith yng Nghymru. Byddai'n sicrhau'r eglurder mwyaf posibl i randdeiliaid o ran lle i fynd i gael cyngor, gwybodaeth a chymorth ar gyfer materion yn ymwneud â'r Gymraeg. Byddai ei rôl o ran hybu'r Gymraeg a monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau yn galluogi'r corff i reoleiddio mewn ffordd gefnogol, ac yn helpu gwasanaethau cyhoeddus i gyflawni'r her gymhleth o ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg a'u hybu. Rydym hefyd o'r farn y byddai'n darparu'r gwerth gorau am arian.
83. Rydym wedi nodi yn Nhabl 1 yr adnoddau a fyddai, yn ein tyb ni, yn ffurfio cyllid craidd y corff hwn yn amodol ar y cafeatau ym mharagraff 60. Rydym wedi amlinellu, yn ein barn ni, beth fydd y prif heriau o ran hybu'r Gymraeg (paragraffau 33-35), beth fydd rôl Llywodraeth Cymru (paragraffau 49-54), a beth fydd swyddogaethau'r corff mewn perthynas â hybu'r iaith (paragraff 69). Rydym yn croesawu eich sylwadau ar y materion hyn.

Cwestiynau ymgynghori

3. A ydych chi'n cytuno â'r opsiwn a ffeirir gennym (Opsiwn 4), sef un corff i fod yn gyfrifol am hybu'r Gymraeg ac am fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau?

Cytuno/Anghytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Os ydych yn anghytuno, nodwch pa opsiwn (gan gynnwys opsiynau nad ydym wedi'u trafod yn y Papur Gwyn) y dylem ei ystyried yn eich barn chi.

Sylwadau ategol

4. Rydym wedi seilio ein dewis, sef un corff, ar sail eglurder, cydnawsedd a gwerth am arian. A ydych chi'n cytuno â'n sail resymegol?

Cytuno/Anghytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau ategol

5. Pa faterion perthnasol eraill y dylem eu hystyried wrth wneud ein cynnig terfynol ynghylch pa gorff neu gyrff ddylai hybu'r Gymraeg a monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau?

Sylwadau ategol

6. A oes gennych unrhyw sylwadau pellach ar Ran 1 y Papur Gwyn?

Rhan 2: Llywodraethiant ac atebolrwydd

84. Os yw ein cynnig yn cael ei dderbyn, sef cael un corff i ymgymryd â gwaith cyffredinol i hybu'r Gymraeg a monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau, byddai hyn yn creu corff pwerus sydd â chyfrifoldebau pwysig ac adnoddau sylweddol. Ni fydd y corff hwn yn gyfrifol am osod Safonau (gweler paragraffau 186-196 am fwy o fanylion). Er bod y Comisiynydd yn ymgymryd â rhywfaint o weithgarwch hybu ar hyn o bryd, rydym yn cynnig y dylai'r corff gael cyllideb ychwanegol sylweddol ar gyfer gweithgarwch hybu. Mae'n hanfodol bod y corff yn cael ei lywodraethu'n dda ac yn atebol am ei waith.
85. Bydd llywodraethiant da yn helpu'r corff i wario arian cyhoeddus yn ddoeth, i arfer ei swyddogaethau'n effeithiol a hefyd i ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd, y cyrff y mae'n eu monitro ac y mae ganddo'r pŵer i orfodi Safonau arnynt a chyrrff sy'n dibynnu arno am gyllid. O ystyried y rôl amlwg hon yn ymwneud â'r Gymraeg, rhaid i'r corff fod yn agored ac yn dryloyw wrth wneud penderfyniadau ac ymgysylltu'n eang â'i randdeiliaid wrth arfer ei bwerau.

Llywodraethiant

86. Rydym wedi nodi'r heriau sy'n wynebu'r corff o ran hybu'r Gymraeg (paragraff 34) a'r math o gamau gweithredu y bydd angen iddo eu cymryd (paragraff 69). Mae'r heriau hyn yn cwmpasu ystod eang o ddisgyblaethau a sgiliau sy'n ymwneud ag unigolion, cymunedau a sefydliadau sydd ag anghenion gwahanol iawn. Mae'n rhesymol tybio y bydd nifer o gyfleoedd a heriau newydd yn dod i'r amlwg wrth roi Cymraeg 2050 ar waith. Ar yr un pryd, bydd y corff hefyd yn gorfod monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau.
87. Yn ein barn ni, bydd angen i'r corff weithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid â buddiannau amrywiol er mwyn llwyddo, a hynny er mwyn hwyluso cydweithredu, cydgysylltu gweithgarwch a threfnu adnoddau ar y cyd. Bydd angen manteisio i'r eithaf ar gyfalaf cymdeithasol a rhwydweithiau cymunedol er mwyn hybu'r iaith yn effeithiol. Yn ogystal, bydd angen i'r corff allu addasu'n hyblyg i amgylchiadau sy'n newid. Bydd hyn yn gofyn am lefel uchel o ymddiriedaeth a hyder yn y corff, fel bod rhanddeiliaid yn teimlo bod ganddynt lais yn y modd y mae'r corff yn pennu ei amcanion ac yn dyrannu ei adnoddau. Yn ein barn ni, y ffordd orau o gyflawni hyn yw bod y corff yn cynnwys amrywiaeth o gynrychiolwyr a fyddai'n rhan o'r gwaith o'i lywodraethu.
88. Un model posibl yw corff sy'n cael ei arwain gan unigolyn gyda bwrdd goruchwyllo. Caiff nifer o sefydliadau mawr a chymhleth eu harwain gan unigolyn. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae un neu fwy o fyrddau'n monitro a ffrwyno bwerau'r unigolyn hwnnw. Fel arfer, mae hyn yn golygu bwrdd anweithredol sy'n cynnwys aelodau annibynnol (aelodau nad ydynt yn cael eu cyflogi gan y corff), a bwrdd gweithredol o uwch arweinwyr. Ceir hefyd fyrddau cymysg o aelodau annibynnol ac uwch arweinwyr. Rôl byrddau gweithredol ac anweithredol yw sicrhau bod modd defnyddio arbenigedd amrywiol i wneud prif benderfyniadau'r sefydliad drwy system fonitro a ffrwyno, megis bod â phwerau i graffu ar benderfyniadau, rhoi cymeradwyaeth ar gyfer penderfyniadau penodol neu ddarparu cyngor y mae'n rhaid i'r arweinydd ei ddilyn neu ei ystyried. Mae hyn yn fwy cyffredin yn y sector preifat na'r sector cyhoeddus. Un o'r enghreifftiau yn y sector cyhoeddus yw Estyn, lle caiff Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ei gefnogi gan fwrdd strategaeth (statudol) a bwrdd gweithredol.

89. Y model amgen arferol yw corff sy'n cael ei lywodraethu gan grŵp o bobl (ar ffurf bwrdd neu gomisiwn) sy'n gyfrifol am benderfyniadau pwysicaf y corff megis pennu ei amcanion, gosod ei gyllideb flynyddol a phenderfynu ar ei bolisiâu allweddol. Penodir aelodau'r Bwrdd neu'r Comisiwn gyda golwg ar sicrhau bod gan y corff gymysgedd o brofiad, gwybodaeth a sgiliau sy'n briodol i'w swyddogaethau. Caiff staff y corff, a arweinir gan brif weithredwr, y dasg o gyflawni amcanion y corff. Mae'r model hwn yn un cyffredin yn y sector cyhoeddus. Un enghraifft yng Nghymru yw Cyngor Celfyddydau Cymru. Yn ei adolygiad o'r broses reoleiddio yn y DU, argymhellodd Tŷ'r Arglwyddi y dylid defnyddio'r model hwn (corff a lywodraethir gan fwrdd yn hytrach nag unigolyn) ar gyfer rheoleiddwyr.¹⁰
90. Mae'r ddau fodel yn cynnwys grŵp o unigolion sydd â chryn ddylanwad ar amcanion a phenderfyniadau'r corff. Y prif wahaniaeth rhyngddynt yw bod swyddogaethau'r corff ar ysgwyddau unigolyn yn yr enghraifft gyntaf, gyda'r bwrdd yn dylanwadu drwy gymedroli ac arfer pŵer fetu, tra bod y bwrdd ei hun yn gwneud y penderfyniadau allweddol yn yr ail enghraifft.

Atebolrwydd

91. Bydd y corff yn gwario symiau sylweddol o arian cyhoeddus a bydd angen rhoi trefniadau priodol yn eu lle i sicrhau bod yr arian yn cael ei wario'n ddoeth. Un ffordd o wneud hyn yw darparu ar gyfer gwahanu dyletswyddau rhwng y person neu bersonau sy'n gyfrifol am bennu amcanion y corff, a'r rheini sy'n gyfrifol am y modd y rheolir gwariant a pherfformiad y corff drwy gyflogi staff a chynnal rhaglenni gwaith. Mewn awdurdod lleol, er enghraifft, mae'r Cabinet o aelodau etholedig yn gyfrifol am bennu blaenoriaethau gwariant y Cyngor, ac mae'r prif weithredwr yn gyfrifol am gyflogi staff a chomisiynu gwasanaethau i gyflawni'r blaenoriaethau hynny. Yn achos Cyngor Celfyddydau Cymru, mae'r Cyngor yn pennu'r blaenoriaethau ac wedyn mae'r prif weithredwr a swyddogion y Cyngor yn gweithredu cynlluniau grant ac yn comisiynu gwaith i gyflawni amcanion y Cyngor.
92. Mae hefyd yn arferol bod fframwaith llywodraethu corfforaethol yn ei le o fewn sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n amlinellu pwy sy'n gallu gwneud penderfyniadau a sut mae'r penderfyniadau hynny'n cael eu gwneud. Diben y rheolaethau hyn yw diogelu uniondeb ac enw da'r sefydliad. I sicrhau bod y rheolaethau'n gweithio'n effeithiol, mae pwyllgor archwilio'n darparu cyngor ar faterion fel ansawdd trefniadau cyfrifyddu ariannol y corff, sut mae penderfyniadau'n cael eu dirprwyo a sut mae'r corff wedi paratoi ar gyfer y risgiau y mae'n eu hwynebu. Mae'n arfer gyffredin i sicrhau nad yw cadeirydd pwyllgor archwilio yn cael ei gyflogi gan y corff nac yn aelod o un o'i fyrddau.

Gofynion cyffredinol

93. Yn ogystal â'r uchod, rydym yn ystyried bod yna rai gofynion cyffredinol yn ymwneud â threfniadau llywodraethu ac atebolrwydd y corff a ddylai fod yn berthnasol waeth pa opsiwn sy'n cael ei ddewis, sef y canlynol:
- Dylai'r corff lunio cynllun strategol. Dylai'r cynllun strategol amlinellu cynigion a blaengynllun gwaith y corff ar gyfer monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau ac ar gyfer hybu'r Gymraeg. Rhaid i'r cynllun ddangos sut bydd y corff yn cyfrannu at

¹⁰ <https://www.publications.parliament.uk/pa/ld/ldrgltrs.htm>

gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, fel y nodwyd yn Cymraeg 2050 a'r cynllun blynyddol, drwy osod amcanion a dyrannu adnoddau i'w cyflawni. Bydd angen i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r cynllun strategol.

- Dylai'r corff lunio adroddiad blynyddol yn nodi sut mae wedi defnyddio ei adnoddau i gyflawni ei amcanion.
- Dylai'r corff ddatblygu polisi mewn perthynas â'i swyddogaethau ar gyfer monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau, fel bod y cyhoedd a chyrrff sy'n ddarostyngedig i'r Safonau yn gwybod beth i ddisgwyl wrth y rheoleiddiwr. Bydd angen i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r polisi hwn.
- Dylai'r corff gael y swyddogaethau sydd gan y Comisiynydd mewn perthynas â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.¹¹
- Dylai'r corff baratoi amcangyfrifon o incwm a gwariant i Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol. Yn ei dro, byddai angen i Lywodraeth Cymru archwilio'r amcangyfrifon a gyflwynwyd gan y corff a chyflwyno'r amcangyfrifon (ynghyd ag unrhyw ddiwygiadau sy'n briodol yn eu barn nhw) gerbron y Cynulliad.
- Dylai Llywodraeth Cymru fod â'r pwerau i gyfarwyddo'r corff a byddai'r corff yn gorfod cydymffurfio â hyn. Ni ddylai Llywodraeth Cymru allu cyfarwyddo'r corff mewn perthynas ag arfer ei swyddogaethau ar gyfer gorfodi Safonau (p'un a yw'n deillio o'i weithgareddau monitro ei hun neu o gwynion a wneir i'r corff) na'i swyddogaethau'n ymwneud â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg. Hynny er mwyn diogelu uniondeb swyddogaethau monitro a gorfodi'r corff.

94. Yn olaf, mae'n hanfodol bod y corff yn gallu ennyn ymddiriedaeth a hyder rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Bydd gofyn iddo arwain newid, ymestyn allan i grwpiau newydd a gwahanol, a chreu ewyllys da tuag at yr iaith. Yn ystod oes Cymraeg 2050, bydd gofyn i'r corff wneud penderfyniadau anodd a heriol. I wneud penderfyniadau o'r fath a chadw hyder rhanddeiliaid, bydd angen i'r corff gynnwys ei randdeiliaid a chymryd eu barn a'u buddiannau i ystyriaeth wrth ddatblygu polisïau, a hefyd bod yn agored ac yn dryloyw am ei resymau dros wneud penderfyniadau.

95. Rydym yn cynnig bod y ddeddfwriaeth yn gwneud darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i'r corff ymgysylltu'n eang â'r cyhoedd a rhanddeiliaid ar ei benderfyniadau a'i bolisïau (fel ei gynllun strategol a'i bolisi gorfodi) a chyhoeddi canlyniad unrhyw ymchwiliadau y mae'n eu cynnal a'r rhesymau dros ei benderfyniadau gorfodi.

Cwestiynau ymgynghori

7. Ym mharagraffau 93–95, rydym wedi nodi rhai gofynion cyffredinol yn ymwneud â threfniadau llywodraethu ac atebolrwydd y corff. Beth yw eich barn chi am y gofynion cyffredinol hyn, ac a oes yna fesurau monitro a ffrwyno eraill a ddylai fod yn weithredol ar y corff arfaethedig?

Sylwadau ategol

¹¹ Rhan 6 y Mesur.

Opsiynau

96. O gymryd y pethau hyn i ystyriaeth, rydym o'r farn bod tri opsiwn i'w hystyried:

- Opsiwn 1: Trosglwyddo adnoddau ychwanegol ar gyfer hybu'r iaith i'r Comisiynydd o fewn trefniadau llywodraethiant presennol y Comisiynydd.
- Opsiwn 2: Comisiynydd y Gymraeg gyda Bwrdd Llywodraethu.
- Opsiwn 3: Comisiwn y Gymraeg

97. Yn Rhan 3 y Papur Gwyn hwn, rydym yn amlinellu ein cynigion ar gyfer trosglwyddo'r swyddogaethau o bennu a gosod Safonau i Lywodraeth Cymru (paragraffau 186-196) ac ar gyfer cynnal system Safonau'r Gymraeg yn gyffredinol ond mewn ffordd ychydig yn wahanol (paragraffau 151-153). Felly, caiff yr opsiynau canlynol eu hystyried ar y sail honno.

Opsiwn 1: Trosglwyddo adnoddau ychwanegol ar gyfer hybu'r iaith i'r Comisiynydd o fewn trefniadau llywodraethiant presennol y Comisiynydd

98. O dan Opsiwn 1, byddai trefniadau llywodraethiant y Comisiynydd yn parhau a byddai Llywodraeth Cymru'n trosglwyddo cyllid ychwanegol i'r Comisiynydd ar gyfer hybu'r defnydd o'r Gymraeg (Tabl 1).

99. Mae'r Mesur yn sefydlu'r Comisiynydd yn gorfforaeth undyn. Golyga hyn fod swyddogaethau'r Comisiynydd wedi'u rhoi i swydd a wneir gan unigolyn, ac mae'r disgrisiwn i ddefnyddio pwerau a swyddogaethau'r Comisiynydd gan y Comisiynydd ar y pryd. Felly, y Comisiynydd yn unig sy'n penderfynu beth mae'r corff yn ei wneud, megis gweithredu polisi gorfodi, cynnal ymchwiliadau a cyhoeddi codau ymarfer, a hefyd sut mae'r corff yn mynd ati, er enghraifft drwy gyflogi staff, sefydlu strwythur rheoli a phennu polisiâu mewnol.

100. Nid yw'r Mesur yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer strwythur bwrdd i fonitro a ffrwyno'r modd y mae'r Comisiynydd yn arfer ei bwerau. Ond ceir Panel Cynghori statudol y mae'n rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori ag ef ar faterion penodol. Nid yw'n ofynnol i'r Comisiynydd ddilyn cyngor y Panel, ond rhaid ei gymryd i ystyriaeth. Mae'r Comisiynydd presennol wedi ffurfio Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (er nad oedd hyn yn orfodol) ac mae'r Comisiynydd yn cael ei archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

101. Rhaid i'r Comisiynydd gydymffurfio â chyfarwyddiadau a allai gael eu rhoi gan Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, i ddiogelu annibyniaeth y Comisiynydd fel rheoleiddiwr, mae'r Mesur yn atal Llywodraeth Cymru rhag rhoi cyfarwyddyd i'r Comisiynydd mewn perthynas â gorfodi Safonau a'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.

102. Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd ymgynghori â'r cyhoedd a chyrrff sy'n ddarostyngedig i ddyletswyddau ar faterion penodol, a chyhoeddi gwybodaeth benodol gan gynnwys rhywfaint o wybodaeth am benderfyniadau ac adroddiad blynyddol.

103. Byddai angen rhai newidiadau o dan Opsiwn 1 os yw ein cynigion yn ymwneud â'r system Safonau'n cael eu derbyn. Er enghraifft, ni fyddai'r Comisiynydd yn gyfrifol am osod Safonau mwyach.

Opsiwn 2: Comisiynydd y Gymraeg gyda Bwrdd Llywodraethu

104. Byddai Opsiwn 2 yn cadw Comisiynydd unigol a fyddai'n gyfrifol am hybu'r Gymraeg a monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â dyletswyddau'n ymwneud â'r Gymraeg. Byddai'r Comisiynydd yn atebol i Lywodraeth Cymru, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Byddai'r opsiwn hwn yn darparu ar gyfer Bwrdd Llywodraethu a fyddai'n monitro'r modd y mae'r Comisiynydd yn arfer ei swyddogaethau. Mae dull tebyg ar waith yn Lloegr ar gyfer Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (HMCI) ac Ofsted. Rhoddwyd y prif swyddogaethau i HMCI ond mae bwrdd yn monitro a ffrwyno'r modd y maent yn cael eu defnyddio mewn ffordd statudol.
105. O dan Opsiwn 2, byddai Comisiynydd y Gymraeg yn cael ei benodi gan Brif Weinidog Cymru fel y mae ar hyn o bryd, sef am gyfnod penodol unigol (i ddileu'r risg bod gwaith y Comisiynydd yn cael ei ddylanwadu gan ei fwriad i ailymgeisio ar gyfer y swydd) a chyda mesurau diogelu rhag diswyddiad afresymol. Byddai'r Comisiynydd yn gwbl gyfrifol am benodi staff, rheoli a bod yn atebol dros y gyllideb, sicrhau bod y corff yn cyflawni amcanion y Comisiynydd, a gweithredu trefniadau ariannol a rheoli risg priodol yn unol â'r fframwaith llywodraethu corfforaethol. Dylai'r fframwaith llywodraethu corfforaethol amlinellu sut bydd y Comisiynydd a'r Bwrdd Llywodraethu'n cydweithio, a'r trefniadau y bydd y Comisiynydd yn eu rhoi ar waith i oruchwylio'r gwaith llywodraethu, strategaethau, perfformiad, cydymffurfiaeth ac uniondeb, a risg. Rydym yn cynnig mai'r Bwrdd Llywodraethu fyddai'n gyfrifol am gymeradwyo'r fframwaith llywodraethu corfforaethol ac y byddai pwyllgor archwilio statudol yn monitro'r broses o'i weithredu. Dylai cadeirydd y pwyllgor archwilio fod yn aelod o'r Bwrdd Llywodraethu.
106. Dylai fod swyddogaeth gan y Bwrdd i gymeradwyo rhai o brif ddogfennau'r Comisiynydd, fel y cynllun strategol a'r polisi gorfodi, cyn bod y Comisiynydd yn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Dylai fod yn ofynnol iddo fonitro cynnydd y Comisiynydd o ran cyflawni'r amcanion yn y cynllun strategol, a gofyn i'r Comisiynydd lunio adroddiad os oes pryderon ynghylch p'un a fydd amcanion y cynllun yn cael eu cyflawni. Dylai'r Bwrdd allu cynghori'r Comisiynydd, ond ni ddylai fod ag unrhyw bŵer feto mewn perthynas â phenderfyniadau eraill y Comisiynydd, gan gynnwys penderfyniadau mewn achosion unigol yn ymwneud â chamau gorfodi neu ryddid i ddefnyddio'r Gymraeg. Byddai'r Bwrdd yn defnyddio ei brofiad helaeth i lywio gwaith y Comisiynydd. Byddai'r haen ychwanegol hon o sicrwydd yn rhoi mwy o hyder i'r Comisiynydd a Llywodraeth Cymru bod y Comisiynydd yn arfer ei swyddogaethau'n gytbwys ac yn briodol.
107. Dylai Llywodraeth Cymru benodi'r Bwrdd Llywodraethu drwy weithdrefn benodiadau cyhoeddus. Dylai'r rhan fwyaf o aelodau'r Bwrdd fod yn aelodau annibynnol (h.y. nid yn aelod o staff y Comisiynydd neu Lywodraeth Cymru) sydd â chydbwysedd o brofiad, sgiliau a gwybodaeth i arfer swyddogaethau'r Bwrdd yn effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried y dylai fod cynrychiolaeth o blith cyflogeion ar y Bwrdd. Mae hyn yn arfer da sy'n bodoli mewn nifer o gyrrff, megis Swyddfa Archwilio Cymru.

Opsiwn 3: Comisiwn y Gymraeg

108. O dan Opsiwn 3, rydym yn cynnig sefydlu Comisiwn y Gymraeg fel corff a fyddai'n cynnwys cadeirydd a nifer o aelodau. Corfforaeth gyfansawdd fyddai'r Comisiwn, sy'n golygu y byddai ei swyddogaethau a'i ddyletswyddau wedi'u breinio yn yr aelodau ar y cyd. Byddai swyddogaethau penodol yn cael eu neilltuo i'r Comisiwn (fel cymeradwyo'r

cynllun strategol a'r polisi gorfodi) y byddai'n rhaid iddo'u harfer ar y cyd, ond dylai hefyd gael y pŵer i drosglwyddo unrhyw rai o'i swyddogaethau eraill i staff y Comisiwn eu harfer ar ei ran. Dylai'r Comisiwn hefyd gael y pŵer i drosglwyddo rhai o'i swyddogaethau i aelodau unigol o'r Comisiwn. Gallai hyn olygu, er enghraifft, fod gan aelod penodedig o'r Comisiwn gyfrifoldeb diprwyedig dros fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau. Mewn amgylchiadau felly, byddai penderfyniadau'r aelod dirprwyedig o'r Comisiwn yn cael eu trin fel penderfyniadau'r Comisiwn. Byddai angen mecanwaith ar gyfer dod i benderfyniad mewn amgylchiadau lle nad oedd aelodau'r Comisiwn yn cytuno, er enghraifft drwy bleidlais mwyafrif. Rydym yn croesawu sylwadau ar sut allai hyn weithio.

109. Er mwyn sicrhau y gellir gwahanu'r swyddogaethau, rydym yn cynnig y dylai'r Comisiwn benodi Prif Weithredwr a fyddai'n gyfrifol am benodi staff y Comisiwn, rheoli a bod yn atebol dros gyllideb y Comisiwn, sicrhau bod y corff yn cyflawni amcanion y Comisiwn, a gweithredu trefniadau ariannol a rheoli risg priodol yn unol â'r fframwaith llywodraethu corfforaethol. Dylai'r fframwaith llywodraethu corfforaethol amlinellu rolau'r Comisiynydd (goruchwylio'r gwaith llywodraethu, strategaethau, perfformiad, cydymffurfiaeth ac uniondeb, a risg) a'r tîm rheoli (polisiâu ac arferion e.e. mewn perthynas â strategaethau, gweithrediadau, cyllid a risg). Mae'n gyfrifoldeb ar y Comisiwn i gymeradwyo'r fframwaith llywodraethu corfforaethol. Byddai'r Prif Weithredwr yn cael ei gyflogi gan y Comisiwn ac yn atebol iddo.
110. Caiff y Comisiynydd ei benodi gan Brif Weinidog Cymru ar hyn o bryd, ond rydym yn cynnig o dan Opsiwn 3 bod y cadeirydd ac aelodau Comisiwn y Gymraeg yn cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru (h.y. yr Ysgrifennydd Cabinet neu'r Gweinidog sy'n gyfrifol am bolisi'r Gymraeg) o dan weithdrefn penodiadau cyhoeddus. Rydym yn cynnig y dylai'r Comisiwn enwebu'r Prif Weithredwr i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Er hynny, efallai bydd angen rhoi trefniadau pontio yn eu lle ar gyfer penodi'r Prif Weithredwr cyntaf.

Pwyso a mesur yr opsiynau

111. Wrth ystyried yr opsiynau hyn, rydym wedi cael ein dylanwadu gan yr ystyriaethau a nodir ym mharagraffau 86-92.

Llywodraethiant

112. Byddai dau o'r opsiynau yr ydym wedi'u hystyried yn sicrhau grŵp o unigolion penodedig (Bwrdd Llywodraethu o dan Opsiwn 2 neu Gomisiwn o dan Opsiwn 3), a chanddynt rôl wrth naill ai gymeradwyo neu lunio cynllun strategol y corff.
113. O dan Opsiwn 2, caiff swyddogaethau'r swydd ei rhoi i unigolyn, ac felly rhaid i'r unigolyn fod yn gwbl gyfrifol am y cynllun strategol, y polisi gorfodi ac am lywodraethu'r corff yn dda er mwyn bod yn atebol amdanynt. Mae gan y Bwrdd Llywodraethu dair rôl yn y bôn: cymeradwyo dogfennau allweddol, cynghori a rhoi sicrwydd mewn perthynas â strategaethau (drwy ei swyddogaeth fonitro) a llywodraethiant corfforaethol (drwy ei rôl yn y pwyllgor archwilio). O dan Opsiwn 2, byddai gofyn i'r Bwrdd Llywodraethu gymeradwyo neu wrthod cynigion y Comisiynydd. Byddai ganddo bŵer fetu ond ni fyddai ganddo ran uniongyrchol yn y gwaith o baratoi'r cynllun strategol neu'r polisi gorfodi. Os byddai'r Bwrdd yn defnyddio ei bŵer fetu, byddai'n cynrychioli gwahaniaeth barn sylweddol a/neu dorperthynas rhwng y Comisiynydd a'r Bwrdd. Mae'r pŵer fetu'n fodd i osgoi sefyllfa fel hyn drwy annog y Comisiynydd a'r Bwrdd i siarad yn ystod

cyfnod datblygu penderfyniadau allweddol y Comisiynydd ynghylch strategaethau, polisi gorfodi a llywodraethiant.

114. Byddai Opsiwn 3 (Comisiwn y Gymraeg) yn cynnig llawer gwell cyfle i sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd aelodau'r Comisiwn lywio penderfyniadau strategol y corff. Byddai prif swyddogaethau'r Comisiwn yn cael eu neilltuo i'r aelodau ar y cyd a'u breinio ynddynt. Byddai'n rhaid i'r Comisiwn gytuno ar y cyd ar y cynllun strategol a'r polisi gorfodi, ynghyd â dyraniadau'r corff o'i adnoddau i wahanol swyddogaethau a blaenoriaethau. Byddai angen i'r aelodau chwarae rhan lawn yn y gwaith o ddatblygu polisiâu ac amcanion a nodir yn y dogfennau allweddol hyn. Byddent hefyd yn gyfrifol ar y cyd am eu cymeradwyo cyn eu cyflwyno i Weinidogion Cymru. Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi mwy o sicrwydd y gallai'r aelodau ddefnyddio eu profiad a'u sgiliau unigol i gyfrannu at lywio polisiâu a phenderfyniadau allweddol y Comisiwn yn y camau cynnar.
115. O dan Opsiwn 1, un unigolyn fyddai'n dal yn gyfrifol am holl swyddogaethau'r corff, ond heb effaith gymedroli'r Bwrdd Llywodraethu a geir yn Opsiwn 2. Byddai Panel Cynghori statudol yn parhau i fodoli a chanddo rôl ymgynghorol yn unig. Ni fyddai gan y Panel bŵer fetu ac efallai mai prin fyddai ei ddylanwad ar benderfyniadau allweddol y Comisiynydd.

Atebolrwydd

116. O dan Opsiynau 1 a 2, ni fyddai gwahaniad swyddogaethau. Yn y ddau achos, y Comisiynydd fyddai'n gyfrifol am osod cynllun strategol y corff a'i bolisi gorfodi, yn ogystal â phenodi aelodau staff, trefnu bod amcanion y corff yn cael eu cyflawni a rheoli adnoddau'r corff. O dan Opsiwn 1, byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru gymeradwyo polisi gorfodi a chyllideb y Comisiynydd ond ni fyddai dull ffurfiol ar gyfer sicrhau bod amcanion hybu a gwariant y Comisiynydd yn helpu i gyflawni blaenoriaethau Cymraeg 2050.
117. Mae Opsiwn 2 yn cynnig trefniadau monitro a ffrwyno ychwanegol drwy gyfrwng Bwrdd sydd â rolau o ran cymeradwyo a rhoi cyngor a sicrwydd, a phŵer fetu ataliol. O dan Opsiwn 2, byddai'n rhaid i'r Bwrdd Llywodraethu gymeradwyo cynllun strategol a pholisi gorfodi'r Comisiynydd cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru, ond pwerau cynghorol yn unig a fyddai gan y Bwrdd i ddylanwadu ar sut caiff y sefydliad ei redeg a'i reoli, a ph'un a yw'n gweithio'n effeithiol ac effeithlon. Byddai'r Bwrdd yn darparu rôl sicrhau, a gallai arfer ei bŵer fetu pan fetha popeth arall, ond ni allai reoli perfformiad Comisiynydd sy'n gorfforaeth undyn. Byddai gan Weinidogion Cymru bwerau i gyfarwyddo'r Comisiynydd ond ni ddylid defnyddio pwerau cyfarwyddo yn ysgafn. Nid yw pwerau cyfarwyddo yn ddull priodol ar gyfer rheoli perfformiad o ddydd i ddydd.
118. Mae Opsiwn 3 yn cynnwys gwahaniaeth amlwg rhwng y Comisiwn, sy'n gyfrifol am osod cynllun strategol a pholisi gorfodi'r corff, a Phrif Weithredwr a fyddai'n atebol i'r Comisiwn am benodi staff, gwneud penderfyniadau gweithredol o ddydd i ddydd, a gweinyddu unrhyw swyddogaethau dirprwyedig. Byddai'r Comisiwn yn gosod amcanion ar gyfer y Prif Weithredwr a byddai'n ofynnol i'r Prif Weithredwr adrodd ar bob agwedd ar berfformiad y corff iddyn nhw. Os na fyddai'r corff yn perfformio'n dda neu os na fyddai'n dangos gallu i wella ei berfformiad, byddai'r Comisiwn mewn sefyllfa i weithredu i ddatrys y broblem ac yn gallu, yn unol â chyfyngiadau arferol cyfraith cyflogaeth, disodli'r Prif Weithredwr a phenodi un newydd pan fetha popeth arall.

Casgliadau

119. Ar ôl pwyso a mesur, ein barn ni yw mai Opsiwn 3 (Comisiwn y Gymraeg) yw'r opsiwn a ffefrir o ran sefydlu corff i arfer y swyddogaethau cyffredinol i hybu'r Gymraeg ac i fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth cyrff â'r Safonau.
120. Opsiwn 3 fyddai'n creu'r cyfle gorau ar gyfer corff o aelodau a chanddynt ystod o brofiadau a sgiliau (ac yn cynrychioli amrywiaeth o safbwyntiau rhanddeiliaid, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) i lywio cynllun strategol y corff a'i bolisi gorfodi, i benderfynu sut byddai adnoddau'r corff yn cael eu defnyddio, ac i sicrhau bod cydbwysedd rhwng gwahanol swyddogaethau'r corff. Gallai'r Comisiwn ddirprwyo swyddogaethau penodol i aelodau'r Comisiwn pe bai'n teimlo bod angen gwahaniaethu rhyngddynt, er enghraifft rhwng swyddogaethau i hybu'r Gymraeg a swyddogaethau gorfodi, wrth gadw cyfrifoldeb cyffredinol dros ei holl swyddogaethau. Byddai'n creu gwahaniad clir rhwng swyddogaethau strategol y Comisiwn a swyddogaethau dirprwyedig y Prif Weithredwr a staff y corff. Byddai hyn yn ffordd effeithiol o reoli adnoddau'r corff a'i berfformiad wrth gyflawni ei amcanion. Rydym yn meddwl mai Opsiwn 3 sydd fwyaf tebygol o lwyddo o ran trawsnewid canlyniadau a chyflawni ein huchelgeisiau yn Cymraeg 2050.

Cwestiynau ymgynghori

8. A ydych chi'n cytuno â'r opsiwn a ffefrir gennym (Opsiwn 3), sef i sefydlu Comisiwn y Gymraeg i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a monitro a gorfodi cydymffurfiaeth cyrff â'r Safonau?
- Cytuno/Anghytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Sylwadau ategol
9. Beth yw eich barn chi am y dadansoddiad rydym wedi'i ddarparu sy'n cefnogi ein dewis ni, sef Opsiwn 3? A oes unrhyw ystyriaethau eraill y dylem eu hystyried wrth wneud unrhyw gynneg terfynol?
10. A ydych chi'n credu bod Opsiwn 3 yn diogelu annibyniaeth y Comisiwn arfaethedig yn ddigonol yng nghyd-destun arfer swyddogaethau ar gyfer monitro a gorfodi cydymffurfiaeth cyrff â'r Safonau?

Ydw/Nac ydw/Ansicr

Sylwadau ategol

Trosglwyddo staff, eiddo a rhwymedigaethau

121. Bydd ein cynigion i greu Comisiwn yn arwain at sawl canlyniad ymarferol y bydd angen inni eu hystyried. Mae'r rhain yn cynnwys:

- trosglwyddo staff o swyddfa'r Comisiynydd i'r Comisiwn, a throsglwyddo staff rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn;

- cymhwyso TUPE (neu delerau sy'n cyfateb i TUPE os nad oedd TUPE yn berthnasol) i unrhyw drosglwyddiadau staff;
- cysoni telerau ac amodau gwasanaeth, er enghraifft o ran taliadau teithio a chynhaliaeth, oriau gweithio hyblyg, a pheynnau diswyddo gwirfoddol a dileu swydd;
- gwerthuso/graddio swyddi;
- pensiynau;
- trosglwyddo eiddo;
- parhau â hawliau a rhwymedigaethau, gan gynnwys mewn perthynas â gosod, herio a gorfodi'r Safonau.

122. Nid ydym yn meddwl y bydd angen dileu unrhyw swyddi o ganlyniad i'n cynigion. Rydym yn ymrwmo i gynnal trafodaethau ag Undebau Llafur a'r gweithwyr a allai gael eu heffeithio gan y cynigion hyn wrth inni ddatblygu'r cynigion ymhellach, ac yn dilyn ymgynghori ar y Papur Gwyn hwn.

Cwestiynau ymgynghori

11. A oes unrhyw faterion ychwanegol i'r rhai a restrir ym mharagraffau 121–122 y dylem eu hystyried wrth ystyried trefniadau i sefydlu'r Comisiwn arfaethedig?

Oes/Nac oes/Ansicr

Sylwadau ategol

Dyletswyddau Llywodraeth Cymru o dan a.78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

123. Mae adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ymgynghori ar strategaeth ar gyfer y Gymraeg, mabwysiadu strategaeth, adrodd yn flynyddol arni a gosod copi o'r adroddiad gerbron y Cynulliad. Mae hefyd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun bob blwyddyn ariannol sy'n dangos sut y bydd strategaeth y Gymraeg yn cael ei rhoi ar waith.
124. Rydym yn cynnig yn Rhan 2 fod angen i gynllun strategol y Comisiwn arfaethedig gyfrannu'n uniongyrchol at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'i huchelgais i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae dadansoddiad o'r camau sydd angen inni eu cymryd a'r blaenoriaethau rydym wedi'u nodi i'w gweld yn Cymraeg 2050. Llunnir y strategaeth hon gan Lywodraeth Cymru i fodloni ei dyletswydd i fabwysiadu strategaeth o dan a.78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
125. Oherwydd y cysylltiad uniongyrchol a gynigiwn rhwng strategaeth Gymraeg Llywodraeth Cymru a chynllun strategol y Comisiwn arfaethedig, dylem ystyried p'un a fyddai'n fanteisiol cynnwys gofynion a.78 Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ym Mil y Gymraeg arfaethedig. Golygai hyn y byddai'r gydberthynas arfaethedig rhwng strategaeth Llywodraeth Cymru a gwaith y Comisiwn o gyflawni'r blaenoriaethau yn amlwg ac yn eglur.
126. Strategaeth hirdymor yw Cymraeg 2050 a bydd unrhyw newidiadau yn digwydd yn araf. Dim ond bob 10 mlynedd y caiff ein data mwyaf dibynadwy ar y cynnydd eu casglu drwy'r Cyfrifiad, ac mae llawer o'n rhaglenni uchelgeisiol, fel newid cwricwlwm

yr ysgolion, yn cymryd sawl blwyddyn i'w datblygu, eu rhoi ar waith a chael effaith. Golyga hyn mai ychydig iawn o gynnydd sy'n debygol o gael ei adrodd yn flynyddol ond dylai'r cynnydd fod yn amlwg yn y tymor canolig. Yn ymarferol, bydd unrhyw Lywodraeth Cymru newydd yn debygol o adolygu'r strategaeth a'r cynllun gweithredu ar ddechrau pob Cynulliad, a'u hadnewyddu yn ôl y cynnydd ac amgylchiadau'r cyfnod.

127. Ar hyn o bryd mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru:

- a. gyhoeddi cynllun blynyddol yn nodi sut y bydd yn gweithredu'r strategaeth; a
- b. chyhoeddi adroddiad blynyddol ynghylch sut y cafodd y strategaeth ei gweithredu.

Croesawn eich sylwadau ynghylch ein cynnig i ddiwygio'r gofyniad hwn fel mai dim ond unwaith yn ystod pob tymor Cynulliad y bydd angen cyhoeddi'r dogfennau hyn yn hytrach nag yn flynyddol (h.y. bob 5 mlynedd o dan y trefniadau etholiadol presennol). Byddai'n parhau'n ofynnol i Lywodraeth Cymru osod adroddiad blynyddol y Comisiwn gerbron y Cynulliad bob blwyddyn, a byddai Gweinidogion yn parhau'n agored i graffu'r Cynulliad wrth arfer eu swyddogaethau mewn cysylltiad â'r Gymraeg.

Cwestiynau ymgynghori

12. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i symud y gofyniad ar Lywodraeth Cymru i lunio strategaeth ar gyfer y Gymraeg o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i'r Bil y Gymraeg newydd?

Cytuno/Anghytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau ategol

13. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai Llywodraeth Cymru adrodd i'r Cynulliad ar strategaeth y Gymraeg bob pum mlynedd yn lle bob blwyddyn?

Cytuno/Anghytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau ategol

14. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun yn nodi sut y bydd yn gweithredu'r strategaeth bob pum mlynedd yn lle bob blwyddyn?

Cytuno/Anghytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

128. Roedd y Mesur yn sefydlu corff o'r enw Cyngor Partneriaeth y Gymraeg.¹² Ei ddiben yw cynghori Llywodraeth Cymru, neu gyflwyno sylwadau iddi, ynghylch ei strategaeth a'i chynllun gweithredu ar gyfer y Gymraeg (Gymraeg 2050 ar hyn o bryd).

¹² a.149 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011

129. Nod ein cynnig i gael corff sy'n gyfrifol am hybu'r Gymraeg, a monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau, yw creu corff a chanddo arbenigedd sylweddol o ran hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.
130. O ystyried hynny, rydym o'r farn mai'r Comisiwn arfaethedig fydd yn y lle gorau i gynghori Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Bydd hyn yn sicrhau y gall Llywodraeth Cymru elwa ar arbenigedd y corff a gwneud yn siŵr bod y Llywodraeth yn gweithredu'n effeithiol i gyflawni ei gweledigaeth o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rydym felly'n cynnig y dylai Llywodraeth Cymru gael pŵer i ofyn i'r Comisiwn am gyngor ar unrhyw fater sy'n ymwneud â'r Gymraeg, ac y dylai fod yn ofynnol i'r Comisiwn ddarparu'r cyngor hwnnw pan ofynnir iddo wneud hynny. Byddai angen inni sicrhau na fyddai arfer y pŵer hwn yn peryglu annibyniaeth y Comisiwn o ran ei swyddogaethau monitro a gorfodi, a'i swyddogaethau'n ymwneud â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.
131. Os derbynnir y cynnig hwn, rydym o'r farn y byddai'r Comisiwn yn cyflawni rôl bresennol Cyngor Partneriaeth y Gymraeg. O ganlyniad, rydym yn cynnig diddymu Cyngor Partneriaeth y Gymraeg.

Cwestiynau ymgynghori

15. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiddymu Cyngor Partneriaeth y Gymraeg a rhoi'r pŵer i Lywodraeth Cymru geisio cyngor gan y Comisiwn arfaethedig, sef Comisiwn y Gymraeg?

Cytuno/Anghytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau ategol

16. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar Ran 2 y Papur Gwyn?

Rhan 3: Safonau'r Gymraeg

Cyflwyniad

132. Mae system y Safonau yn newydd o hyd. Mae cyrff sy'n ddarostyngedig i'r Safonau ac, yn wir, y Comisiynydd ei hun, yn dal i ganfod beth yn union yw effaith ymarferol y dyletswyddau newydd hyn. Daeth y set gyntaf o Safonau i rym ym mis Mawrth 2016 ond dechreuodd y broses o'u llunio (cynnal ymchwiliadau Safonau ac ati) tua deunaw mis ynghynt.
133. Awgryma'r dystiolaeth rydym wedi'i chasglu y credir bod y Safonau yn gwneud gwahaniaeth i ansawdd a chysondeb gwasanaethau Cymraeg. Mae'n bwysig nodi, ar ôl ystyried yr opsiynau'n ofalus, ein bod yn parhau i fod o'r farn mai'r Safonau yw'r ffordd orau o sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus a delio â chyrrff cyhoeddus yn Gymraeg os ydynt yn dewis gwneud hynny.
134. Ar yr un pryd, ac er gwaethaf y problemau cychwynol sy'n debygol o godi gydag unrhyw system newydd o ddyletswyddau, mae'r ymatebion i'r alwad am dystiolaeth yn amlygu'r ffaith bod cyrff a rhanddeiliaid eraill yn gweld y system yn un anodd i'w deall, ei gweithredu a'i monitro. Yn Rhan 3 y Papur Gwyn hwn, rydym yn canolbwyntio ar gynigion i wella sut mae system y Safonau'n gweithio.
135. Rydym hefyd o'r farn y gallem ac y dylem symleiddio'r broses i bennu pa gyrff y gellir gosod y Safonau arnynt. Ar hyn o bryd, mae hon yn broses gymhleth sy'n deillio o'r cyfyngiadau ar bwerau'r Cynulliad pan basiwyd y Mesur. Nid yw bwerau'r Cynulliad wedi'u cyfyngu gymaint bellach ac, felly, mae cyfle i symleiddio'r broses yn sylweddol. Bydd Rhan 4 y Papur hwn yn trafod y mater hwnnw'n fanwl.

Beth ydyn ni'n ceisio'i gyflawni gyda'r ddeddfwriaeth?

136. Yn eu hanfod, nid yw'r amcanion polisi wedi newid ers cyfnod pasio'r Mesur, hynny yw sicrhau bod gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru, nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, bod rhyddid gan bobl yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran gwasanaethau, sicrhau:
- a. cysondeb ac ansawdd yn y ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg,
 - b. atebolrwydd y cyrff sy'n darparu'r gwasanaethau hynny,
 - c. camau gorfodi os na chaiff y Safonau eu bodloni.
137. Fodd bynnag, ar sail yr ymatebion i'n galwad am dystiolaeth a dadansoddiad o'r cwynion a'r ymchwiliadau y mae'r Comisiynydd wedi delio â nhw, rydym yn credu y dylid symud y pwyslais o 'orfodi' (ymchwilio i achosion bychain o dorri'r Safonau hyd yn oed) i 'unioni' (lle nad yw corff yn cydymffurfio, dylid sicrhau mai'r nod yw unioni'r sefyllfa a chymryd camau i sicrhau nad yw'r methiant yn digwydd eto), a 'gwella' (cydnabod na all pob corff ddarparu'r un lefel o wasanaethau ar hyn o bryd ond bod rhaid i ansawdd a chwmpas gwasanaethau yn y Gymraeg wella gydag amser).
138. Mae'r Mesur yn ddarn cymhleth o ddeddfwriaeth. A ninnau bellach yn meddu ar bum mlynedd o brofiad ers i'r Mesur ddod i rym, gallwn wneud rhai asesiadau cychwynol o ran sut mae'n gweithio'n ymarferol a'i effaith yng nghyd-destun polisi ehangach y Gymraeg.

139. Dyma'r prif ystyriaethau ar hyn o bryd:

- i. Y Safonau. Os ydym am gynnal polisi o gael 'hawliau gorfodadwy', rhaid inni gofio, er bod modd inni wella a symleiddio'r system bresennol, ei bod yn debygol y byddai unrhyw system arall yr un mor gymhleth. O ystyried capasiti'r system addysg cyfrwng Cymraeg, y cyfyngiadau o ran sgiliau Cymraeg ymhlith y gweithlu, swyddogaethau'r cyrff sy'n ddarostyngedig i'r Safonau, a'r amgylchiadau maent yn gweithredu oddi tanynt, mae hyn yn anorfod, o leiaf yn y tymor canolig. Mater allweddol yw p'un a oes modd i'r dyletswyddau fod yn fwy unffurf, gyda llai o amrywiad yn y dyfodol, wrth i gapasiti'r cyrff i ddaparu gwasanaethau Cymraeg wella.
- ii. Biwrocratiaeth. Mae'r broses o lunio a gosod y Safonau'n gymhleth. Mae achos cryf o blaid adolygu p'un a ellid symleiddio'r trefniadau presennol, gan sicrhau ar yr un pryd bod y broses yn dryloyw, yn effeithiol ac yn atebol mewn ffordd ddemocrataidd. Yn ogystal, mae'r gweithdrefnau gorfodi presennol yn drwm ar adnoddau, yn araf, ac o bosib yn creu gwrthdaro. Nid oes unrhyw ffordd gyflym o wneud iawn pan nad yw Safon yn cael ei bodloni, a hynny mewn ffordd sy'n cefnogi darparwyr gwasanaethau cyhoeddus i gydnabod eu ffaeleddau, eu gwella, a sicrhau bod y defnyddwyr yn cael y gwasanaeth sydd ei angen arnynt yn amserol.
- iii. Gwella. Nid yw'r system bresennol yn ymgorffori dull ffurfiol ar gyfer gwella capasiti a gallu cyrff i fodloni Safonau mwy beichus. Credwn dros amser y dylai pob corff symud tuag at weithredu'r un Safonau, ac y dylai hyn fod yn un o egwyddorion y system. Byddai hyn yn golygu bod hawliau unigolyn i gael gwasanaethau yn y Gymraeg yr un fath, ble bynnag mae'n byw yng Nghymru. Os ydym am gyflawni hyn rhaid gweld gwelliant sylweddol yng nghapasiti cyrff i ymgymryd â gwaith cynllunio ieithyddol effeithiol, hynny yw eu gallu i gynllunio gwasanaethau a datblygiad eu sefydliad yn effeithiol i sicrhau ei fod yn gallu darparu gwasanaethau'n ddwyieithog, ynghyd ag i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r iaith yn yr ardal leol.

140. Yn y papur hwn, ar ôl pwysu a mesur opsiynau eraill, rydym yn dod i'r casgliad y dylid cadw'r Safonau (gweler paragraffau 166-171). Ein hamcanion wrth adolygu'r Mesur, felly, fydd:

- i. adolygu'r gweithdrefnau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r Safonau, gyda'r nod o lunio'r system fwyaf tryloyw, atebol ac effeithiol;
- ii. adolygu'r camau gorfodi sy'n gysylltiedig â'r Safonau er mwyn sicrhau bod anghenion defnyddwyr y gwasanaethau'n cael eu diwallu drwy gamau unioni a gwella;
- iii. adolygu rôl Tribiwnlys y Gymraeg.

Y sefyllfa bresennol

141. Diben y Safonau yw sicrhau bod darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn bodloni lefel benodol o ran ansawdd, cysondeb a hwylustod wrth ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg i'r cyhoedd ac i'w gweithwyr. Ar hyn o bryd, mae'r Safonau hefyd yn cwmpasu amrywiaeth o ddyletswyddau eraill sy'n ymwneud â gweithgareddau fel cynllunio'r gweithlu, casglu gwybodaeth, asesu effaith polisiâu ar y Gymraeg, ac o ran cyrff llywodraeth leol, hybu'r Gymraeg yn eu hardal.

142. Safonau ymddygiad yw'r Safonau, gyda'r nod o ysgogi newid yn niwylliant cyrff drwy ei gwneud yn ofynnol iddynt fabwysiadu arferion newydd a sicrhau bod eu staff yn darparu gwasanaethau yn unol â'r Safonau hynny. Maent hefyd yn rhoi hawliau a sicrwydd penodol i'r cyhoedd o ran pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn y Gymraeg.
143. Mae'r Safonau'n disodli'r cynlluniau iaith o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ("Deddf 1993"). Roedd y cynlluniau eu hunain yn ofyniad statudol ond nid oeddent yn cael eu gweld yn llwyddiant o ran cyflawni'r amcanion polisi y nodir ym mharagraff 136 uchod, gan nad oedd unrhyw ffordd o orfodi cyrff i fodloni'r ymrwymadau yn eu cynlluniau.
144. Nod y system a sefydlwyd gan y Mesur yw rhoi gwell sicrwydd i'r cyhoedd a'r cyrff sy'n ddarostyngedig i'r Safonau fel ei gilydd, drwy ddiffinio mewn rheoliadau y math o ymddygiad a ddisgwylir mewn gwahanol amgylchiadau. Mae hyn yn gosod y cyfrifoldeb ar ysgwyddau Llywodraeth Cymru, y Comisiynydd, a'r cyrff eu hunain i ragweld yr holl sefyllfaoedd posib ar gyfer pob corff y dylai'r Safonau gael effaith arnynt, wrth ddrafftio rheoliadau a hysbysiadau cydymffurfio. Lluniwyd y rheoliadau fesul sector, ac maent yn dilyn y rhaglen a gafodd ei gosod gan y Comisiynydd drwy gynnal Ymchwiliadau Safonau (a drafodir ym mharagraff 186 isod).
145. Y canlyniad yw nifer fawr o Safonau ym mhob set o reoliadau. Mae'r setiau o reoliadau a wnaed hyd yn hyn – sy'n effeithio ar gyrff cyhoeddus datganoledig gan fwyaf – oll yn cynnwys tua 170-180 Safon, heb gynnwys unrhyw is-gategoriâu wedi'u labelu'n A, B ac ati, sy'n cynnwys dewislen o opsiynau i'w gosod ar wahanol gyrff. Mae'n bosib i gwmnïau'r sector preifat, yn bennaf cyfleustodau o wahanol fathau, fod yn ddarostyngedig i nifer llai o Safonau gwasanaeth a chasglu gwybodaeth. Er hynny, maent yn niferus o hyd. Mae 76 Safon yn y rheoliadau drafft ar gyfer cwmnïau dŵr a charthffosiaeth a oedd yn destun ymgynghoriad ar ddechrau 2017.

Ymatebion i'r alwad am dystiolaeth

146. O'n trafodaethau â'r cyrff sy'n dod o dan y Safonau a thystiolaeth gan randdeiliaid eraill, awgrymir bod nifer o feysydd sylweddol i'w hystyried:
- **Eglurder i gyrff cyhoeddus:** Nod y ffordd bresennol o weithredu yw creu set o reolau manwl fel ei bod yn amlwg i'r cyrff beth sydd angen iddynt gydymffurfio ag ef. Mae rhai Safonau yn ei gwneud yn gwbl amlwg i unigolion beth sy'n ofynnol yn sgil y Safon honno. Fodd bynnag, wrth geisio cynnwys yr holl sefyllfaoedd posib, rydym yn gwybod bod rhai Safonau'n gorgyffwrdd â'i gilydd. Mae hyn yn arwain at ansicrwydd ynghylch pa Safon sy'n weithredol mewn sefyllfa benodol. Rydym yn gwybod bod cyrff yn ei chael yn anodd monitro p'un a ydynt wedi cydymffurfio â'r holl ofynion sy'n ddisgwylidig ganddynt ar unrhyw achlysur. Cynigiodd rhai y gallai grwpiau o Safonau, fel y rhai sy'n ymwneud â gohebiaeth, gael eu huno o dan un Safon.
 - **Eglurder i'r cyhoedd:** Un rheswm dros gyflwyno'r Safonau oedd y ddadl y byddai mwy o bobl yn defnyddio gwasanaethau Cymraeg pe byddai'r gwasanaethau hynny'n fwy cyson ac yn haws i'r cyhoedd fanteisio arnynt. Byddai hynny yn ei dro yn arwain at gynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg. Fodd bynnag, golyga cynifer o Safonau ei bod yn anodd ar hyn o bryd i'r cyhoedd ddeall pa Safonau sy'n weithredol ar ba gyrff ac ym mha amgylchiadau.

- **Meysydd o ansicrwydd:** Mae nifer y Safonau a'r lefel o fanylder yn rhoi'r argraff anghywir gan awgrymu bod y rheolau'n ddu a gwyn. Mewn gwirionedd, ceir nifer o feysydd llwyd yn y canol. Mae sawl corff wedi crybwyll anawsterau wrth ddehongli'r Safonau. Mae awdurdodau lleol a sefydliadau eraill wedi adrodd am anawsterau wrth ddehongli'r Safonau o ran cydweithredu, comisiynu ar y cyd, a gweithio mewn partneriaeth, lle bo'r partneriaid yn ddarostyngedig i wahanol Safonau, neu lle bo pob corff yn dehongli Safon benodol mewn ffyrdd gwahanol (mae trafodaeth bellach am y mater hwn i'w gweld ym mharagraffau 203-207). Gallai gwneud gwell defnydd o godau ymarfer liniaru ychydig ar yr ansicrwydd ond ni chyhoeddwyd unrhyw godau o'r fath o dan y trefniadau presennol.
- **Cymhlethdod:** Byddai system ddefnyddol o Safonau cyffredinol yn cynnwys nifer bychan o Safonau dealladwy y byddai disgwyl i bob corff eu bodloni ymhen amser. Mewn gwirionedd, oherwydd nifer cyfyngedig y siaradwyr Cymraeg ceir bwlch o ran sgiliau Cymraeg yn y farchnad lafur sy'n gwneud system o Safonau cyffredinol yn amhosib ar hyn o bryd, oni bai bod y Safonau hynny mor sylfaenol nad ydynt yn rhoi unrhyw hawliau go iawn i'r defnyddwyr gwasanaethau. Golyga hyn fod unrhyw system sy'n ceisio gosod Safonau rhesymol a chymesur yng nghyd-destun y Gymraeg yn debygol o fod yn naturiol gymhleth.

Opsiynau

147. I fynd i'r afael â'r materion hyn, rydym wedi ystyried amryw opsiynau, sef:

- Dim newid
- Diwygio system bresennol y Safonau
- Cynnwys set fechan o Safonau mwy cyffredinol yn y ddeddfwriaeth sylfaenol yn hytrach na mewn Rheoliadau
- Cynlluniau eithrio wedi'u rheoleiddio sy'n seiliedig ar set fechan o Safonau mwy cyffredinol
- Nodi hawliau i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg mewn deddfwriaeth sylfaenol

148. Mae'n bwysig nodi y ceir ennill a cholli tir rhwng yr hyn sy'n gyffredinol a'r hyn sy'n benodol o dan unrhyw un o'r opsiynau. Gallai llai o Safonau mwy cyffredinol achosi rhagor o ansicrwydd, gan y byddai'n fwy aneglur i'r cyrff a'r cyhoedd beth yn union oedd wedi'i gynnwys o dan y Safonau 'newydd' cyffredinol hyn. Gallai hefyd achosi rhestr hirach, fwy cymhleth o eithriadau, boed hynny'n rhan o'r Safonau eu hunain neu fel arall. Ar y llaw arall, gallai mwy o Safonau manylach gynyddu'r sicrwydd o bosib, gan leihau'r angen am gynifer o eithriadau. Byddai hyn fodd bynnag yn golygu corff mwy o Safonau manylach sydd, fel y nodwyd uchod, yn creu ei anawsterau ei hun.

149. Wrth ddatblygu ein hopsiynau ar gyfer diwygio'r system, rydym wedi ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng cynnal a datblygu hawliau pobl i gael gwasanaethau yn y Gymraeg yn erbyn capasiti presennol y cyrff i ddarparu'r gwasanaethau hyn yn y Gymraeg, ynghyd â'r posibilrwydd i wella capasiti'r cyrff hynny i'w darparu yn y dyfodol. Yn ein barn ni, y ffordd orau o warchod y cydbwysedd hwnnw yw drwy barhau i'w gwneud yn ofynnol fod y dyletswyddau a osodir ar gyrff yn rhesymol a chymesur. Credwn y dylai unrhyw ddyletswyddau a osodir ar gyrff o dan unrhyw un o'r opsiynau a gynigir barhau i fod yn rhesymol a chymesur i'r corff y maent yn effeithio arno.

Opsiwn 1: Dim newid

150. Wrth inni lunio rhagor o reoliadau, bydd y corff o Safonau'n parhau i dyfu o ran maint ac amrywiaeth. Mae perygl, felly, y bydd yn dod yn gynyddol anos i'r cyhoedd ddeall pa wasanaethau mae ganddynt yr hawl i'w cael yn y Gymraeg. Nid yw'r trefniadau presennol yn cynnwys dull i'w gwella. O ystyried hynny ynghyd â'r materion lu a gafodd eu hamlygu gan randdeiliaid yn yr alwad am dystiolaeth, nid ydym yn credu bod dim newid yn opsiwn posib.

Opsiwn 2: Diwygio'r system bresennol

151. Byddai'n bosib symleiddio'r dull gweithredu presennol mewn sawl ffordd:

- Gellid dileu neu ddiwygio Safonau sy'n gosod baich heb gyfrannu'n uniongyrchol at wella gwasanaethau. Er enghraifft, gellid lleihau nifer y Safonau i gadw cofnodion a Safonau atodol yn sylweddol.
- Gellid dileu neu ddiwygio Safon sy'n ymwneud â gwasanaeth neu weithgaredd sy'n cael ei ddarparu'n uniongyrchol ar gyfer y cyhoedd os yw'n gostus i'w gweithredu ond sy'n arwain at ychydig iawn o fudd i'r cyhoedd. Enghreifftiau fyddai Safonau sy'n arwain at gost uchel wrth orfod cyfieithu dogfennau corfforaethol a thechnegol maith nad ydynt yn cael eu ddarllen yn aml gan y cyhoedd yn y naill iaith na'r llall.
- Gellid rhoi mwy o gyfle i'r cyrff ddefnyddio eu crebwyll yn rhesymol o safbwynt Safonau penodol, heb danseilio egwyddor gyffredinol y Safonau gorfodadwy. Mae angen gwneud gwaith pellach i benderfynu sut y byddai hyn yn gweithio'n ymarferol, ond nid yw hon yn egwyddor newydd. Caniateir peth disgresiwn eisoes ar gyfer rhai Safonau, er enghraifft pan fo corff yn dewis rhwng gwahanol ddulliau cyfieithu, neu i gynnal asesiad i bennu p'un a oes gofyn am wasanaeth yn y Gymraeg.
- Gellid gwneud mwy o ddefnydd o godau ymarfer neu ganllawiau statudol. Fodd bynnag, mae angen rhoi mwy o sylw i ba raddau y gellid defnyddio canllawiau i eithrio corff rhag gorfod dilyn gofyniad statudol neu i'w addasu. Mae'n bosib hefyd y gellid defnyddio codau ymarfer i gynnig eglurder i gyrff o ran pa Safonau sy'n effeithio ar eu gwaith pan fo dau neu fwy o gyrff o dan system y Safonau yn dechrau gweithio mewn partneriaeth. Er hyn, bydd angen ystyried y mater hwn ymhellach wrth inni ddatblygu ein cynigion.

152. Dylai'r camau diwygio gynnwys darpariaeth i sicrhau gwelliant h.y. bod cyrff yn codi ansawdd eu gwasanaethau yn y Gymraeg ac yn eu hehangu wrth i'w capasiti i ddarparu'r gwasanaethau hynny wella. Un ffordd o wneud hyn fyddai ei gwneud yn ofynnol adolygu ac ail-lunio'r Safonau o bryd i'w gilydd, er enghraifft bob 10 mlynedd. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â dyletswydd gyffredinol i sicrhau gwelliannau, yng ngoleuni'r egwyddor y dylai'r holl gyrff symud tuag at weithredu'r un Safonau dros amser, fel bod hawliau gorfodadwy unigolyn i gael gwasanaethau yn y Gymraeg yr un fath, ble bynnag maent yn byw yng Nghymru (yr 'egwyddor gydgyfeirio').

153. Wrth i gapasiti'r cyrff wella ac i nifer y siaradwyr Cymraeg ddechrau cynyddu, fel yr amcangyfrifir yn Cymraeg 2050, yr uchelgais yw gweld gwelliannau o ran capasiti'r cyrff hynny i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg. Fodd bynnag, pe baem yn dilyn y llwybr hwn, rydym yn cydnabod y byddai angen ystyried sut i sicrhau cydbwysedd rhwng yr egwyddor gydgyfeirio a bod y Safonau a osodir ar y corff yn rhesymol ac yn gymesur.

Opsiwn 3: Set fechan o Safonau mwy cyffredinol yn y ddeddfwriaeth sylfaenol

154. O dan Opsiwn 3, fe wnaethom ystyried yr opsiwn o osod set fechan o Safonau cyffredinol yn y ddeddfwriaeth sylfaenol ei hun. Er mwyn sicrhau bod y Safonau'n rhesymol a chymesur i gyrff unigol, o dan yr opsiwn hwn byddai angen inni nodi'r eithriadau i'r Safonau y mae'n ofynnol i'r cyrff gydymffurfio â nhw. O dan Opsiwn 3, byddai'n bosib ychwanegu dyddiadau pan fyddai'r eithriadau yn dod i ben fel bod nifer yr eithriadau'n lleihau dros amser. Wrth i gapasiti cyrff i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg wella, gellid rhagweld dyddiad, 2030 neu wedi hynny efallai, pan fyddai pob corff yn gweithredu o dan yr un Safonau a nifer yr eithriadau'n brin iawn os byddai rhai o gwbl.
155. Fodd bynnag, mae anawsterau sylweddol ynghlwm â'r opsiwn hwn. Byddai nifer yr eithriadau cychwynnol yn uchel ac ni fyddai'n haws mewn unrhyw ffordd i'r cyhoedd ddeall eu hawliau. Ni ddylem ddiystyru'r anawsterau sydd ynghlwm â gosod Safonau nawr, y bwriedir iddynt ddod i rym, a bod yn rhesymol, ymhen sawl blwyddyn. Mae sawl ffactor a allai olygu y byddai'r Safonau'n afresymol erbyn y dyddiad dod i rym. Fel rhan o hyn, byddai angen inni ystyried amryw ffactorau megis pa gymorth y gallen ni ei gynnig i wasanaethau cyhoeddus i wella eu capasiti a'u gallu i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg, capasiti'r system addysg i greu gweithlu sy'n meddu ar y sgiliau cywir, cyfyngiadau eraill yn y farchnad lafur, a dulliau i ymestyn yr eithriadau pe na byddai'r amodau a fyddai'n ei gwneud yn bosib dod â'r eithriadau hyn i ben yn bodoli ar yr amser priodol.
156. Yn ychwanegol at hyn, byddai'n anodd ac yn cymryd amser i ddiwygio Safonau mewn deddfwriaeth sylfaenol, er enghraifft, wrth ymateb i newidiadau i dechnoleg neu'r ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu. Byddai'n anoddach i'r system ymateb yn hyblyg i ddatblygiadau newydd a newidiadau.

Opsiwn 4: Cynlluniau eithrio wedi'u rheoleiddio sy'n seiliedig ar set fechan o Safonau mwy cyffredinol

157. O dan Opsiwn 4, fe wnaethom ystyried yr opsiwn o gyflwyno cynlluniau eithrio wedi'u rheoleiddio. Y bwriad fyddai gosod Safonau mwy cyffredinol mewn deddfwriaeth, o bosib yn y ddeddfwriaeth sylfaenol. Byddai'n ofynnol i'r cyrff ystyried p'un a fyddai'r Safonau'n rhesymol a chymesur iddynt eu bodloni. Y cyrff eu hunain (gan weithio gyda'r Comisiwn) fyddai yn y lle gorau i ddeall eu meysydd a beth allant ei gyflawni. Pe byddent yn penderfynu nad yw Safon yn rhesymol neu'n gymesur, byddai gofyn iddynt gyflwyno cynllun yn cynnig eithriadau. Yn ein barn ni, byddai angen i'r cynlluniau hyn gael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cysondeb. Gallai Llywodraeth Cymru hefyd gael pŵer i gyhoeddi canllawiau. Er mwyn i'w cynllun gael ei gymeradwyo, byddai'n ofynnol i bob corff gyfiawnhau pam eu bod yn dymuno creu eithriadau i'r Safonau. Gan y byddai'n ofynnol i'r corff geisio cymeradwyaeth ar gyfer ei gynllun eithrio, gallai hyn fod yn ffordd o annog cyrff i gynyddu eu capasiti i fodloni'r Safonau er mwyn osgoi gorfod ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr eithriadau. Byddai'r Safonau, fel y byddent yn gymwys i'r corff hwnnw, yn orfodadwy.
158. Gallai'r cynlluniau eithrio fod ynghlwm wrth ddyletswydd gyffredinol i geisio gwella'n barhaus. Byddai graddau'r gwelliant parhaus yn cael ei fonitro gan y Comisiwn a fyddai hefyd yn rhoi cyngor a chymorth, er enghraifft o ran cynllunio ieithyddol. Yn yr un modd ag Opsiwn 3, byddem yn ceisio terfynu eithriadau dros amser wrth i gapasiti'r

cyrff i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg wella, er enghraifft drwy gynnal adolygiad o'r cynlluniau eithrio bob hyn a hyn.

159. Yn ein barn ni, byddai'r opsiwn hwn yn ddrud a chymhleth i'w reoli, o ystyried y byddai angen cytuno ar gynllun eithrio i bob corff. Mae'n debygol y byddai dros 500 o'r cyrff hyn, os defnyddir nifer y cyrff sydd â chynllun ar gyfer y Gymraeg fel amcan. Gallai'r nifer hwn gynyddu'n sylweddol, er enghraifft pe byddai gofyn i gynghorau cymuned lunio cynllun o'r fath. Mae 735 o gynghorau tref a chymuned yng Nghymru. Mae cynghorau cymuned ymhlith y cyrff a allai ddod o dan y Safonau presennol, ac os bydd eu rôl o ddarparu gwasanaeth ar lefel leol yn parhau i ehangu, mae'n debygol y byddem yn dymuno gweld rhai ohonynt os nad y cwbl yn ddarostyngedig i rai Safonau. Yn dibynnu ar ba mor eang y llunnir y Safonau, gallai pob cynllun eithrio fod yn faith iawn. Ceir goblygiadau sylweddol o ran adnoddau.

Opsiwn 5: Nodi hawliau i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg mewn deddfwriaeth sylfaenol

160. Mae rhai rhanddeiliaid yn dadlau dros nodi hawliau sylfaenol y cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â chyrff yng Nghymru mewn deddfwriaeth. Dyma a ystyriwyd o dan Opsiwn 5. Rydym yn gwybod bod cyrff mewn rhai amgylchiadau'n ei chael yn anodd darparu gwasanaethau yn y Gymraeg oherwydd prinder sgiliau Cymraeg y gweithlu a chyfyngiadau tebyg yn y farchnad lafur. Mae'r trefniadau presennol yn cydnabod y cyfyngiadau hyn drwy sicrhau mai'r unig Safonau y caniateir eu gosod ar gyrrff yw rhai rhesymol a chymesur.
161. Pe byddem yn symud i system o hawliau cyfreithiol cyffredinol i ddefnyddio'r Gymraeg, byddai'n rhaid inni wneud darpariaeth ar gyfer eithriadau helaeth i gyrrff unigol a'u hamgylchiadau penodol. Yn ein barn ni, y mwyaf cyffredinol yw'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg, y mwyaf o eithriadau y byddai eu hangen i sicrhau ei bod yn rhesymol a chymesur i'r cyrff gydymffurfio. Am y rheswm hwn, nid ydym yn credu y byddai system sy'n seiliedig ar hawliau'n llai cymhleth na'r Safonau yn ymarferol.

Pwysu a mesur yr opsiynau

162. Ystyriwyd yr opsiynau hyn gan roi ystyriaeth i'r angen i sicrhau eglurder ar gyfer y cyhoedd, capasiti'r system i sicrhau gwelliant dros amser, a chostau newid.

Eglurder

163. Nid oes un o'r opsiynau yn gwbl syml, ac rydym wedi esbonio pam ein bod o'r farn hon ym mharagraff 139 i. Nid ydym yn credu bod Opsiynau 4 a 5 yn cynnig mwy o eglurder na'r trefniadau presennol. Gallai Opsiwn 3 (cyfres fach o Safonau cyffredinol mewn deddfwriaeth sylfaenol) fod yn ddeniadol. Fel yn achos yr opsiynau eraill, byddai'n arwain at restrau helaeth o eithriadau. Prif anfantais Opsiwn 3 yw'r anawsterau cyfreithiol ac ymarferol sylweddol o ran rhagweld yr hyn a fyddai'n rhesymol ac yn gymesur i gyrrff gydymffurfio ag ef rai blynyddoedd i'r dyfodol. Yn ein barn ni, byddai Opsiwn 2 yn arwain at welliannau graddol ac yn ddull ymarferol y gallem ddechrau gweithio tuag ato o dan y ddeddfwriaeth bresennol. Mae hynny'n golygu y gallem ddechrau symud ymlaen heb orfod aros i ddeddfwriaeth newydd ddod i rym.

Capasiti ar gyfer gwella

164. Un o'r prif gwestiynau yw p'un a yw'r system wedi'i chynllunio i sicrhau bod ansawdd gwasanaethau Cymraeg yn gwella dros amser. Y math o drefniadau a fyddai'n caniatáu gwelliant yw trefniadau i adolygu ac ail-lunio Safonau a/neu hysbysiadau cydymffurfio o bryd i'w gilydd, neu i roi terfyn amser ar eithriadau. Mae Opsiynau 2, 3 a 4 i gyd yn cynnig ffordd o sicrhau gwelliant ac mae manteision iddynt o gymharu â'r trefniadau presennol.

Costau newid

165. Pe baem yn newid i system Safonau wahanol (fel Opsiynau 3-5), byddai costau ychwanegol. Er ei bod yn anodd rhagweld yr union gostau ar hyn o bryd, heb wneud dadansoddiad llawn, mae'n debygol y gallai'r costau hyn fod yn sylweddol iawn os cyflwynwn system gwbl newydd. Nododd nifer o'r rheini a ymatebodd i'r alwad am dystiolaeth fod adnoddau prin wedi'u cymryd oddi wrth y gwaith o wella gwasanaethau Cymraeg er mwyn gweinyddu'r Safonau newydd. A'r cyni presennol yn parhau, nid ydym o'r farn bod yna lawer o frwdfrydedd dros newid cyfan gwbl pellach. Mae'r ymatebion i'r alwad am dystiolaeth yn ei gwneud yn glir mai pryderon ynghylch gwneud a gorfodi'r Safonau yw'r pryderon mwyaf, er bod nifer y Safonau hefyd yn broblem.

Casgliadau

166. Rydym yn deall Opsiynau 2 a 3 fel rhan o gontinwrm diwygio. Credwn y byddai Opsiwn 3 yn arwain at lawer o broblemau cymhleth ac anawsterau ymarferol, hynny yw byddai angen inni ragweld, yn achos pob Safon graidd, nid dim ond yr hyn y mae'n realistig i bob corff ei gyflawni yn ystod 2018/2019 (gan nodi eithriadau mewn is-ddeddfwriaeth), ond hefyd yr hyn y mae'n realistig iddynt ei gyflawni yn 2030 (neu ba ddyddiad bynnag a bennwn yn y dyfodol).

167. Byddai Opsiwn 3 hefyd yn golygu buddsoddi amser ac adnoddau sylweddol cyn dechrau, a dadansoddi'n fanwl yr holl gyrff a gaiff eu cynnwys o dan y system. Mae profiad wedi dangos bod y gwaith y mae'n rhaid ei wneud i baratoi Safonau ac eithriadau cysylltiedig ar gyfer sector penodol yn broses hir sy'n cymryd llawer o amser. Byddai pennu Safonau ac eithriadau ar gyfer sawl sector ar yr un pryd yn cynyddu'r amser hwnnw. Gallai cymhlethdod y dasg arwain at oedi hir cyn creu'r Safonau. Yn ein barn ni, mae ein hymrwymiad i sicrhau hawliau pobl i gael gwasanaethau Cymraeg yn golygu na allwn ddioddef yr oedi hwn (na'r opsiwn hwn, felly).

168. Byddai Opsiwn 2 yn ein galluogi i adeiladu ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran gwella'r ddarpariaeth gwasanaethau Cymraeg a gwella'r rhagolygon ar gyfer gwelliant parhaus. Byddai'n sicrhau parhad yn arferion a phroses ddysgu gwasanaethau cyhoeddus, heb ei gwneud yn ofynnol i'r cyhoedd orfod dysgu system newydd er mwyn defnyddio'u hawliau i wasanaethau Cymraeg. Gallai Opsiwn 2 hefyd sicrhau'r un canlyniadau ag Opsiwn 3, ond ar sail sy'n briodol raddol. Yn ein barn ni, byddai'r cynigion ar gyfer Opsiwn 2 yn ymateb cymesur i bryderon rhanddeiliaid ynghylch y trefniadau presennol, heb gyflwyno cost newid i system gwbl newydd.

169. Rydym yn ystyried mai Opsiwn 2 – sef diwygio'r Safonau yn raddol – yw'r ffordd orau ymlaen. Croesawn eich barn ar yr opsiwn hwn ac ar yr opsiynau eraill rydym wedi'u cyflwyno, ynghyd ag unrhyw opsiynau eraill nad ydym wedi'u cyflwyno.

170. Pe baem yn symud ymlaen ag Opsiwn 2, byddai cyfle i ailedrych ar y setiau presennol o reoliadau er mwyn sicrhau bod y Safonau yn adlewyrchu'r dull diwygiedig hwn. Gellid gwneud hyn fel rhan o'r broses arfaethedig i adolygu'r Safonau y mae'n ofynnol i gyrff gydymffurfio â nhw, neu fel rhan o'r gwaith a gaiff ei wneud i weithredu unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol. Mae'r goblygiadau o ran adnoddau yn sylweddol ac ni fyddem am godi disgwyliadau rhy uchel ynghylch cynnydd yn y tymor byr. Serch hynny, byddem am ymgysylltu â chyrff sydd eisoes yn ddarostyngedig i'r Safonau yn gynnar er mwyn gweld pa welliannau y gellid eu hystyried.
171. Byddai angen inni ystyried hefyd i ba raddau y gallai'r bwriad i fabwysiadu dull diwygiedig effeithio ar y rhaglen bresennol o lunio rheoliadau i wneud cyrff yn ddarostyngedig i'r Safonau. Er enghraifft, rydym wedi ymgynghori ar reoliadau Safonau drafft ar gyfer cyrff iechyd a darparwyr gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth. Mae'n debygol y byddem am adolygu'r rheoliadau hynny cyn eu gosod gerbron y Cynulliad, ac esbonio unrhyw newidiadau a wnawn yn y memorandwm esboniadol.

Cwestiynau ymgynghori

17. Rydym yn cynnig y dylid mabwysiadu model diwygiedig o'r Safonau (Opsiwn 2) fel y ffordd orau o sicrhau hawliau pobl i dderbyn gwasanaethau Cymraeg. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?

Cytuno/Anghytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau ategol, gan gynnwys (os yn berthnasol) unrhyw ddiwygiadau pellach yr hoffech eu gweld i'r system bresennol, neu unrhyw ddulliau gweithredu eraill y dylem eu hystyried yn eich barn chi.

18. Rydym wedi seilio'r cynnig rydym yn ei ffafrio i ddiwygio'r Safonau (Opsiwn 2) ar sail yr eglurder, y capasiti ar gyfer gwella a'r costau newid sy'n gysylltiedig â phob opsiwn (paragraffau 163–165). A ydych chi'n cytuno â'n dadansoddiad?

Cytuno/Anghytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau ategol, gan gynnwys (os yn berthnasol) unrhyw ffactorau eraill y dylem eu hystyried wrth lunio unrhyw gynigion terfynol.

Dosbarthiadau Safonau'r Gymraeg

172. Ar hyn o bryd, rhaid i'r Safonau gael eu rhoi o fewn un o'r pum dosbarth a amlinellwyd yn y Mesur, sef:

1. *Safonau cyflenwi gwasanaethau*: gosod dyletswyddau ar gyrff yn ymwneud â darparu gwasanaethau yn Gymraeg
2. *Safonau llunio polisi*: ei gwneud yn ofynnol i gyrff ystyried y Gymraeg wrth ddatblygu eu polisiâu a'u cynlluniau
3. *Safonau gweithredu*: gosod dyletswyddau sydd (i) yn helpu staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith ac wrth ddelio â'u cyflogwr, a (ii) yn gysylltiedig â'r defnydd a wneir o'r Gymraeg gan gyrff yn fewnol, gan gynnwys y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar eu gweithlu
4. *Safonau hybu*: hybu'r Gymraeg

5. *Safonau cadw cofnodion*: cadw cofnodion ar agweddau ar weithredu'r Safonau

173. Ceir Safonau Atodol ychwanegol sy'n nodi materion eraill yn ymwneud â Safonau yn y dosbarthiadau hyn (megis y gofyniad i gyflwyno gweithdrefn gwyno, casglu a darparu gwybodaeth a llunio adroddiadau).
174. Mae cwestiynau ynghylch a yw'r dosbarthiadau hyn yn briodol, a ddylem ystyried dosbarthiadau gwahanol, neu a oes angen gwahaniaethu yn y modd hwn rhwng y mathau gwahanol o Safonau yn y dyfodol.
175. O dan y Mesur, ni ellir ei gwneud yn ofynnol i bob corff gydymffurfio â phob dosbarth o Safonau:

Tabl 2: Dosbarthiadau Safonau

Dosbarth	Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol	Y rhan fwyaf o gyrff datganoledig a heb eu datganoli	Y rhan fwyaf o ddarparwyr cyfleustodau a darparwyr gwasanaethau yn y sector preifat
Cyflenwi gwasanaethau	✓	✓	✓
Llunio polisi	✓	✓	✗
Gweithredu	✓	✓	✗
Hybu	✓	✗	✗
Cadw cofnodion	✓	✓	✓

176. Y Safonau cyflenwi gwasanaethau yw'r Safonau sy'n diffinio hawliau defnyddwyr gwasanaethau a chwsmeriaid i wasanaethau Cymraeg. Dyma'r Safonau sydd o'r diddordeb mwyaf i'r cyhoedd ac sy'n cael yr effaith uniongyrchol fwyaf ar unigolion. Mae rhai o'r Safonau gweithredu o ddiddordeb uniongyrchol i bobl sy'n gweithio i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus am eu bod yn amlinellu'r gwasanaethau mewnol sydd ar gael yn Gymraeg i'r gweithwyr hynny, megis yr hawl i gael dogfennau penodol yn Gymraeg neu i gael defnyddio'r Gymraeg mewn gweithdrefn ddisgyblu. Yn y ddau achos, mae'r Safonau'n creu hawliau ar gyfer unigolion ac mae'n gywir eu disgrifio fel 'safonau'.
177. Mae'r Safonau sy'n weddill yn gosod dyletswyddau corfforaethol ar ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus sy'n ymwneud â'u swyddogaethau, ond nid ydynt yn creu hawliau ar gyfer unigolion. Dyma'r Safonau perthnasol:
- Safonau llunio polisi
 - gweddill y Safonau gweithredu sy'n ymwneud â'r ffordd y mae'n rhaid i gorff ddatblygu ei allu i weithio yn Gymraeg, megis dyletswyddau i ddatblygu sgiliau Cymraeg drwy gynllunio a hyfforddi'r gweithlu, a dyletswyddau'n ymwneud â recriwtio a phenodi staff;
 - Safonau hybu
 - Safonau cadw cofnodion a Safonau atodol

178. Rydym yn ystyried bod y dyletswyddau hyn yn delio â materion cynllunio ieithyddol mewn gwasanaethau cyhoeddus, ac felly dylid eu hystyried fel dyletswyddau cynllunio ieithyddol. Mae arbenigedd mewn cynllunio ieithyddol yn hanfodol er mwyn helpu cyrff i ddatblygu eu gallu i weithio yn Gymraeg a darparu gwasanaethau Cymraeg, yn ogystal â'u helpu i weithio'n effeithiol i gynnal a gwella sefyllfa'r Gymraeg mewn cymunedau ac mewn bywyd bob dydd.
179. Rydym o'r farn y byddai dwyn y dyletswyddau hyn ynghyd fel dyletswyddau cynllunio ieithyddol yn darparu fframwaith cydlynol ar gyfer datblygu polisi i gefnogi cynllunio ieithyddol ar sail ardaloedd a gwella gallu cyrff i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg. Ein bwriad fyddai, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn arfaethedig fonitro cydymffurfiaeth cyrff â'u dyletswyddau cynllunio ieithyddol a darparu cymorth ymarferol i helpu cyrff i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol. Wrth ymgysylltu â chyrff yn ystod yr alwad am dystiolaeth, gwelwyd y byddai llawer o'r rheini sydd o dan y Safonau yn croesawu'r cymorth hwn.
180. Felly, rydym yn cynnig diddymu'r dosbarthiadau o Safonau ac aiddosbarthu'r Safonau nad ydynt yn creu hawliau i unigolion yn ddyletswyddau cynllunio ieithyddol.
181. Mae Tabl 3 yn amlinellu'r materion sy'n cael eu cynnwys yn y Safonau a'r dyletswyddau cynllunio ieithyddol, a pha gyrff y byddant yn effeithio arnynt.

Tabl 3: Safonau a dyletswyddau cynllunio ieithyddol arfaethedig

	Safonau	Dyletswyddau cynllunio ieithyddol
Pa faterion y maent yn ymdrin â nhw?	<ul style="list-style-type: none"> Gwasanaethau i'r cyhoedd Gwasanaethau i gyflogeion 	<ul style="list-style-type: none"> Cynllunio ieithyddol a hybu'r iaith ar sail ardal a phoblogaeth Cynllunio ieithyddol a hybu'r iaith o fewn gwasanaethau cyhoeddus
Y cyrff dan sylw	Pob corff yn Atodlen 6 ac Atodlen 8 yn y Mesur (h.y. pob corff sy'n ddarostyngedig i Safonau)	Cyrff Atodlen 6 (a dyletswyddau cadw cofnodion sylfaenol iawn ar gyrff Atodlen 8) yn y Mesur (darparwyr gwasanaethau cyhoeddus datganoledig ac nad ydynt wedi'u datganoli, a dyletswyddau cadw cofnodion ar rai cyrff yn y sector preifat)
Diben	Darparu hawliau i wasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd a chyflogeion	Darparu fframwaith statudol ar gyfer cynllunio ieithyddol

182. Pe byddem yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig hwn, byddai angen i ni gynnal adolygiad o hyd a lled y materion i'w cynnwys fel dyletswyddau cynllunio ieithyddol. Er enghraifft, gallai fod achos dros ystyried a oes modd cyfuno rhai o'r dyletswyddau cynllunio ieithyddol sydd â chysylltiad agos rhyngddynt, fel y rheini sy'n ymwneud â

Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, sydd wedi bod yn destun adolygiad allanol diweddar ar gyfer Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes.

183. Mae angen inni hefyd ystyried a ddylai pwerau ymchwilio a gorfodi'r Comisiynydd presennol mewn perthynas â'r Safonau barhau i gynnwys y dyletswyddau cynllunio ieithyddol wrth ystyried pwerau Comisiwn arfaethedig y Gymraeg. Gall y Comisiynydd presennol orfodi corff i gydymffurfio â'i ddyletswydd i baratoi strategaeth i hybu'r Gymraeg mewn ardal benodol er enghraifft. Fodd bynnag, nid yw cydymffurfiaeth â'r Safon yn gyfystyr â rhoi sylw i safon y strategaeth. Er y dylai fod yn ofynnol i gorff gydymffurfio â'i ddyletswyddau cynllunio ieithyddol statudol, rydym o'r farn ei bod yn bwysicach monitro a chefnogi cyrff i ddatblygu'r gallu sydd ei angen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol na'u gorfodi i gydymffurfio.
184. Credwn y dylai'r Comisiwn arfaethedig gael rôl fonitro ac y dylai fod yn ofynnol iddo adrodd ar sut mae cyrff yn arfer y dyletswyddau hyn a darparu rhaglenni cymorth ymarferol i'w helpu i ddatblygu sgiliau cynllunio ieithyddol. Yn ogystal, dylai'r Comisiwn gael pwerau cyffredinol i gynnal ymchwiliadau i'r modd y mae cyrff yn cyflawni eu dyletswyddau'n ymwneud â'r Gymraeg a dylai allu gofyn am wybodaeth yn ymwneud â'r Safonau a'r dyletswyddau cynllunio ieithyddol.

Cwestiynau ymgynghori

19. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiddymu'r dosbarthiadau presennol o Safonau, a gwahaniaethu rhwng 'Safonau' (a fyddai'n berthnasol i wasanaethau) a 'dyletswyddau cynllunio ieithyddol' (a fyddai'n berthnasol i ddyletswyddau corfforaethol)?

Cytuno/Anghytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau ategol

20. A ydych chi o'r farn y dylid cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â Chynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn y ddeddfwriaeth newydd fel dyletswyddau cynllunio ieithyddol?

Ydw/Nac ydw/Ansicr

Sylwadau ategol

21. Oes yna unrhyw faterion eraill y dylid, yn eich barn chi, eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth newydd fel dyletswyddau cynllunio ieithyddol?

Oes/Nac oes/Ansicr

Sylwadau ategol

22. A ydych chi'n cytuno y dylai fod gan y Comisiwn arfaethedig bwerau cyffredinol i gynnal ymchwiliadau i sut mae cyrff yn cyflawni eu dyletswyddau o ran y Gymraeg, a fyddai'n cynnwys y Safonau a'r dyletswyddau cynllunio ieithyddol?

Cytuno/Anghytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau ategol

23. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai'r Comisiwn arfaethedig fonitro a chefnogi cyrff mewn perthynas â'u dyletswyddau cynllunio ieithyddol, yn hytrach na'u gorfodi?

Cytuno/Anghytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau ategol

Gweithdrefnau ar gyfer gwneud, gosod, gweithredu a gorfodi Safonau

185. Roedd yr ymatebion i'n galwad am dystiolaeth yn tynnu sylw at nifer o faterion yn ymwneud â'r gweithdrefnau presennol y gallwn eu gwella. Mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol yn bennaf:

- gweithdrefnau ar gyfer gwneud a gosod y Safonau;
- sut yr ymdrinnir â chwynion ac ymchwiliadau o dan y system bresennol;
- trefn orfodi sy'n cael ei hystyried yn gosbedigol yn hytrach na'i bod yn unioni'r sefyllfa, ac nad yw'n canolbwyntio ddigon ar helpu cyrff i wella.

Gwneud a gosod Safonau ar gyrff

186. Mae'r broses o wneud Safonau yn dechrau pan fydd y Comisiynydd yn cynnal ymchwiliad i gyrff penodol, sef Ymchwiliad Safonau. Mae'r Comisiynydd yn llunio adroddiad yn seiliedig ar yr ymchwiliad sy'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Diben yr adroddiad yw nodi pa weithgareddau y mae'r cyrff yn ymgymryd â nhw a pha Safonau, yn gyffredinol, y dylai'r cyrff hyn fod yn ddarostyngedig iddynt.

187. Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r adroddiad fel rhan o'r dystiolaeth i ddrafftio rheoliadau sy'n nodi Safonau unigol. Pan fydd y rheoliadau wedi'u drafftio, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â'r cyhoedd a'r cyrff dan sylw er mwyn cael gwybod eu barn ar y rheoliadau drafft. Caiff y rheoliadau drafft eu diwygio os oes angen a'u gosod gerbron y Cynulliad i'w cymeradwyo cyn y cânt eu gwneud.

188. Ar ôl i'r rheoliadau gael eu gwneud, mae'r Comisiynydd yn anfon hysbysiad cydymffurfio drafft i bob corff sy'n amlinellu pa Safonau penodol y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â nhw ac erbyn pryd. Gall y Comisiynydd newid yr amser a'r amgylchiadau ar gyfer cydymffurfio â Safonau unigol. Mae'r Comisiynydd yn ymgynghori â'r corff ar yr hysbysiad cydymffurfio drafft cyn anfon hysbysiad terfynol.

189. Os yw'r corff o'r farn y byddai'n afresymol neu'n anghymesur iddo gydymffurfio ag un neu fwy o'r Safonau yn ei hysbysiad cydymffurfio terfynol, gall ofyn i'r Comisiynydd ailystyried. Wedyn, mae'r Comisiynydd yn penderfynu a ddylai newid yr hysbysiad cydymffurfio ai peidio. Os yw'r Comisiynydd yn penderfynu peidio â newid yr hysbysiad cydymffurfio, gall y corff apelio i Dribiwnlys y Gymraeg i adolygu penderfyniad y Comisiynydd.

190. Ar ôl y dyddiad a nodwyd yn yr hysbysiad cydymffurfio, rhaid i gyrff gydymffurfio â'r Safonau oni bai eu bod yn aros i'r Comisiynydd benderfynu ynghylch Safon y maent wedi'i herio, neu'n aros i'r Tribiwnlys wneud penderfyniad.
191. Rydym o'r farn bod gormod o gamau yn y broses bresennol ar gyfer gwneud a gosod Safonau ar gyrff. Mae'n cymryd amser hir, dros 18 mis fel arfer, ac mae gofyn ymgynghori â'r gyrff deirgwaith yn ystod y cyfnod hwn. Mae corff ond yn gwybod yn bendant pa Safonau y mae'n rhaid iddo gydymffurfio â nhw pan fydd wedi cyrraedd cam olaf y broses, pan gaiff hysbysiad cydymffurfio ei roi. Credwn fod cynnwys Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd yn y broses hon o bosibl yn peri dryswch ac yn wastraffus.
192. Rydym yn bwriadu symleiddio'r broses drwy wneud Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am ddrafftio'r rheoliadau ac am roi hysbysiadau cydymffurfio (neu rhyw drefn arall ar gyfer gorfodi corff i gydymffurfio â Safonau penodol). Dylai rheoliadau fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus cyn gofyn am gymeradwyaeth y Cynulliad. Dylai Comisiwn arfaethedig y Gymraeg fod yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth gyrff â'r Safonau a'u gorfodi.
193. Rydym yn cynnig bod corff yn cael gofyn i Lywodraeth Cymru ailystyried hysbysiad cydymffurfio terfynol ar y sail nad yw'n rhesymol neu'n gymesur iddo gydymffurfio â Safon. Byddai modd apelio i Dribiwnlys y Gymraeg pe bai corff yn anghytuno â phenderfyniad Llywodraeth Cymru.
194. Rydym yn credu bod rhoi'r cyfrifoldeb am greu a gosod Safonau ar gyfer gyrff i un sefydliad (Llywodraeth Cymru) yn unig, a rhoi'r cyfrifoldeb am fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth i un arall (y Comisiwn) yn gwneud y system yn llai biwrocraidaidd, ac yn fwy cost effeithiol, ac yn ei gwneud yn eglur pwy sy'n gwneud beth ar bob cam.
195. O ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i'r broses o greu a gorfodi'r Safonau, rydym o'r farn na fydd angen pŵer presennol y Comisiynydd i gynnal Ymchwiliadau Safonau (paragraff 186) bellach.
196. O ystyried y rôl rydym yn ei chynnig ar gyfer Llywodraeth Cymru, rydym hefyd yn cynnig y dylai Llywodraeth Cymru gael pŵer i gyhoeddi codau ymarfer mewn cysylltiad â gofynion unrhyw Safonau. Drwy ein galwad am dystiolaeth, rydym wedi clywed barn gyrff ynghylch yr anawsterau y maent yn eu hwynebu oherwydd diffyg codau ymarfer ar hyn o bryd, a gwyddom y gallai codau fod yn ddefnyddiol i helpu gyrff i ddeall gofynion ymarferol y Safonau.

Cwestiynau ymgynghori

24. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i roi cyfrifoldeb am osod Safonau ar gyrff i Lywodraeth Cymru, p'un ai drwy hysbysiad cydymffurfio neu drefn arall?

Cytuno/Anghytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau ategol

25. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai pob un o'r rheoliadau i wneud Safonau fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn cyn gofyn am gymeradwyaeth y Cynulliad?

Cytuno/Anghytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau ategol

26. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiddymu Ymchwiliadau Safonau?

Cytuno/Anghytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau ategol

27. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylid rhoi pwerau i gyhoeddi codau ymarfer neu ganllawiau mewn perthynas â'r Safonau i Lywodraeth Cymru?

Cytuno/Anghytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau ategol

Gwneud a gosod Safonau ar sectorau

197. Mae sectorau sy'n cynnwys llawer o gyrff unigol sydd eisoes o fewn cwmpas y Mesur, ac yr hoffem osod Safonau ar eu cyfer yn y dyfodol o bosibl e.e. cyngorau cymuned. O dan y drefn bresennol, mae'n rhaid cyflwyno hysbysiad cydymffurfio i bob corff yn unigol. Mewn achosion o'r fath, byddai'n fuddiol gallu gosod Safonau drwy reoliadau'n unig, yn dilyn ymgynghoriad, heb fod angen hysbysiad cydymffurfio neu ryw drefn arall gyffelyb. Byddai'r gofyniad bod Safonau'n rhesymol ac yn gymesur yn parhau i fod yn gymwys. Byddai gorfod rhoi hysbysiad cydymffurfio i bob corff yn y sector hwnnw yn llyncu adnoddau ac yn gostus, a byddai sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf yn y cofrestrau yn dasg aruthrol.
198. Byddai rhaid ymgynghori ynghylch y rheoliadau sy'n gosod Safonau ar gyfer sector arbennig. O ystyried y gofyniad fod Safonau'n rhesymol a chymesur ar gyfer yr holl gyrff yn y sector, mae'n debygol y byddai'r Safonau naill ai ar y lefel isaf bosibl a/neu'n cynnwys Safonau amgen ar gyfer yr un gweithgarwch. Byddai pa Safon sy'n gymwys i gorff penodol yn dibynnu ar ffactorau fel eu maint neu eu lleoliad daearyddol. Byddai angen i ni ystyried ymhellach a fyddai cyrff unigol mewn achosion o'r fath yn cadw'r hawl i herio Safon a osodir, neu a ddylid yn hytrach gynnal proses ymgynghori fwy trwyadl, er enghraifft, gofyniad i ymgynghori'n gyntaf â'r sector ynghylch cynnig amlinellol, gan gynnwys unrhyw feini prawf sy'n ymwneud â chategorïau o wahanol gyrff o fewn sector, a phryd a sut y byddai'r Safonau'n gymwys iddynt.
199. Rydym felly am gael eich sylwadau ynghylch y cynnig y dylai Llywodraeth Cymru gael gosod Safonau ar yr holl gyrff o fewn sector drwy reoliadau'n unig. Rydym hefyd eisieu clywed eich barn ar faterion cysylltiedig, fel y ffactorau y dylem eu hystyried wrth ddrafftio Safonau sydd i gael eu gosod yn uniongyrchol ar gyrff mewn sector, ac a ddylai cyrff unigol gadw'r hawl i herio Safon a osodir arnynt neu a ddylem gyflwyno proses ymgynghori fwy trwyadl o dan amgylchiadau o'r fath.

Cwestiynau ymgynghori

28. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai Llywodraeth Cymru gael pŵer i osod

Safonau ar yr holl gyrff mewn sector yn uniongyrchol drwy reoliadau, heb fod angen hysbysiad cydymffurfio neu drefn arall gyffelyb?

Cytuno/Anghytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau ategol, gan gynnwys eich barn ar y materion y dylem eu hystyried wrth lunio Safonau i'w gosod yn uniongyrchol ar gyrff o fewn sector, p'un a ddylai gyrff unigol barhau â'r hawl i herio Safon sydd wedi'i gosod arnynt, a ph'un a ddylid cael proses ymgynghori fwy trwyadl.

Safonau i'w gosod ar Lywodraeth Cymru

200. Os yw'r cynnig y dylai Llywodraeth Cymru greu a gosod Safonau'n cael ei dderbyn, yna bydd angen i ni wneud trefniadau priodol ar gyfer gosod Safonau ar Lywodraeth Cymru ei hun.
201. Nid yw'n anghyffredin o gwbl fod llywodraethau'n creu cyfreithiau sy'n golygu bod y llywodraeth ei hun yn ddarostyngedig i reoliadau. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn ddarostyngedig i reoliadau mewn nifer o feysydd, fel cynllunio a'r amgylchedd. Fodd bynnag, mae Safonau'n cael eu cymhwyso yn benodol i gorff, a chaniateir cynnwys eithriadau neu amodau sy'n benodol i'r corff mewn hysbysiad cydymffurfio. Oherwydd hyn, byddai gofyn i Lywodraeth Cymru gynnal asesiad o ba Safonau y mae'n rhesymol a chymesur iddi hi ei hun gydymffurfio â nhw. Er mwyn diogelu uniondeb y system, byddai angen i ni sicrhau bod y broses hon yn deg ac yn dryloyw.
202. Un opsiwn fyddai ystyried rhoi rhan i'r Cynulliad yn y broses o osod Safonau ar gyfer Llywodraeth Cymru, er enghraifft drwy orfod ystyried a chymeradwyo hysbysiad cydymffurfio'r Llywodraeth.

Cwestiynau ymgynghori

29. Pa ffactorau y dylid eu cymryd i ystyriaeth neu pa weithdrefn y dylid ei dilyn er mwyn sicrhau bod y broses o osod Safonau ar Lywodraeth Cymru yn deg a thryloyw?

Sylwadau ategol

Safonau yng nghyd-destun cydweithio rhwng gyrff a diwygio llywodraeth leol

203. Wrth ymateb i'r alwad am dystiolaeth, gwnaed sylwadau gan nifer o bartneriaid, awdurdodau lleol yn bennaf ond nid y nhw yn unig, ynghylch yr anawsterau y maent yn eu hwynebu wrth benderfynu pa Safonau sy'n gymwys yng nghyd-destun gweithio mewn partneriaeth, cydweithredu a chomisiynu ar y cyd. Mae'r gyrff hyn hefyd yn nodi'r tebygolrwydd y bydd y tueddiadau presennol tuag at weithio ar raddfa ehangach gyda phartneriaid yn parhau. Ar hyn o bryd, mae'n bosibl fod y gwahanol gyrff yn y trefniadau hyn yn ddarostyngedig i wahanol Safonau, er enghraifft, mewn perthynas â'r dogfennau y mae'n rhaid iddynt eu cyhoeddi yn Gymraeg neu'r cyfarfodydd y mae'n rhaid iddynt eu cynnal yn Gymraeg. Mae'n bosibl nad yw rhai gyrff yn destun Safonau hyd yn hyn a'u bod yn parhau i weithredu cynlluniau o dan Ddeddf 1993.

204. Wrth gwrs, mae pob corff sydd yn y math hwn o drefniant yn gyfrifol am gyflawni ei ddyletswyddau, p'un ai o dan y Mesur neu Ddeddf 1993. Fodd bynnag, mae cyrff yn nodi'r problemau ymarferol y maent yn eu hwynebu wrth benderfynu sut orau i gydweithio. O bosibl, gellid datrys hyn drwy roi arweiniad i gyrff sydd â gwahanol drefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth drwy god ymarfer, er y bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i'r graddau y gellid defnyddio canllawiau i eithrio corff o ofyniad statudol neu i amrywio'r gofyniad o dan amgylchiadau o'r fath.
205. Yn ogystal, ar ddechrau 2017, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar Bapur Gwyn, *Diwygio Llywodraeth leol: cadernid ac adnewyddiad*.¹³ Ym mis Mehefin, cyhoeddodd y Prif Weinidog fwriad Llywodraeth Cymru i ddwyn bil ymlaen ym mlwyddyn 2017/18 y Cynulliad i ddiwygio llywodraeth leol. Bydd y bil yn sefydlu cydberthynas newydd rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, yn creu mwy o dryloywder o ran y broses o wneud penderfyniadau ac yn sicrhau bod rhagor o gydweithredu'n digwydd drwy drefniadau gorfodol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol.
206. Bwriedir y bydd trefniadau rhanbarthol ar ffurf cyd-bwyllgorau llywodraethiant. Bydd hyn yn ffurf newydd o gyd-bwyllgor ac felly bydd angen ystyried p'un a ddylent gael eu cynnwys yn Atodlen 6 y Mesur, ynghyd â'r cyd-bwyllgorau a'r cyd-fyrddau sy'n bodoli eisoes a fydd yn parhau fel dull i awdurdodau lleol allu cyd-weithio.¹⁴ Yn ogystal, bydd angen i ni ystyried pa Safonau ddylai fod yn benodol gymwys i gyd-bwyllgorau rhanbarthol, er y bydd hyn yn dibynnu ar ba swyddogaethau y maent yn eu harfer a ph'un a ydynt, er enghraifft, yn arfer y swyddogaethau hynny ar yr un pryd â'r awdurdodau sy'n aelodau o'r cyd-bwyllgor llywodraethiant. Byddem hefyd yn dymuno ystyried a fyddai unrhyw ddyletswyddau cynllunio ieithyddol sydd ar awdurdodau lleol yn cael eu harfer yn fwy effeithiol drwy'r trefniadau rhanbarthol.
207. Rydym yn ymrwymo i ymgysylltu ag awdurdodau lleol ar ôl ymgynghori ynghylch y cynigion yn y Papur Gwyn hwn ac wrth i'r cynigion ar gyfer Bil Llywodraeth Leol ddatblygu ymhellach.

Cwynion i gyrff

208. Cwynion gan y cyhoedd nad ydynt wedi gallu cael gwasanaethau yn Gymraeg yw'r mesur pwysicaf o p'un a yw cyrff yn cydymffurfio â'r Safonau. Daeth y Safonau cyntaf i rym ar 31 Mawrth 2016. Roeddynt yn effeithio ar 22 o awdurdodau lleol, 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, nid oes gennym unrhyw wybodaeth ynghylch cwynion a gafwyd gan y cyrff eu hunain. Mae hon yn wybodaeth y mae'n ofynnol iddyn nhw ei chasglu ar hyn o bryd, a bydd rhaid iddynt adrodd yn ei chylch maes o law.
209. Mae gennym fwy o wybodaeth am gwynion sy'n cael eu gwneud yn uniongyrchol i'r Comisiynydd oherwydd fod rhaid cofnodi'r rhain ar gofrestr ar-lein. Yn ystod y naw mis ar ôl i'r Safonau cyntaf ddod i rym (Ebrill hyd Rhagfyr 2016), cofnodwyd 62 o achosion gan y Comisiynydd lle'r oedd aelod o'r cyhoedd wedi honni fod corff wedi methu â chydymffurfio â'r Safonau. Ar ddiwedd y cyfnod hwn, roedd 5 ymchwiliad wedi'u cwblhau, ni pharhawyd â 10 ohonynt ac roedd 47 o ymchwiliadau'n parhau. O'r

¹³ <https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/diwygio-llywodraeth-leol-cadernid-ac-adnewyddiad>

¹⁴ Er nad yw'n ofynnol iddynt gydymffurfio â Safonau ar hyn o bryd, mae'r ffaith iddynt gael eu rhestru yn Atodlen 6 yn golygu ei bod yn bosibl iddi fod yn ofynnol iddynt gydymffurfio â Safonau. Bydd effaith rhestru yn Atodlen 6 yn cael ei thrafod yn fanylach yn Rhan 4 y Papur Gwyn hwn.

ymchwiliadau a oedd yn parhau, roedd 34% yn gwynion am yr un Safonau (81 (hybu gwasanaethau yn Gymraeg), 84, 86 (cyrsiau addysg)) ac wedi'u cofnodi ar yr un dyddiad yn erbyn 16 o wahanol gynghorau.

210. Yn y 5 ymchwiliad a gwblhawyd, dyma gasgliadau'r Comisiynydd:

- a. Methodd Cyngor Caerdydd â delio â galwad a wnaed yn Gymraeg i'w Adran Gynllunio, a chafwyd ei fod wedi methu â chydymffurfio â Safonau 18 a 20.
- b. Ni wnaeth Cyngor Caerffili fethu â chydymffurfio drwy ddefnyddio'r hashnod "GweithioiGaerffili" ar gyfer "WorkforCaerphilly", na thrwy ddefnyddio'r ymadrodd "Ystafelloedd Newid Dan Do" (indoor changing rooms) ar arwyddion mewn canolfan hamdden, ond cafwyd ei fod wedi methu â chydymffurfio â Safon 58 (defnyddio iaith gywir ar arwyddion) pan gamsillafodd "rhentu" fel "rhenti".
- c. Roedd 2 gŵyn yn ymwneud â'r un achos (i bob golwg), sef fod Cyngor Caerdydd wedi codi arwyddion ffordd dros dro a oedd yn Saesneg yn unig a chafwyd ei fod wedi torri Safon 61.
- d. Methodd Cyngor Wrecsam â chydymffurfio â Safon 64 mewn perthynas â gwasanaethau mewn derbynfeydd pan gorfu i ymwelydd aros i gael gwasanaeth yn Gymraeg.

211. Mewn un achos, ni chymerwyd unrhyw gamau gorfodi. Yn yr achosion eraill, atgoffwyd y corff ynghylch y gofyniad i gydymffurfio â'r Safonau. Cymerwyd rhwng pum a saith mis i gwblhau pob achos. Byddai'n anodd dadlau ag unrhyw arddeliad fod hawliau defnyddwyr gwasanaethau wedi cael eu cynnal yn effeithiol drwy orfod aros rhwng pum a saith mis am benderfyniad. Yn yr un modd, mae'n anodd dadlau bod unrhyw rai o'r achosion hyn yn ddigon difrifol i fod yn destun gweithdrefn ymchwilio reoleiddiol hirfaith, o ystyried y gost i'r Comisiynydd a'r corff dan sylw.

212. Cododd yr ymatebion a gawsom i'r alwad am dystiolaeth nifer o faterion yn ymwneud â chwynion, yn arbennig felly'r ffaith nad oes unrhyw rwymedigaeth ar yr achwynydd, pan fydd yn honni bod corff cyhoeddus yn methu â chydymffurfio â Safon, i dynnu sylw'r corff hwnnw at ei gŵyn er mwyn iddo allu unioni unrhyw fethiant yn y gwasanaeth. Mae hyn yn wir er gwaetha'r ffaith fod rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff sy'n ddarostyngedig i'r Safonau gael gweithdrefn gwynion ac i gadw cofnodion ac adrodd yn ôl ynghylch cwynion.

213. Ar hyn o bryd, mae'r Mesur yn caniatáu i'r achwynydd fynd yn uniongyrchol at y Comisiynydd. Mae'n rhaid i'r Comisiynydd ystyried p'un a ddylid cynnal ymchwiliad os yw'r gŵyn yn un ddilys (hynny yw, ei bod yn bodloni meini prawf gweinyddol sylfaenol penodol). Golyga hyn y gall camgymeriadau bach, o'r math sy'n digwydd ym mhob gwasanaeth cyhoeddus yng nghwrs eu busnes, gael eu huwchgyfeirio'n gyflym hyd at ymchwiliad ffurfiol, a gall y methiant barhau neu gael ei ailadrodd dro ar ôl tro am fisoedd lawer wrth i'r ymchwiliad fynd rhagddo. Nid yw hyn o unrhyw fudd i ddefnyddwyr y gwasanaethau.

214. Dylai camau gorfodi fod yn gymesur. Rydym yn ystyried y dylai cyrff gael cyfle i ymchwilio ac i unioni unrhyw fethiant honedig drwy eu gweithdrefn gwynion eu hunain cyn y ceir ystyried atgyfeirio'r mater i rywle arall. Ni chaiff Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ymchwilio i gŵyn os nad yw'r corff perthnasol wedi cael cyfle yn gyntaf i ymchwilio a chymryd camau unioni (adran 9(3) o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005). Rydym o'r farn mai dyma'r drefn gywir i'w dilyn o ran cwynion am y Safonau a bod rhaid i'r achwynydd ddisbyddu

gweithdrefn gwyno'r corff ei hun cyn y caniateir atgyfeirio'r gŵyn at y Comisiynydd. Mae corff cyhoeddus sy'n gorfod ymchwilio i'w wendidau honedig ei hun yn gwybod mwy am ei berfformiad, mae'n fwy tebygol o unioni pethau mewn da bryd ac mewn sefyllfa i ddysgu oddi wrth ei gamgymeriadau ac i wella.

215. Mae'n rhaid i achwynwyr fod yn hyderus y bydd cyrff yn ymchwilio'n deg ac yn drylwyr i gwynion ynghylch methiannau honedig i gydymffurfio â Safonau. Rydym yn cynnig bod rhaid i weithdrefn gwyno corff gadw at weithdrefn gwyno sydd wedi'i chymeradwyo, fel yr un a nodir yn Polisi Pryderon a Chwynion Enghreifftiol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2011,¹⁵ a bod yn rhaid iddo nodi'n glir derfynau amser y cyfnod ar gyfer gwneud penderfyniad ynghylch cwyn. Os yw corff yn canfod ei fod wedi methu â chydymffurfio â Safon, dylai nodi yn ei ateb i'r achwynydd sut y bydd yn unioni'r methiant i gydymffurfio a sut y bydd yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i ofynion yn y dyfodol. Dylai'r corff hefyd gyhoeddi ffeithiau sylfaenol a chanlyniadau pob cwyn yr ymchwilir iddynt ar ei wefan fel bod y cyhoedd a'r Comisiwn yn gallu gweld a yw achos unigol yn rhan o duedd neu batrwm.

Cwestiynau ymgynghori

30. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylid gorfod delio â chwynion drwy weithdrefn gwyno'r corff perthnasol cyn y caiff y Comisiwn arfaethedig, sef Comisiwn y Gymraeg, ymchwilio i fethiant honedig?

Cytuno/Anghytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau ategol

31. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig fod yn rhaid i gyrff gadw at weithdrefn gwyno sydd wedi'i chymeradwyo, fel y Polisi Pryderon a Chwynion Enghreifftiol?

Cytuno/Anghytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau ategol

Cwynion i'r Comisiwn

216. Yn gynharach yn y Papur hwn, gwnaethom gynnig y dylid sefydlu Comisiwn newydd i ymdrin â monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau yn ogystal â hybu'r Gymraeg. Os yw achwynydd yn anfodlon â chanlyniad gweithdrefn gwyno corff, dylai allu atgyfeirio'r gŵyn i'r Comisiwn.

217. Dylai'r Comisiwn gynnal asesiad i benderfynu a ddylai gymryd unrhyw gamau. Dylid seilio'r asesiad ar ddatganiad yr achwynydd, ac ymateb a phenderfyniad y corff. Dylai'r Comisiwn allu gofyn i unrhyw un neu ragor o'r partion am ragor o wybodaeth cyn gwneud ei benderfyniad. Os daw y Comisiwn i'r casgliad (o ganlyniad i'r asesiad hwnnw) fod y corff wedi delio â'r gŵyn yn unol a'i weithdrefn ac wedi gwneud penderfyniad priodol (penderfyniad a oedd yn rhesymol ar sail y dystiolaeth a oedd ar gael), yna ni ddylai'r Comisiwn gymryd unrhyw gamau pellach.

¹⁵ http://www.ombudsman-wales.org.uk/~media/Files/Documents_cy/Model%20Complaints%20Policy%20Final%20PSOW%20Welsh.as hx

218. Os daw'r Comisiwn i'r casgliad nad yw'r corff wedi delio â'r gŵyn yn unol â'i weithdrefn, neu ei fod wedi gwneud penderfyniad nad yw'n rhesymol ar sail y dystiolaeth a oedd ar gael, yna dylai fod yn ofynnol i'r Comisiwn weithredu. Mae'r camau gweithredu sydd ar gael i'r Comisiwn yn dibynnu ar p'un a yw'r asesiad wedi dangos bod mynd yn groes i'r weithdrefn gwyno neu dorri y Safon (neu'r ddau) yn debygol o fod yn fater difrifol.
219. Rydym am gael eich barn ynghylch beth fyddai'n achos difrifol o dorri'r Safonau neu weithdrefn gwyno. Yn ein barn ni, byddai hyn yn cynnwys y canlynol:
- a. pan fo hanfod yr hawl a roddir gan y Safon wedi cael ei wrthod i berson. Er enghraifft, felly, ni fyddai achosion bach, mân neu ansylweddol o dorri Safon yn cael eu hystyried yn ddigon difrifol;
 - b. torri'r un Safon neu wahanol Safonau dro ar ôl tro;
 - c. methiant gan gorff i unioni sefyllfa yn sgil torri Safon neu dorri gweithdrefn gwyno ar ôl cytuno i gymryd camau i wneud hynny neu ar ôl iddi gael ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd camau unioni; neu
 - d. methiant gan gorff i ddilyn ei weithdrefn gwyno fel na ellid ymchwilio i hanfod y gŵyn yn gywir. Yn yr achos hwn, mae'n bosibl na fyddai mân gamgymeriadau yn y drefn na fyddent yn gallu cael effaith ar y canlyniad yn cael eu hystyried yn ddigon difrifol.
220. Os bydd asesiad y Comisiwn yn dod i'r casgliad y cafodd y weithdrefn gwyno neu Safon eu torri, ond nad yw'n debygol o fod yn ddifrifol, yna dylai allu cymryd y camau gweithredu a ganlyn:
- a) gwneud dim;
 - b) rhoi cyngor a/neu gymorth i'r corff mewn cysylltiad â phwnc y gŵyn neu sut y gwnaeth ymdrin â hi (e.e. cyngori'r corff i ymddiheuro); a/neu
 - c) ei gwneud yn ofynnol i'r corff ailystyried ei benderfyniad, neu ran ohono.
221. Os yw asesiad y Comisiwn yn canfod bod yr achos o dorri naill ai'r weithdrefn gwyno neu Safon yn debygol o fod yn un difrifol, dylai fod yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal ymchwiliad.
222. Ar hyn o bryd, mae'r Mesur yn pennu gweithdrefn ar gyfer ymchwiliadau a gynhelir gan y Comisiynydd. Awgrymodd yr ymatebion i'r alwad am dystiolaeth fod y broses yn rhy gymhleth ac yn hirfaith. Rydym o'r farn fod ein cynigion yn golygu mai dim ond mewn achosion difrifol y byddai ymchwiliad yn cael ei gynnal, pan fydd cyfiawnhad dros gael gweithdrefn drylwyr, ond rydym yn croesawu syniadau ynghylch ffyrdd i symleiddio'r weithdrefn ymchwilio a dal ati yr un pryd i sicrhau bod ymchwiliadau'n deg ac yn drylwyr. Fel sy'n digwydd yn awr, dylai'r Comisiwn allu penderfynu peidio â pharhau ag ymchwiliad.
223. Er mai dyma'r weithdrefn rydym yn ei chynnig ar gyfer ymdrin â chwynion, ni fyddem yn dymuno atal y Comisiwn rhag cynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun mewn amgylchiadau eraill. Er enghraifft, mae'n bosibl y gallai mater ddod i sylw'r Comisiwn

drwy waith monitro cydymffurfiaeth corff â'r Safonau a oedd yn awgrymu bod rhywbeth o'i le. Mae'n bosibl na fyddai digon o wybodaeth gan y Comisiwn heb y math o dystiolaeth y byddai gweithdrefn gwyno wedi'i darparu. O dan amgylchiadau o'r fath, gellid cyfiawnhau ymchwiliad a dylai'r Comisiwn allu cychwyn un.

Cwestiynau ymgynghori

32. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig mai dim ond os yw o'r farn fod yr achos honedig o dorri Safon neu weithdrefn gwyno yn un ddifrifol y dylai'r Comisiwn arfaethedig gael cymryd camau gweithredu pellach mewn perthynas â chŵyn?

Cytuno/Anghytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau ategol, gan gynnwys unrhyw sylwadau ar ein diffiniad o 'achos difrifol' ym mharagraff 219.

33. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ganiatáu i'r Comisiwn arfaethedig gynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun?

Cytuno/Anghytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau ategol

Camau gorfodi yn dilyn ymchwiliad

224. Drwyddo draw yn y Papur Gwyn hwn, rydym wedi pwysleisio pwysigrwydd camau unioni a gorfodi sy'n gymesur ac yn anad dim yn ceisio cywiro pethau, a phwysigrwydd helpu gwasanaethau cyhoeddus i wella ansawdd a chysondeb y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn Gymraeg. Bwriad y gweithdrefnau a gynigir ar gyfer ymdrin â chwynion a'r cynnig y dylai'r Comisiwn sicrhau bod cydbwysedd rhwng ei swyddogaethau i hybu'r Gymraeg a'i swyddogaethau monitro a gorfodi, a helpu cyrff â'u dyletswyddau o ran cynllunio ieithyddol yw helpu i gyflawni hyn. Serch hynny, bydd achlysuron pan fydd gofyn cymryd camau cyfarwyddo.

225. Pan fydd y Comisiwn wedi cynnal ymchwiliad a dod i'r casgliad fod corff wedi torri'r Safonau, dylai'r opsiynau canlynol fod ar gael i'r Comisiwn (nodwyd y tri opsiwn cyntaf eisoes ym mharagraff 220):

a) gwneud dim;

b) rhoi cyngor a/neu gymorth i'r corff mewn cysylltiad â phwnc y gŵyn neu sut y gwnaeth ymdrin â hi (e.e. cynghori'r corff i ymddiheuro);

c) ei gwneud yn ofynnol i'r corff ailystyried ei benderfyniad, neu ran ohono.

d) rhoi cyfarwyddyd i'r corff, neu dderbyn ymrwymadau gan y corff, i gymryd camau i:

- i. unioni'r methiant i gydymffurfio (â gweithdrefn gwyno neu â Safon);
- ii. sicrhau bod y corff yn cydymffurfio'n gywir yn y dyfodol â'r gofynion a osodwyd ar ei gyfer;

e) gosod dirwy sifil;

f) gofyn yn y Llys Sirol am orchymyn llys i'w gwneud yn ofynnol i'r corff gymryd camau gweithredu.

226. Ar hyn o bryd, mae gan y Comisiynydd bŵer i osod dirwy sifil o hyd at £5,000 ac, mewn rhai amgylchiadau, i ofyn am orchymyn llys i'w gwneud yn ofynnol i gorff gymryd camau gweithredu. Prif ddiben y pwerau hyn yw cael effaith ataliol. Nid ydym yn ymwybodol iddynt gael eu defnyddio hyd yma. Rydym yn cynnig cadw'r pwerau hyn, i'w defnyddio pan fetha popeth arall. Byddem yn croesawu eich sylwadau ynghylch y pwerau arfaethedig hyn a'r ddirwy sifil uchaf y caiff y Comisiwn ei gosod.

227. Nid ydym yn cynnig cadw'r pwerau ynghylch cytundebau setlo (a. 91-92) na'r pwerau ynghylch cyhoeddusrwydd (a. 81-82) sydd yn y Mesur presennol. Rydym o'r farn bod y pwerau gorfodi arfaethedig a nodwyd ym mharagraff 220 yn disodli'r pwerau o ran cytundebau setlo. Mewn perthynas â chyhoeddusrwydd, bydd y weithdrefn gwyno enghreifftiol a gynigir ym mharagraff 215 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff gyhoeddi canlyniadau gweithdrefnau cwyno ac rydym wedi cynnig y dylai fod yn ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi ei benderfyniadau a'r rhesymau drostynt. Nid ydym o'r farn felly fod angen y pwerau yn adrannau 81-82 a 91-92 o'r Mesur.

Cwestiynau ymgynghori

34. A ydych chi'n cytuno fod y camau gweithredu a ddisgrifir ym mharagraff 225 yn darparu amrywiaeth effeithiol o gamau gorfodi?

Cytuno/Anghytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau ategol, gan gynnwys unrhyw syniadau ynghylch camau gorfodi eraill a wrthodwyd neu nad ydynt wedi cael eu hystyried yn y Papur Gwyn.

35. Ar hyn o bryd, mae gan y Comisiynydd bwerau i osod dirwy sifil o hyd at £5,000 ac, mewn rhai amgylchiadau, i ofyn am orchymyn llys i'w gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylid cadw'r pwerau hyn?

Cytuno/Anghytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau ategol, gan gynnwys unrhyw sylwadau ynghylch y ddirwy sifil uchaf y dylai'r Comisiwn arfaethedig allu ei gosod (os o gwbl).

Apelio i Dribiwnlys y Gymraeg

228. Rôl presennol Tribiwnlys y Gymraeg yw galluogi aelodau o'r cyhoedd a chyrrff i apelio yn erbyn penderfyniad y Comisiynydd. Pe na fyddai'r Tribiwnlys yn bod, byddai person sy'n dymuno herio penderfyniad y Comisiynydd yn gorfod gwneud cais am adolygiad barnwrol yn yr Uchel Lys. Mae'r Tribiwnlys yn darparu cyfiawnder i'r cyhoedd a chyrrff cyhoeddus mewn ffordd fwy hwylus a llai costus nag adolygiad barnwrol yn yr Uchel Lys. Rydym o'r farn y dylai hyn barhau.

229. Rydym yn cynnig y dylid cadw'r Tribiwnlys mewn perthynas â phenderfyniadau'r Comisiwn ynghylch gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau. Ni fydd yn ymdrin ag unrhyw

benderfyniadau eraill a wneir gan y Comisiwn, er enghraifft, mewn perthynas â'i waith hybu'r Gymraeg neu â monitro dyletswyddau cynllunio ieithyddol. Rydym yn cynnig y dylai'r Tribiwnlys hefyd ymdrin ag apelau yn erbyn penderfyniadau Gweinidogion Cymru o ran gosod Safonau (paragraffau 186-196). Er ein bod wedi cynnig mai Llywodraeth Cymru (yn hytrach na'r corff a bennwyd i fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau) a ddylai fod yn gyfrifol am osod Safonau, nid yw'r cwestiwn sylfaenol a yw'n rhesymol ac yn gymesur gosod Safon ar gorff penodol wedi newid. Felly, rydym o'r farn y dylid cadw'r hawl i herio Safon a osodir, a bod y Tribiwnlys yn darparu cyfiawnder mewn ffordd fwy hwylus nag adolygiad barnwrol yn yr achos hwn hefyd.

230. Ar hyn o bryd mae'r Mesur yn darparu fod yn rhaid i'r Tribiwnlys, o dan rai amgylchiadau, roi caniatâd i ymgeisydd wneud cais i'r Tribiwnlys. Rhaid i'r Tribiwnlys roi caniatâd pan fo o'r farn bod siawns rhesymol y bydd y cais yn llwyddo neu pan fo rheswm cryf pam y dylai'r cais gael ei glywed. Er ein bod eisiau i gyfiawnder fod yn hawdd ei gael, rydym hefyd o'r farn nad yn y Tribiwnlys y dylid datrys anghydfodau y byddai'n rhesymol disgwyl iddynt gael eu datrys ar lefel is, naill ai rhwng y partïon neu chyda cymorth y Comisiwn. Mae hon yn egwyddor sy'n gymwys i'r system farnwrol yng Nghymru a Lloegr yn gyffredinol.
231. Mae'n rhesymol i gredu mai dim ond achosion o sylwedd a ddylai gyrraedd y Tribiwnlys. Mewn perthynas â phenderfyniadau'r Comisiwn ynghylch gorfodi Safonau, rydym yn cynnig y dylai fod cam cyntaf gorfodol. Yn y cam hwn, dylai fod yn rhaid i'r Tribiwnlys roi caniatâd ar y sail bod siawns rhesymol y bydd y cais yn llwyddo neu bod rheswm cryf pam y dylai'r cais gael ei glywed.
232. Yn achos cyrff sy'n herio penderfyniad Llywodraeth Cymru i osod Safon arnynt, dim ond un ffordd sydd i apelio, sef gofyn i Lywodraeth Cymru ailystyried ei phenderfyniad. Nid oes unrhyw beth sy'n cyfateb i'r ail haen sy'n bodoli yn achos cwynion, sef apelio i'r Comisiwn. Gellir dadlau felly na ddylai'r cam cyntaf gorfodol fod yn gymwys mewn perthynas â cheisiadau i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i osod Safon. Fodd bynnag, byddem yn croesawu sylwadau ynghylch a ddylid gwneud pob apêl yn ddarostyngedig i gam cyntaf gorfodol fel mai'r unig achosion y byddai'r Tribiwnlys yn eu hystyried yw rhai sydd â siawns rhesymol o lwyddo neu lle mae rheswm cryf pam y dylai'r cais gael ei glywed.
233. Byddai angen i ni ystyried yn fanwl pa benderfyniadau a wneir gan y Comisiwn mewn perthynas â gorfodi y byddai angen i'r Tribiwnlys benderfynu arnynt.

Cwestiynau ymgynghori

36. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gadw rôl y Tribiwnlys mewn perthynas â phenderfyniadau'r Comisiwn arfaethedig ynghylch gorfodi cydymffurfiaeth cyrff â'r Safonau?

Cytuno/Anghytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau ategol

37. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai'r Tribiwnlys hefyd ymdrin ag apelau yn erbyn penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i osod Safonau ar gorff?

Cytuno/Anghytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau ategol

38. Rydyn ni'n cynnig cyflwyno cam cyntaf gorfodol ar gyfer y Tribiwnlys mewn perthynas ag apelau yn erbyn penderfyniadau'r Comisiwn arfaethedig ynghylch gorfodi Safonau. Byddai'r cam cyntaf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Tribiwnlys roi caniatâd ar y sail bod siawns rhesymol y bydd y cais yn llwyddo neu pan fo rheswm cryf arall pam y dylai'r cais gael ei glywed. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig?

Cytuno/Anghytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau ategol

39. A ydych chi o'r farn y dylai'r cam cyntaf gorfodol arfaethedig fod yn gymwys i apelau yn erbyn penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i osod Safonau ar gorff?

Ydw/Nac ydw/Ansicr

Sylwadau ategol

40. A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol ar Ran 3 y Papur Gwyn?

Rhan 4: Cwmpas y cyrff sy'n ddarostyngedig i ddeddfwriaeth y Gymraeg

234. Cyn bod corff yn gorfod cydymffurfio â Safonau, mae'n rhaid iddo gael ei enwi neu ddod o dan gategori a restrir yn Atodlen 6 neu Atodlen 8 y Mesur.¹⁶
235. Caiff Llywodraeth Cymru ddiwygio Atodlen 6, drwy orchymyn, i gynnwys corff newydd, neu gategori newydd o gyrff. Fodd bynnag, rhaid i unrhyw gorff neu gategori newydd sy'n cael ei ychwanegu i Atodlen 6 ddod o fewn un o'r categorïau yn Atodlen 5 yn gyntaf. Mae wyth o categorïau yn Atodlen 5 ac mae'r rhain yn cynnwys cyrff sydd yn awdurdodau cyhoeddus at ddiben Deddf Hawliau Dynol 1998, cyrff sy'n cael £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus am ddwy flynedd yn olynol, a chyrff sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd sydd naill ai wedi'u sefydlu drwy ddeddfiad neu y mae'n ofynnol iddynt ddarparu'r gwasanaethau hynny drwy ddeddfiad.
236. Yn yr un modd, caiff Llywodraeth Cymru ychwanegu cyrff neu gategori o gyrff i Atodlen 8, drwy orchymyn, ond dim ond os ydynt yn dod o dan un neu ragor o'r categorïau yn Atodlen 7. O ran cyrff yn Atodlen 8, sy'n fwy tebygol o fod yn gyrff yn y sector preifat, dim ond â Safonau cyflenwi gwasanaethau a chadw cofnodion y gellir gwneud iddynt gydymffurfio. Mae'r categorïau yn Atodlen 7 yn cynnwys darparwyr cyfleustodau, darparwyr gwasanaethau post, darparwyr gwasanaethau telathrebu a darparwyr gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd.
237. Rhaid i orchymynion i ychwanegu cyrff newydd neu gategori newydd o gyrff i Atodlen 6 neu Atodlen 8 gael eu cymeradwyo gan y Cynulliad.
238. Mae egwyddor wedi'i sefydlu felly, y caiff Llywodraeth Cymru ychwanegu at y rhestr ac i'r categorïau o gyrff y gellir gosod Safonau arnynt. Fodd bynnag, mae'r pŵer yn cael ei gyfyngu gan y ffaith bod cyrff newydd yn gorfod dod o dan un o'r categorïau yn naill ai Atodlen 5 neu 7. Ni chaiff Llywodraeth Cymru ddiwygio'r categorïau o gyrff yn Atodlenni 5 na 7. Dim ond drwy ddeddfwriaeth sylfaenol y gellid diwygio'r categorïau hynny.
239. Mae'r Safonau wedi cynyddu'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg ac mae'r iaith yn cael ei gweld a'i chlywed mewn mwy o leoedd erbyn hyn. O ganlyniad, ac o ystyried amlygrwydd busnesau sy'n darparu gwasanaethau y mae pobl yn dibynnu arnynt o ddydd i ddydd, mae rhai rhanddeiliaid o'r farn y dylai rhagor o fusnesau'r sector preifat ddod o dan system y Safonau. Mae galw wedi bod gan rai rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y Gymraeg y dylai banciau ac archfarchnadoedd, fel cyrff nad ydynt o fewn cwmpas y Mesur ar hyn o bryd, gael eu cynnwys yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae rhanddeiliaid o'r gymuned fusnes wedi mynegi pryder ynghylch y posibilrwydd y bydd rhagor o fusnesau'r sector preifat yn cael eu cynnwys yn system y Safonau ac maent wedi dadlau dros wneud cynnydd ar sail wirfoddol, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill.

Dileu cyfyngiadau Atodlenni 5 a 7

240. Gwnaed y ddeddfwriaeth bresennol o dan setliad datganoli blaenorol pan oedd angen caniatâd Senedd y DU cyn i'r Cynulliad gael deddfu. Roedd pŵer y Cynulliad i ddeddfu

¹⁶Mae amodau eraill y mae rhaid eu bodloni cyn bod corff yn gorfod cydymffurfio â Safonau, ond cael ei nodi yn Atodlen 6 neu 8 yw'r amod sy'n berthnasol i'r rhan hon o'r Papur Gwyn.

(ei gymhwysedd) pan wnaed y Mesur yn cynnwys y cyfyngiadau yn Atodlenni 5 a 7. Mae cymhwysedd y Cynulliad wedi ehangu'n sylweddol ers i'r Mesur gael ei basio, ac mae'n briodol bod unrhyw ddeddfwriaeth newydd ynghylch y Gymraeg yn adlewyrchu hynny.

241. Rydym yn cynnig bod y cyfyngiadau a bennir yn Atodlenni 5 a 7 yn cael eu dileu. Byddai hyn yn rhoi'r pŵer i Lywodraeth Cymru osod Safonau ar gorff, ar yr amod fod gwneud hynny'n rhesymol ac yn gymesur. Byddai ein cynnig yn arwain at ddeddfwriaeth sy'n fwy ystyrydd a hyblyg, a fyddai'n gallu ymateb i newidiadau o ran anghenion polisi a sicrhau ar yr un pryd bod Llywodraeth Cymru'n llwyr atebol, drwy weithdrefnau craffu'r Cynulliad, cyn iddi arfer y pŵer hwnnw.

Dileu'r gofyniad i gorff gael ei restru yn Atodlenni 6 neu 8

242. O ganlyniad i'r cynnig i ddileu'r gofyniad i ddod o fewn categori yn Atodlen 5 neu 7, mae'r sail resymegol ar gyfer cadw'r system restrau yn Atodlenni 6 ac 8 hefyd yn cwmpo. Un o fanteision cadw'r system restrau yw rhoi cyfle i gyrff a'r cyhoedd fynegi barn ynghylch a ddylai corff ddod o fewn system y Safonau ai peidio. Gellir gwireddu'r fantais hon drwy ei gwneud yn ofynnol cynnal ymgynghoriad ynghylch rheoliadau drafft sy'n gosod Safonau ar unrhyw gorff.
243. Rydym felly'n cynnig bod y gofyniad i gorff fod wedi'i restru yn Atodlenni 6 ac 8 yn cael ei ddileu.

Casgliadau

244. Er bod y cynigion hyn, yn eu cyfanrwydd, yn dileu nifer o'r cyfyngiadau presennol, bydd cyfyngiadau pwysig eraill ar waith. Dyma fyddai'r cyfyngiadau hynny:
- byddai unrhyw reoliadau ynghylch Safonau mewn perthynas â cyrff yn destun ymgynghoriad statudol;
 - byddai'n rhaid i unrhyw Safonau a ddarperir ar gyfer corff fod yn rhesymol a chymesur o ran y corff hwnnw;
 - yn achos busnesau preifat, dim ond i wasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid y byddai Safonau'n berthnasol;
 - byddai unrhyw reoliadau ynghylch Safonau'n gorfod cael eu cymeradwyo gan y Cynulliad;
 - byddai unrhyw reoliadau ynghylch Safonau'n gorfod bod o fewn cymhwysedd y Cynulliad, sy'n cynnwys bod yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.
245. Nid ydym yn cynnig y dylai Llywodraeth Cymru osod Safonau'n fuan ar gyrff nad ydynt yn dod o fewn system y Safonau ar hyn o bryd. O ystyried yr ansicrwydd economaidd presennol yn sgil y penderfyniad i adael yr UE, byddai yna risg yn sicr o roi mwy o bwysau ar gwmnïau'r sector preifat ac ar fewnfuddsoddiad. Byddai angen ystyried yn ofalus cyn rhoi dyletswyddau ar fusnesau yn y sector preifat ac ystyried y costau cysylltiedig, a byddai angen i ni ystyried yn ofalus iawn effaith ymestyn dyletswyddau ynghylch y Gymraeg i'r sector preifat, yn enwedig yn nhermau denu busnes a chyflogaeth newydd. Mae ein cynnig yn ymwneud ag egwyddor gyfansoddiadol a democrataidd bwysig, sef y caiff Llywodraeth Cymru gynnig, ac y caiff y Cynulliad gymeradwyo, gwneud pob corff yn ddarostyngedig i Safonau cyflenwi gwasanaethau

(fel y'u disgrifir ym mharagraff 176). Nid ydym eisiau i'r deddfwriaeth gael ei llyffetheirio gan gyfyngiadau mympwyol a diangen.

246. Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymo i ystyried priodoldeb ac effeithiolrwydd tebygol dod â chyrrff neu sectorau busnes preifat newydd o fewn system y Safonau. Os yw busnesau preifat newydd yn cael eu cynnwys yn system y Safonau, byddai'n rhaid gwneud hynny fel rhan o raglen waith ehangach a fyddai'n cynnwys gwaith i hybu'r Gymraeg a gweithio gyda'r sector i sicrhau ei fod yn barod ar gyfer y Safonau.
247. Rydym eisoes wedi nodi pwysigrwydd meithrin ewyllys da tuag at y Gymraeg er mwyn ein helpu i gyflawni Cymraeg 2050. Felly, i ddechrau, ein blaenoriaeth fyddai sicrhau bod y Comisiwn, drwy ei gynllun strategol, yn datblygu rhaglenni gwaith i gefnogi busnesau i ddatblygu eu gwasanaethau yn y Gymraeg ac i hybu eu gwasanaethau Cymraeg ymhlith eu cwsmeriaid.

Cwestiynau ymgynghori

41. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddileu'r cyfyngiadau yn y Mesur fel bod Llywodraeth Cymru'n meddu ar y pŵer i wneud Safonau'n gymwys i unrhyw gorff o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad?

Cytuno/Anghytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau ategol

42. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig mai dim ond mewn perthynas â'r gwasanaethau y maent yn eu cyflenwi i'w cwsmeriaid y dylai busnesau yn y sector preifat fod yn agored i orfod cydymffurfio â Safonau?

Cytuno/Anghytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau ategol, gan gynnwys eich barn ynghylch unrhyw gyfyngiadau y dylid eu rhoi ar y pwerau i osod Safonau ar fusnesau preifat.

43. A ydych chi'n cytuno â'n cynnig mai dim ond fel rhan o becyn ehangach o weithgarwch sy'n hybu'r Gymraeg ac yn cynyddu ymwybyddiaeth ohoni y dylid gosod Safonau ar fusnesau preifat?

Cytuno/Anghytuno/Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau ategol

44. Os rhoddir pwerau i Lywodraeth Cymru i osod Safonau ar unrhyw gorff o fewn cymhwysedd y Cynulliad, a ydych chi o'r farn y dylai Safonau gael eu gosod ar unrhyw gorff neu sector nad yw ar hyn o bryd o fewn cwrpas deddfwriaeth ynghylch y Gymraeg?

Ydw/Nac ydw/Ansicr

Sylwadau ategol

45. A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol ar Ran 4 y Papur Gwyn?

Rhan 5: Asesu effaith ein cynigion

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

248. Mae gofyniad cyfreithiol ar Weinidogion Cymru i ystyried effaith eu penderfyniadau polisi ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, cynhaliwyd asesiad o effaith y cynigion polisi yn y Papur Gwyn hwn ar y Gymraeg, ac mae canlyniadau'r asesiad i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

249. Dyma brif gasgliadau'r asesiad:

- mae ein cynigion i sicrhau gwell strwythurau i hybu'r Gymraeg a sicrhau hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael effeithiau cadarnhaol lu ar y Gymraeg. Mae'r rhain wedi'u nodi'n glir drwy gydol y Papur Gwyn hwn ac yn yr asesiad o'i effaith.
- roedd ein hasesiad yn cydnabod effaith bosibl ystyried y gwasanaethau y mae eu hangen ar bobl ac y mae pobl yn eu defnyddio wrth lunio Safonau.

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

250. Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth arfer eu swyddogaethau. I sicrhau y cydymffurfir â'r Mesur, cynhaliwyd asesiad o effaith y cynigion yn y Papur Gwyn hwn ar hawliau plant. Mae copi o ganlyniadau'r asesiad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni nodwyd unrhyw wrthdaro rhwng y cynigion yn ein Papur Gwyn a'r darpariaethau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

251. Dyma brif gasgliadau'r asesiad:

- y posibilrwydd o gyfuno deddfwriaeth sy'n ategu'r gwaith o gynllunio addysg Gymraeg (Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg) â'r dyletswyddau cynllunio ieithyddol arfaethedig yw'r prif gynnig yn y Papur Gwyn hwn a allai effeithio'n uniongyrchol ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.
- gallai ein cynigion ar gyfer symleiddio'r ffordd y mae system y Safonau yn gweithio gael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc drwy roi mwy o eglurder ar eu hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

252. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried effeithiau eu penderfyniadau ar y grwpiau gwarchoddedig a nodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Cynhaliwyd asesiad, felly, o effaith ein cynigion yn y Papur Gwyn hwn ar faterion cydraddoldeb. Mae copi o ganlyniadau'r asesiad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

253. Dyma brif gasgliadau'r asesiad:

- gallai ein cynigion ar gyfer symleiddio'r ffordd y mae system y Safonau yn gweithio gael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc, pobl hŷn, pobl ag anawsterau dysgu a

phobl â phroblemau iechyd meddwl drwy roi mwy o eglurder ar eu hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg;

- rydym wedi cydnabod y gall rhoi gwybodaeth ddwyieithog i bobl greu problemau i'r rheini sy'n siarad Cymraeg a'r rheini nad ydynt yn siarad Cymraeg wrth ddefnyddio darllenwyr sgrîn, ac i bobl ag anableddau dysgu.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

254. Byddwn yn defnyddio'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i gasglu gwybodaeth wrth inni gwblhau ein cynigion terfynol i ddiwygio'r trefniadau presennol ar gyfer hybu'r Gymraeg a monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau. Pan fydd gennym gynigion pendant, awn ati i gynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol er mwyn nodi effaith ein cynigion. Byddwn yn cyhoeddi ein Hasesiad Effaith Rheoleiddiol ynghyd â'n Bil ar gyfer y Gymraeg.

Cwestiynau ymgynghori

46. Rydym wedi asesu effaith ein cynigion ar gydraddoldeb, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, a'r Gymraeg. A oes gennych chi sylwadau ar unrhyw un o'r asesiadau hyn?

47. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn ein Papur Gwyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar:

- gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau fyddai yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

48. Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid yr opsiynau arfaethedig:

- fel eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- fel nad ydynt yn cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

49. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Y camau nesaf

255. Yn y Papur Gwyn hwn, rydym wedi nodi ein cynigion i greu deddfwriaeth newydd ar gyfer y Gymraeg i'n helpu i gyflawni Cymraeg 2050.
256. Rydym yn croesawu eich ymatebion i'r cwestiynau a holwyd yn ein papur ac unrhyw sylwadau eraill. Bydd eich ymatebion yn helpu i lywio ein camau nesaf ac unrhyw gamau deddfwriaethol y gallem benderfynu eu cymryd.
257. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 31 Hydref 2017.
258. Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn hwn, byddwn yn ystyried pob ymateb yn ofalus ac yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ar wefan Llywodraeth Cymru.

